



Comisiynydd y
Gymraeg
Welsh Language
Commissioner

Adroddiad Safonau Comisiynydd y Gymraeg – Adran 64 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011

Cyrff Cyhoeddus: Llywodraeth

[Cyf: 20151130ASCCLI - 1]

Cynnwys

1	Cefndir a chyd-destun	1
2	Ymchwiliad safonau mewn perthynas â chyrrff cyhoeddus: Llywodraeth	2
3	Rhesymoldeb a chymesuredd Meini prawf Comisiynydd y Gymraeg	4 5
4	Tystiolaeth a dderbyniwyd gan bersonau perthnasol	6
5	Tystiolaeth a dderbyniwyd gan aelodau o'r cyhoedd	48
6	Tystiolaeth a dderbyniwyd gan Banel Cynghori Comisiynydd y Gymraeg	54
7	Casgliadau'r ymchwiliad safonau	55
8	Y camau nesaf	66
	Atodiad A – Sylwadau cyffredinol a dderbyniwyd gan y cyhoedd ar ymchwiliadau safonau cylch 3	67
	Atodiad B – Rhestr o'r ymatebwyr i'r ymchwiliad safonau	70

1 Cefndir a chyd-destun

Prif nod Comisiynydd y Gymraeg, sefydliad annibynnol a grëwyd gan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 ('y Mesur'), yw hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg. Gwneir hyn drwy ddwyn sylw at y ffaith bod statws swyddogol i'r Gymraeg yng Nghymru a thrwy osod safonau ar sefydliadau. Bydd hyn, yn ei dro, yn arwain at hawliau i siaradwyr Cymraeg.

Bydd dwy egwyddor yn sail i waith y Comisiynydd:

- ni ddylid trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg yng Nghymru
- dylai personau yng Nghymru allu byw eu bywydau drwy gyfrwng y Gymraeg os ydynt yn dymuno gwneud hynny.

Ar 24 Mawrth 2015, pasiwyd Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015¹ yng Nghyfarfod Llawn Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Cafodd y safonau hyn eu datblygu i osod dyletswyddau ar gynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol yng Nghymru, awdurdodau parciau cenedlaethol a Gweinidogion Cymru. Mae pob cyfeiriad at safonau yn yr adroddiad safonau hwn yn cyfeirio at y safonau a bennwyd yn y rheoliadau uchod.

Wrth gyflwyno'r rheoliadau, nodwyd yr isod gan Lywodraeth Cymru:

Dyma ddeddfwriaeth hanesyddol a fydd yn rhoi sylfaen gadarn i'r iaith yn y sefydliadau hynny y bydd gofyn iddynt gydymffurfio â safonau. Bydd yn annog rhagor o ddefnydd o'r Gymraeg mewn sefyllfaoedd pob dydd, boed hynny wrth dderbyn gwasanaethau neu fel gweithwyr yn y sefydliadau dan sylw.²

Bu'r rheoliadau a gymeradwywyd ar 24 Mawrth 2015 yn sail ar gyfer ymchwiliadau safonau Comisiynydd y Gymraeg ac ymarferiad Llywodraeth Cymru i gasglu tystiolaeth er mwyn llunio asesiad effaith rheoleiddiol.

Daeth Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015 i rym ar 31 Mawrth 2015, a hynny yn dilyn dadl a phleidlais yng Nghyfarfod Llawn Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

¹ <http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2015/996/made/welsh/data.pdf>

² <http://gov.wales/about/cabinet/cabinetstatements/2015/welshlangstandards/?lang=cy>

2 Ymchwiliad safonau mewn perthynas â chyrrff cyhoeddus: Llywodraeth

Yn unol ag adran 62 y Mesur, cyflwynwyd hysbysiad rhagymchwilio ar 5 Mai 2015 at sylw personau yr ymddengys i'r Comisiynydd eu bod yn aelodau o'r grŵpiau canlynol o bersonau:

- Adrannau'r Llywodraeth
- Personau sy'n arfer ar ran y Goron, swyddogaethau a roddir gan neu o dan Ddeddf neu Fesur.

Y personau perthnasol a ddaw o fewn y grŵp 'Adrannau'r Llywodraeth' yn yr adroddiad safonau hwn yw:

- Gwasanaeth Erlyn y Goron
- Cyllid a Thollau EM
- Yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd
- Ystad y Goron
- Yr Asiantaeth Safonau Bwyd
- Cynilion a Buddsoddiadau Cenedlaethol
- Yr Asiantaeth Trosedd Cenedlaethol
- Swyddfa Rheoleiddio'r Rheilffyrdd³ (ORR)
- Swyddfa Marchnadoedd Nwy a Thrydan (Ofgem)
- Y Swyddfa Twyll Difrifol
- Yr Awdurdod Rheoleiddio Gwasanaethau Dŵr (Ofwat)
- Swyddfa Ystadegau Gwladol
- Comisiwn Elusennau Cymru a Lloegr.

Y personau perthnasol a ddaw o fewn y grŵp 'Personau sy'n arfer ar ran y Goron, swyddogaethau a roddir gan neu o dan Ddeddf neu Fesur' yn yr adroddiad safonau hwn yw:

³ Adnabyddir y person perthnasol hwn fel 'Office of Rail and Road' ers Ebrill 2015, i adlewyrchu ei chyfrifoldeb ychwanegol o fonitro 'Highways England'.

- Y Gwasanaeth Cyngori, Cymodi a Chyflafareddu (ACAS)
- Yr Awdurdod Meinweoedd Dynol (HTA)
- Yr Awdurdod Ffrwythloni Dynol ac Embryoleg (HFEA)
- Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE).

Hysbysiad ysgrifenedig yw hysbysiad rhagymchwilio, sy'n datgan bwriad Comisiynydd y Gymraeg i gynnal ymchwiliad safonau, ac sy'n pennu pwnc yr ymchwiliad safonau. Ni chaiff y Comisiynydd gynnal ymchwiliad safonau oni bai iddi roi hysbysiad rhagymchwilio i bob person perthnasol (sefydliad) o leiaf 14 diwrnod cyn dechrau ar yr ymchwiliad.

Pwnc yr ymchwiliad safonau hwn oedd dyfarnu pa safonau (os o gwbl) a ddylai fod yn benodol gymwys i bob person perthnasol a ddaw o fewn y grwpiau o bersonau (p'un a yw'r safonau eisoes wedi eu pennu gan Weinidogion Cymru o dan adran 26(1) ai peidio). Cychwynnodd cyfnod yr ymchwiliad safonau hwn ar 26 Mai 2015. Daeth i ben ar 18 Awst 2015.

Yn rhan o'r ymchwiliad safonau hwn, casglwyd gwybodaeth gan pob un o'r adrannau'r llywodraeth a restrir uchod. Gwnaethpwyd hynny trwy dderbyn holiadur wedi ei gwblhau ganddynt. Casglwyd tystiolaeth hefyd gan y Panel Cyngori a'r cyhoedd.

Gosodwyd holiadur i'r cyhoedd ar wefan Comisiynydd y Gymraeg. Pwrpas yr holiadur hwn oedd rhoi cyfle i aelodau'r cyhoedd nodi'r hyn roeddent yn teimlo sy'n rhesymol i'r personau perthnasol ei wneud a'i ddarparu yn Gymraeg, a hynny gan ystyried y gofynion ynghlwm wrth y safonau a bennwyd mewn rheoliadau ar 24 Mawrth 2015. Gosodwyd hysbysiadau yn y wasg genedlaethol yn ystod cyfnod yr ymchwiliad safonau yn tynnu sylw'r cyhoedd at yr holiadur hwn. Yn ogystal â hynny, gosodwyd fideo ar wefan y Comisiynydd er mwyn rhoi cyflwyniad i'r broses, ac i ddangos i'r cyhoedd sut y gallant ymateb i'r ymchwiliad safonau.

3 Rhesymoldeb a chymesuredd

Yn unol ag adran 63(1) y Mesur, rhaid i'r Comisiynydd roi sylw i'r angen am sicrhau nad yw gofynion am i bersonau gydymffurfio â safonau yn rhinwedd adran 25(1) yn afresymol neu'n anghymesur.

Wrth gynnal ymchwiliad safonau, rhaid i'r Comisiynydd:

- (a) ystyried, o ran pob gweithgaredd a bennir yn Atodlen 9 y mae person yn ei wneud, a yw'n rhesymol ac yn gymesur i safonau cyflenwi gwasanaethau fod yn benodol gymwys ai peidio, ac
- (b) o ran pob gweithgaredd o'r fath, os yw'n rhesymol ac yn gymesur i safonau cyflenwi gwasanaethau fod yn benodol gymwys i berson, ddod i'r casgliad y dylai safonau cyflenwi gwasanaethau fod yn benodol gymwys i'r person mewn perthynas â'r gweithgaredd hwnnw.

Wrth ystyried y cwestiwn o resymoldeb a chymesuredd, dylid nodi bod y Mesur yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i sicrhau bod rheoliadau yn darparu bod safonau cyflenwi gwasanaethau sy'n ymwneud â phob un o'r gweithgareddau yn Atodlen 9 a wneir gan y person (ac i'r graddau y mae'n eu gwneud) yn benodol gymwys i'r person hwnnw.

Ond nid oes rhaid i Weinidogion Cymru sicrhau bod rheoliadau yn darparu bod safonau cyflenwi gwasanaethau yn benodol gymwys i berson mewn perthynas â gweithgaredd a bennir yn Atodlen 9 os yw, neu i'r graddau y mae:

- (a) adroddiad safonau o dan adran 64 yn nodi y byddai'n afresymol neu'n anghymesur i safonau cyflenwi gwasanaethau fod yn benodol gymwys i berson mewn perthynas â'r gweithgaredd hwnnw, neu bod
- (b) Gweinidogion Cymru o'r farn y byddai'n afresymol neu'n anghymesur i safonau cyflenwi gwasanaethau fod yn benodol gymwys i berson mewn perthynas â'r gweithgaredd hwnnw.

Nid yw hynny'n atal rheoliadau rhag darparu bod safonau cyflenwi gwasanaethau eraill yn benodol gymwys i berson.

Drwy wneud rheoliadau o dan y Mesur hwn yn arferadwy drwy offeryn statudol, awdurdodir Comisiynydd y Gymraeg i roi hysbysiad cydymffurfio i berson.

Hysbysiad cydymffurfio yw hysbysiad a roddir i berson gan y Comisiynydd:

- (a) sy'n nodi, neu'n cyfeirio at, un neu ragor o safonau a bennir gan Weinidogion Cymru o dan adran 26(1), a
- (b) sy'n ei gwneud yn ofynnol i berson gydymffurfio â'r safon neu â'r safonau a nodir neu y cyfeirir ati neu atynt.

Bydd Comisiynydd y Gymraeg yn ystyried y dystiolaeth a ddarparwyd wrth ddod i benderfyniad ar gynnwys hysbysiad cydymffurfio a roddir i berson.

Nid yw'r ffaith bod safon yn benodol gymwys i berson yn golygu bod dyletswydd arno i gydymffurfio â'r safon honno. Dim ond os bydd y Comisiynydd yn rhoi hysbysiad cydymffurfio i'r person, a bod yr hysbysiad hwnnw'n ei gwneud hi'n ofynnol i gydymffurfio â safon ar ddiwrnod gosod, y bydd y ddyletswydd honno mewn grym.

Cyn rhoi hysbysiad cydymffurfio i berson, bydd Comisiynydd y Gymraeg yn ymgynghori â'r person. Nid yw methiant y person i gymryd rhan mewn ymgynghoriad yn atal y Comisiynydd rhag rhoi hysbysiad cydymffurfio i'r person hwnnw.

Wedi i Gomisiynydd y Gymraeg roi hysbysiad cydymffurfio i berson, caiff y person hwnnw wneud cais i'r Comisiynydd yn gofyn iddi ddyfarnu a yw'r gofyniad i gydymffurfio â'r safon honno, neu i gydymffurfio â'r safon yn y modd hwnnw, yn afresymol neu'n anghymesur ai peidio. Pe bai'r Comisiynydd yn hysbysu person nad yw'r gofyniad i gydymffurfio â safon yn afresymol neu'n anghymesur, rhoddir hawl yn y Mesur iddo apelio i'r Tribiwnlys er mwyn dod i ddyfarniad.

Meini prawf Comisiynydd y Gymraeg

Wrth ddod i farn ar bwnc yr ymchwiliad safonau hwn, yn unol â'r gofynion a amlinellir yn Rhan 4, Pennod 8 y Mesur, ystyriwyd y meini prawf canlynol ochr yn ochr â'r dystiolaeth a dderbyniwyd yn rhan o'r ymchwiliad safonau. Nid oes rhaid ystyried pob maen prawf ymhob achos, ac nid oes un o'r meini prawf yn bwysicach na'u gilydd.

- A yw'r person perthnasol yn agored i orfod cydymffurfio â safonau – a yw'r person perthnasol yn dod o fewn Atodlen 5 a hefyd o fewn Atodlen 6, neu yn dod o fewn Atodlen 7 a hefyd o fewn Atodlen 8?
- A yw'r dosbarth o safon (cyflenwi gwasanaethau; llunio polisi; gweithredu; cadw cofnodion; hybu) yn gymwysadwy i'r person perthnasol?
- A yw'r person perthnasol yn gwneud y gweithgaredd⁴ dan sylw?
- A yw'r person perthnasol eisoes wedi ymrwymo i ddarparu'r gweithgaredd, neu'r weithred dan sylw, yn rhannol neu'n llawn, drwy ei gynllun iaith Gymraeg?
- A yw'r person perthnasol eisoes yn darparu'r gwasanaeth yn Gymraeg (boed hynny'n cyfateb i'r union ofynion sydd ynghlwm wrth safon ai peidio), neu'n gwneud y gweithgaredd yn unol â'r safon?
- A yw mwyafrif helaeth y personau perthnasol eraill o fewn yr un sector yn darparu'r gwasanaeth yn Gymraeg, neu'n gwneud y gweithgaredd?
- A oes unrhyw resymau eraill yn erbyn, neu o blaid gwneud y safon yn benodol gymwys i'r person perthnasol?

⁴ Ystyrir y maen prawf hwn yng nghyswllt safonau cyflenwi gwasanaethau yn unig.

4 Tystiolaeth a dderbyniwyd gan bersonau perthnasol

Derbyniwyd tystiolaeth gan bob un o'r personau perthnasol a restrir uchod. Roedd y dystiolaeth hon yn cynnwys ymatebion i 199 o gwestiynau mewn holiadur, yn ogystal â thystiolaeth bellach a ddarparwyd yn dilyn ymholiadau dilynol.

Darllenwyd pob ymateb yn unigol a defnyddiwyd meddalwedd i gofnodi a dadansoddi'r testun ac i gan fod themâu cyffredinol. Cynhaliwyd cyfarfodydd rheolaidd ymhlith swyddogion Comisiynydd y Gymraeg er mwyn dadansoddi'r dystiolaeth a dderbyniwyd yn ogystal ag ymrwymadau cyfredol cynlluniau iaith Gymraeg y personau perthnasol dan sylw.

Yn yr adran hon nodir canran gyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau perthnasol sy'n cyfateb i'r safonau (boed hynny'n cyfateb i'r union ofynion sydd ynghlwm wrth y safonau ai peidio) ar gyfer pob gweithgaredd.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol y cynlluniau iaith Gymraeg yn erbyn y safonau, dylid nodi nad oedd modd paru nifer o'r safonau mewn perthynas â gweithgareddau cyflenwi gwasanaethau, a hynny oherwydd natur fanwl y rheoliadau a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru. Dan rai amgylchiadau, mae'n bosibl fod y personau perthnasol dan sylw yn ymrwymo i'r gofyniad neu'n cydymffurfio ag ef, ond nad yw hynny wedi ei ddatgan yn benodol yn eu cynlluniau iaith Gymraeg.

Rhoddir crynodeb o'r dystiolaeth a dderbyniwyd gan bob person perthnasol a ddaw o fewn y grwpiau o bersonau a nodir yn adran 4 yr adroddiad hwn. Roedd y dystiolaeth a gyflwynwyd yn cynnwys gwybodaeth ynghylch pa weithgareddau a wneir gan y personau dan sylw, pa weithgareddau y maent yn eu gwneud trwy gyfrwng y Gymraeg ac i ba raddau y maent yn gallu cydymffurfio â'r safonau.

Ar 5 Mai 2015, nid oedd y personau a ganlyn yn meddu ar gynllun iaith Gymraeg wedi ei gymeradwyo o dan adran 14(1) Deddf yr Iaith Gymraeg 1993:

- Yr Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol
- Swyddfa Rheoleiddio'r Rheilffyrdd (ORR)
- Y Swyddfa Twyll Difrifol
- Ystad y Goron
- Y Gwasanaeth Cyngori, Cymodi a Chyflafareddu
- Yr Awdurdod Meinweoedd Dynol
- Yr Awdurdod Ffrwythloni Dynol ac Embryoleg.

Adrannau'r Llywodraeth

Safonau cyflenwi gwasanaethau

Gweithgaredd 1: Gohebiaeth a anfonir gan gorff

Safonau ynghylch gohebiaeth a anfonir gan gorff [1–7]

Nododd pob un o'r 13 person perthnasol o fewn y grŵp Adrannau'r Llywodraeth eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw. O'r rhai hynny, nododd deg person perthnasol (77%) eu bod yn gwneud y gweithgaredd yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cynlluniau iaith Gymraeg cyfredol y personau dan sylw, roedd gan bob un ohonynt ymrwymadau oedd yn cyfateb, yn rhannol neu'n llawn, i un neu ragor o'r safonau perthnasol. O blith y personau hynny, ar gyfartaledd roedd yr ymrwymadau'n cyfateb i 78% o'r safonau ynghylch gohebiaeth a anfonir gan gorff.

Nododd pob un o'r personau hyn, ac eithrio Gwasanaeth Erlyn y Goron a'r Asiantaeth Safonau Bwyd, eu bod yn ystyried y byddai gwneud y safonau hyn yn benodol gymwys iddynt yn afresymol ac anghymesur. Eglurodd Gwasanaeth Erlyn y Goron ei bod yn anodd rhag-weld pa bryd y byddai safonau 4–7 yn berthnasol iddo. Nid oedd yr Asiantaeth Safonau Bwyd o'r farn y byddai modd iddi gydymffurfio â safon 7. Eglurwyd ei bod yn gohebu'n ddwyieithog ag aelodau'r cyhoedd beth bynnag.

Roedd Cyllid a Thollau EM wedi nodi ei fod eisoes yn gwneud darpariaeth Gymraeg ond yn rhag-weld y byddai cydymffurfio â safonau 2, 3, 4, 5 a 7 yn benodol yn afresymol ac anghymesur, a hynny oherwydd y galw am wasanaeth o'i gymharu â demograffeg ei gwsmeriaid, ystyriaethau ymarferol ynghylch diweddarau systemau busnes, a'r gost.

Nid oedd yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd o'r farn fod gweithredu safonau 2–5 yn ymarferol nac yn gymesur.

Nododd Ystad y Goron iddi ddod i'r casgliad fod y safonau yn afresymol ac yn anghymesur, o ystyried natur gweithgareddau Comisiynwyr Ystad y Goron. Eglurwyd mai 2% yn unig o'i gweithgarwch sy'n digwydd yng Nghymru ac mai gweithgarwch masnachol yw hwnnw, nid darparu gwasanaeth. Tynnwyd sylw hefyd at y gost a'r diffyg galw am wasanaeth. Ystyriai Ystad y Goron y byddai unrhyw beth yn ychwanegol at yr hyn mae'n ei weithredu yn wirfoddol ar hyn o bryd yn afresymol ac anghymesur.

Cyfeiriodd Cynilion a Buddsoddiadau Cenedlaethol at y ffaith fod y rhan fwyaf o'u busnes yn cael ei gynnal gyda'u cwsmeriaid presennol ledled Prydain, ac mai ychydig iawn o gwsmeriaid newydd fyddai ganddynt. Nodwyd eu bod yn ymateb i geisiadau am ohebiaeth yn Gymraeg ond yn ystyried y byddai gofyn am ddewis iaith y cwsmer yn anghymesur, gan nad yw'r rhan fwyaf o'u cwsmeriaid yn siarad Cymraeg, hyd y gwyddent.

Nododd yr Asiantaeth Trosedd Cenedlaethol nad oedd yn gohebu â'r cyhoedd yn rheolaidd, ac mai ystyried pob cais i ymateb i ohebiaeth Gymraeg yn yr iaith honno yn unigol y mae'r Asiantaeth yn ei wneud ar hyn o bryd.

Nododd Swyddfa Rheoleiddio'r Rheilffyrdd (ORR) nad yw'n cynnal y gweithgareddau ynghlwm â safonau 3 a 4 gan mai gohebu ag unigolion yn unig a wna. Roedd o'r farn fod cost cydymffurfio â safon 5 yn anghymesur.

Roedd y Swyddfa Marchnadoedd Nwy a Thrydan (Ofgem) o'r farn fod safonau 4 a 7 yn afresymol i'w gweithredu ar draws y sefydliad, ond yn gweld amodau penodol lle gellid cydymffurfio â hwy, hynny yw, o ran gweithgarwch penodol yng Nghymru neu'n gysylltiedig â'r iaith Gymraeg. Tybiai fod safon 5, yn gyffredinol, yn afresymol iddi gydymffurfio â hi.

Yn ei hymateb cyfeiriodd y Swyddfa Twyll Difrifol at gymesuredd, gan nodi mai un swyddfa yn unig sydd ganddi, a bod honno yn Llundain. Eglurwyd ei bod eisoes yn ymdrechu i ymateb yn gadarnhaol i unrhyw alw am wasanaeth yn Gymraeg.

Nododd yr Awdurdod Rheoleiddio Gwasanaethau Dŵr (Ofwat) nad oedd fel arfer yn dechrau gohebu ag aelodau o'r cyhoedd. Er ei fod yn fodlon cyfeirio at y ffaith ei fod yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg, nododd yr Awdurdod nad oedd yn gallu gwarantu na fyddai hyn yn arwain at oedi. Cyfeiriwyd yn benodol at safonau 2, 3 a 4 fel rhai y tybid eu bod yn afresymol ac anghymesur iddo oherwydd mai sefydliad a leolir yn Lloegr yn unig ydyw.

Mynegodd y Swyddfa Ystadegau Gwladol barodrwydd i weithredu'r safonau hyn, ond yn unig yn unol â chyfyngiadau o ran maint, perthnasedd a galw gan ddefnyddwyr.

Nododd Comisiwn Elusennau Cymru a Lloegr ei fod o'r farn mai safonau 1 a 7 yn unig oedd yn rhesymol iddo, a hynny oherwydd mai cynnal perthynas ag elusennau yr oedd yn hytrach nag unigolion. Eglurwyd ei fod yn gohebu ag elusennau yn unol â'u dewis iaith wedi i hynny gael ei sefydlu. Dylid nodi yn y cyd-destun hwn fod Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015⁵ yn nodi mai "ystyr 'unigolyn' ('individual') yw aelod o'r cyhoedd". Wrth ymdrin â safonau sy'n cyfeirio at "y cyhoedd", yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, nodar Comisiynydd y byddant yn berthnasol i'r canlynol:

- personau cyfreithiol
- cyrff corfforaethol, ac
- unigolion.

Byddai'r uchod yn cynnwys:

- aelodau unigol o'r cyhoedd
- cyfran o'r cyhoedd,⁶ a'r
- cyhoedd yn ei gyfanrwydd.

Gweithgaredd 2: Galwadau ffôn i gorff ac oddi wrth gorff Safonau ynghylch galwadau ffôn i gorff ac oddi wrth gorff [8–22]

⁵ <http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2015/996/made/welsh/data.pdf>

⁶ Gan gynnwys cyrff gwirfoddol ac elusennau am eu bod yn ffurfio rhan o'r cyhoedd.

Nododd pob un o'r personau perthnasol eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw. O'r rhai hynny, nododd 6 pherson perthnasol (50%) eu bod yn ei wneud yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cynlluniau iaith Gymraeg cyfredol y personau dan sylw, ar gyfartaledd roedd gan 89% ymrwymadau oedd yn cyfateb, yn rhannol neu'n llawn, i 46% o'r safonau ynghylch galwadau ffôn i gorff ac oddi wrth gorff.

Nododd pob un o'r personau hyn, ac eithrio Gwasanaeth Erllyn y Goron a'r Asiantaeth Safonau Bwyd, eu bod yn ystyried y byddai gwneud y safonau hyn yn benodol gymwys iddynt yn afresymol ac anghymesur. Fodd bynnag, nododd yr Asiantaeth ei bod o'r farn na fyddai modd iddi gydymffurfio â safonau 18–20, nac ychwaith â safon 21. Yn ogystal, nid oedd yr Asiantaeth yn ystyried bod safonau 15 a 22 yn berthnasol iddi.

Roedd Cyllid a Thollau EM o'r farn y gallai gydymffurfio, yn llawn neu'n rhannol o leiaf, â mwyafrif y safonau hyn. Fodd bynnag, nododd nad oedd yn rhag-weld y gallai gydymffurfio ag union ofyniad safonau 13, 16, 21, a 22.

Nododd yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd mai staff yn Llundain sy'n darparu'r gwasanaeth ffôn. Sefydliad a leolir yn Llundain yn unig yw'r Swyddfa Twyll Difrifol hefyd.

Eglurodd yr Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol nad oedd fel rheol yn ymdrin ag aelodau o'r cyhoedd dros y ffôn.

Nododd Ystad y Goron iddi ddod i'r casgliad fod y safonau yn afresymol ac yn anghymesur, o ystyried natur gweithgareddau Comisiynwyr Ystad y Goron. Eglurwyd mai 2% yn unig o'i gweithgarwch sy'n digwydd yng Nghymru ac mai gweithgarwch masnachol yw hwnnw, nid darparu gwasanaeth. Tynnwyd sylw hefyd at y gost a'r diffyg galw am wasanaeth. Ystyriai Ystad y Goron y byddai unrhyw beth yn ychwanegol at yr hyn mae'n ei weithredu yn wirfoddol ar hyn o bryd yn afresymol ac anghymesur.

Ar hyn o bryd, mae Cynilion a Buddsoddiadau Cenedlaethol yn gweithredu trefn lle mae'r gwasanaeth ffôn Cymraeg yn cael ei ddarparu gan gyflenwr arall. Nid yw'r trefniant hwn yn un cyflawn gan nad oes gan y partner fynediad at gyfrifon unigol am resymau cyfreithiol. Er hynny, roedd Cynilion a Buddsoddiadau Cenedlaethol o'r farn fod y drefn hon yn gymesur â'r galw am wasanaeth Cymraeg.

Nid oes gan ORR swyddfa na phresenoldeb yng Nghymru. Fodd bynnag, yn ei hymateb nodwyd dulliau amgen a fyddai'n ei galluogi, yn ei barn hi, i gydymffurfio'n rhannol â safonau 10 ac 18–20.

Roedd Ofgem o'r farn fod modd cydymffurfio'n rhannol â safonau 8–16 a 22 wrth ymwneud â'i swyddfa yng Nghymru, ond y byddai hyn yn anodd iawn i weddill y sefydliad. Ystyriai Ofgem y byddai'n anodd iawn gweithredu safon 21 ar draws y sefydliad. Gan nad oedd wedi ei leoli yng Nghymru, roedd yr Awdurdod Rheoleiddio Gwasanaethau Dŵr yn ystyried y safonau hyn oll yn rhai anghymesur.

Nododd y Swyddfa Ystadegau Gwladol nad ydyw fel arfer yn ymdrin â'r cyhoedd, gan mai ymdrin â sefydliadau eraill a wna fel rheol. Dylid nodi nad yw cynnwys y safonau hyn yn cyfeirio'n benodol at aelodau'r cyhoedd, neu wedi eu cyfyngu iddynt. Fel y nodwyd eisoes, mae Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015⁷ yn nodi mai "ystyr 'unigolyn' ('individual') yw aelod o'r cyhoedd". Wrth ymdrin â'r safonau sy'n cyfeirio at "y cyhoedd", yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, dehongliad y Comisiynydd⁸ yw y byddant yn berthnasol i'r canlynol:

- personau cyfreithiol
- cyrff corfforaethol, ac
- unigolion.

Byddai'r uchod yn cynnwys:

- aelodau unigol o'r cyhoedd
- cyfran o'r cyhoedd,⁹ a'r
- cyhoedd yn ei gyfarwydd.

Eglurwyd yn ymateb y Swyddfa Ystadegau Gwladol fod modd iddi weithredu safonau 18, 19, ac 20, ac y byddai unrhyw gynlluniau penodol (megis llinellau cymorth y cyfrifiad) yn cael eu gweithredu drwy gyfrwng y Gymraeg hefyd.

Roedd Comisiwn Elusennau Cymru a Lloegr o'r farn fod modd gweithredu'r safonau hynny a fyddai'n caniatáu i alwadau gael eu trosglwyddo i siaradwyr Cymraeg. Rhagwelai anhawster gyda gweithredu safon 21, fodd bynnag.

Gweithgaredd 3: Cyfarfodydd a gynhelir gan gorff nad ydynt yn agored i'r cyhoedd yn gyffredinol

Safonau ynghylch cyfarfodydd a gynhelir gan gorff nad ydynt yn agored i'r cyhoedd yn gyffredinol [23–29]

Nododd pob un o'r 13 person perthnasol, ac eithrio Cynilion a Buddsoddiadau Cenedlaethol, eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw (92%). O'r rhai hynny, nododd 5 person (42%) eu bod yn gwneud y gweithgaredd yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cynlluniau iaith Gymraeg cyfredol y personau perthnasol dan sylw, roedd gan 67% ohonynt ymrwymadau oedd yn cyfateb, yn rhannol neu'n llawn, i un neu ragor o'r safonau dan sylw. O blith y personau hynny, ar gyfartaledd roedd yr ymrwymadau'n cyfateb i 57% o'r safonau ynghylch cyfarfodydd a gynhelir gan gorff nad ydynt yn agored i'r cyhoedd yn gyffredinol.

Nododd pob un person perthnasol eu bod o'r farn y byddai gwneud y safonau hyn yn benodol gymwys iddynt yn afresymol ac anghymesur.

Eglurodd Gwasanaeth Erlyn y Goron fod modd cydymffurfio â'r safonau mewn achosion pan fo'r Erlynydd yn medru'r Gymraeg.

⁷ <http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2015/996/made/welsh/data.pdf>

⁸ Yn seiliedig ar gyngor cyfreithiol a gymerwyd ar y mater hwn.

⁹ Gan gynnwys cyrff gwirfoddol ac elusennau am eu bod yn ffurfio rhan o'r cyhoedd.

Nododd Cyllid a Thollau EM ei fod yn gallu cydymffurfio o ran darparu cyfieithu mewn cyfarfodydd. Fodd bynnag, nid oedd yn rhag-weld y byddai modd gweithredu safonau 23 a 27CH gan y byddai hynny'n golygu newid ym model cynnal busnes y sefydliad. Yn ei ymateb, ychwanegodd y sefydliad nad oedd yn cynnal cyfarfodydd sy'n ymwneud â llesiant.

Roedd yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd o'r farn nad oedd gweithredu safonau 23–26 yn rhesymol nac yn gymesur, ond bod modd gweithredu 27–29, gan ffafrio safon 27C.

Nododd Ystad y Goron iddi ddod i'r casgliad fod y safonau yn afresymol ac yn anghymesur, o ystyried natur gweithgareddau Comisiynwyr Ystad y Goron. Eglurwyd mai 2% yn unig o'i gweithgarwch sy'n digwydd yng Nghymru ac mai gweithgarwch masnachol yw hwnnw, nid darparu gwasanaeth. Tynnwyd sylw hefyd at gost a'r diffyg galw am wasanaeth. Ystyriai Ystad y Goron y byddai unrhyw beth yn ychwanegol at yr hyn mae'n ei weithredu yn wirfoddol ar hyn o bryd yn afresymol ac anghymesur.

Nododd yr Asiantaeth Safonau Bwyd nad oedd y rhan fwyaf o'r safonau hyn yn berthnasol iddi (e.e. cyfarfodydd personol yn ymwneud â llesiant) neu eu bod yn rhai na ellir eu gweithredu oherwydd diffyg gallu yn fewnol i wneud hynny.

Mynegodd yr Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol y farn ei bod yn afresymol ac yn anghymesur iddi weithredu'r safonau yn gyffredinol, ond y byddai ceisiadau am gyfieithu ar y pryd mewn cyfarfodydd yn cael eu hystyried fesul achos. Yn debyg iawn, nododd ORR y byddai'n ystyried gweithredu safonau 24–24B fesul achos. Dylid nodi nad dyna'r gofyniad a amlinellir yn y safonau.

Nododd Ofgem y byddai modd gweithredu'r safonau hyn ar y sail mai cyfarfodydd a gynhelir yn ei swyddfa yng Nghymru fyddai dan sylw.

Barn y Swyddfa Twyll Difrifol oedd bod y safonau hyn yn afresymol ac anghymesur gan ei bod yn sefydliad a leolir yn Llundain yn unig.

Tybiai Ofwat fod y safonau sy'n ymwneud â llesiant yn amherthnasol iddo, gan nad yw'n cynnal cyfarfodydd o'r fath. Ategwyd hynny drwy nodi ei fod yn ystyried safon 27CH yn anghymesur.

Nododd y Swyddfa Ystadegau Gwladol fod modd cydymffurfio â'r safonau mewn perthynas â gwaith maes yn ymwneud â chyfrifiad 2021, ond nid yn fwy cyffredinol na hynny oherwydd natur dechnegol, arbenigol ei gwaith.

Nid oedd Comisiwn Elusennau Cymru a Lloegr o'r farn ei fod yn cynnal cyfarfodydd oedd yn ymwneud â llesiant. Nododd fod ei allu i gydymffurfio yn dibynnu ar natur y cyfarfod; mae rhai o dimau'r Comisiwn wedi eu lleoli yn gyfan gwbl y tu allan i Gymru, tra mae modd i eraill gynnal busnes yn Gymraeg.

**Gweithgaredd 4: Cyfarfodydd a drefnir gan gorff sy'n agored i'r cyhoedd
Safonau ynghylch cyfarfodydd a drefnir gan gorff sy'n agored i'r cyhoedd [30–34]**

Nododd chwech o'r 13 person perthnasol (46%) eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw (Gwasanaeth Erlyn y Goron, Cyllid a Thollau EM, yr Asiantaeth Safonau Bwyd, Swyddfa Rheoleiddio'r Rheilffyrdd, y Swyddfa Ystadegau Gwladol, a Chomisiwn Elusennau Cymru a Lloegr). O'r rhai hynny, nododd pedwar person (67%) eu bod yn ei wneud yn Gymraeg. ORR a Chomisiwn Elusennau Cymru a Lloegr oedd y ddau berson nad oedd yn gwneud hynny.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cynlluniau iaith Gymraeg cyfredol y personau perthnasol dan sylw, roedd gan bob un ohonynt ymrwymadau oedd yn cyfateb, yn rhannol neu'n llawn, i un neu ragor o'r safonau dan sylw. O blith y personau hynny, ar gyfartaledd, roedd yr ymrwymadau'n cyfateb i 78% o'r safonau ynghylch cyfarfodydd a drefnir gan gorff sy'n agored i'r cyhoedd.

Bu i'r chwe pherson perthnasol a gadarnhaodd eu bod yn gwneud y gweithgaredd nodi y byddai gwneud y safonau hyn yn benodol gymwys iddynt yn rhesymol a chymesur. Nid oedd y gweddill o'r un farn, am y rheswm syml nad oeddent yn gwneud y gweithgaredd.

Eglurodd ORR nad oedd yn gwneud y gweithgaredd dan sylw yn Gymraeg ar hyn o bryd ond y gallai ystyried ceisiadau am gyfieithu fesul achos.

Gweithgaredd 5: Digwyddiadau cyhoeddus a drefnir neu a ariennir gan gorff Safonau ynghylch digwyddiadau cyhoeddus a drefnir neu a ariennir gan gorff [35–36]

Nododd pump o'r 13 person perthnasol (38%) eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw (Gwasanaeth Erlyn y Goron, yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd, Ystad y Goron, yr Asiantaeth Safonau Bwyd, a'r Swyddfa Ystadegau Gwladol). O'r rhai hynny, nododd pedwar person perthnasol (80%) eu bod yn ei wneud yn Gymraeg. Ystad y Goron oedd yr eithriad.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cynlluniau iaith Gymraeg cyfredol y personau perthnasol dan sylw, roedd gan 67% ohonynt ymrwymadau oedd yn cyfateb, yn rhannol neu'n llawn, i un neu ragor o'r safonau. O blith y personau hynny, roedd yr ymrwymadau'n cyfateb ar gyfartaledd i 62% o'r safonau ynghylch digwyddiadau cyhoeddus a drefnir neu a ariennir gan gorff.

Roedd y pedwar person a adroddodd eu bod yn gwneud y gweithgaredd yn Gymraeg o'r farn fod gwneud y safonau hyn yn benodol gymwys iddynt yn rhesymol a chymesur. Casgliad Ystad y Goron oedd ei bod yn annhebygol o ymgymryd â'r gweithgaredd hwn yng Nghymru yn rheolaidd, ac felly y byddai gwneud y safonau hyn yn benodol gymwys iddi yn afresymol ac anghymesur.

Gweithgaredd 6: Cyhoeddusrwydd a hysbysebu gan gorff Safon ynghylch cyhoeddusrwydd a hysbysebu gan gorff [37]

Nododd wyth o'r 13 person perthnasol (62%) eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw (Gwasanaeth Erlyn y Goron, Cyllid a Thollau EM, yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd, Ystad y Goron, yr Asiantaeth Safonau Bwyd, Cynilion a Buddsoddiadau Cenedlaethol, Ofgem, a'r Swyddfa Ystadegau Gwladol). O'r rhai hynny, nododd chwe pherson (75%) eu bod yn gwneud y gweithgaredd yn Gymraeg. Ystad y Goron a Chynilion a Buddsoddiadau Cenedlaethol oedd y rhai a nododd nad oeddent yn gwneud y gweithgaredd yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymïadau cynlluniau iaith Gymraeg cyfredol y personau perthnasol dan sylw, roedd gan 89% ohonynt ymrwymïadau oedd yn cyfateb i'r safon ynghylch cyhoeddusrwydd a hysbysebu.

Cytunai Gwasanaeth Erlyn y Goron, Ofgem, a'r Swyddfa Ystadegau Gwladol y byddai gwneud y safonau hyn yn benodol gymwys iddynt yn rhesymol a chymesur.

Nododd Cyllid a Thollau EM ei fod yn ystyried y gofyniad yn afresymol oherwydd ei fod yn ymgymryd â'r gweithgaredd ar draws y Deyrnas Unedig ac y byddai newid ymagwedd yn anghymesur â'r galw am y gwasanaeth. Nododd Ystad y Goron, yn ogystal â Chynilion a Buddsoddiadau Cenedlaethol, farn debyg.

Eglurodd yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd fod modd iddo gydymffurfio â'r safon mewn perthynas â'i weithgarwch yng Nghymru.

Gweithgaredd 7: Corff yn arddangos deunydd yn gyhoeddus Safonau ynghylch corff yn arddangos deunydd yn gyhoeddus [38–39]

Nododd saith o'r 13 person perthnasol (54%) eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw (Gwasanaeth Erlyn y Goron, Cyllid a Thollau EM, Ystad y Goron, yr Asiantaeth Safonau Bwyd, Ofgem, y Swyddfa Ystadegau Gwladol, a Chomisiwn Elusennau Cymru a Lloegr). Nododd pob un o'r saith person perthnasol uchod eu bod yn gwneud y gweithgaredd yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymïadau cynlluniau iaith Gymraeg cyfredol y personau perthnasol dan sylw, roedd gan 89% ohonynt ymrwymïadau oedd yn cyfateb, yn rhannol neu'n llawn, i un neu ragor o'r safonau dan sylw. O blith y personau hynny, roedd yr ymrwymïadau'n cyfateb i 100% o'r safonau ynghylch corff yn arddangos deunydd yn gyhoeddus.

Cadarnhaodd yr Asiantaeth Safonau Bwyd, Ofgem a Chomisiwn Elusennau Cymru a Lloegr eu bod o'r farn y byddai gwneud y safonau hyn yn benodol gymwys iddynt yn rhesymol a chymesur. Cytunai Gwasanaeth Erlyn y Goron eu bod yn rhesymol a chymesur ar gyfer arddangos deunydd yn gyhoeddus yng Nghymru.

Safon 39 yn unig a ystyriai Cyllid a Thollau EM yn berthnasol iddo. Nodwyd yn ei ymateb fod modd cydymffurfio'n rhannol â'r safon hon ar hyn o bryd.

Bu i Ystad y Goron nodi ei bod yn gwneud y gweithgaredd, ond cyfeirio at hysbysiadau swyddogol a wnaed yn ei hymateb. Dylid nodi bod safonau penodol wedi eu pennu o fewn Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015 ar gyfer hysbysiadau swyddogol.

Cyfeiriodd y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn benodol at ffeiriau recriwtio yn ei hymateb, gan nodi bod natur dechnegol ac arbenigol y deunydd, ynghyd â diffyg sgiliau iaith o fewn y timau recriwtio sy'n mynychu'r digwyddiadau hyn, yn gwneud y gofyniad yn un afresymol ac anghymesur.

Gweithgaredd 8: Corff yn llunio ac yn cyhoeddi dogfennau Safonau ynghylch corff yn llunio ac yn cyhoeddi dogfennau [40–49]

Nododd pob un o'r 13 person perthnasol eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, ac eithrio Cynilion a Buddsoddiadau Cenedlaethol. O'r 12 hynny, nododd naw

person (75%) eu bod yn gwneud y gweithgaredd yn Gymraeg; Gwasanaeth Erlyn y Goron, yr Asiantaeth Trosedd Cenedlaethol a ORR oedd yr eithriadau.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cynlluniau iaith Gymraeg cyfredol y personau dan sylw, roedd gan bob un o'r personau perthnasol ymrwymadau oedd yn cyfateb, yn rhannol neu'n llawn, i un neu ragor o'r safonau dan sylw. O blith y personau hynny, roedd yr ymrwymadau'n cyfateb ar gyfartaledd i 61% o'r safonau ynghylch corff yn llunio ac yn cyhoeddi dogfennau.

Roedd Gwasanaeth Erlyn y Goron a'r Asiantaeth Safonau Bwyd o'r farn y byddai gwneud y safonau hyn yn benodol gymwys iddynt yn rhesymol a chymesur. Fodd bynnag, nododd yr Asiantaeth na fyddai modd iddi gydymffurfio â safon 49 yn benodol.

Cynigiodd Cyllid a Thollau EM ddulliau amgen o gydymffurfio â'r safonau hyn ar sail ymateb i geisiadau am wasanaeth Cymraeg. Nododd y byddai gwneud y safonau, fel y maent, yn benodol gymwys iddo yn afresymol ac anghymesur oherwydd demograffeg cwsmeriaid y sefydliad a'r galw hanesyddol am wasanaeth.

Nododd yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd ei fod yn ystyried detholiad o'r safonau yn rhesymol a chymesur iddo, ond bod rhai safonau, megis 40, 43, 44, yn rhai y dylid eu gweithredu ar ôl defnyddio system sgorio. Dylid nodi fodd bynnag nad oes safon yn ymwneud â systemau sgorio yn y rheoliadau. Nid oedd yr Awdurdod o'r farn fod safonau 42 a 45 yn berthnasol iddo. Wrth gydnabod nad oedd yn gwneud y gweithgaredd yn Gymraeg ar hyn o bryd, roedd ymateb ORR yn cynnwys dulliau o gynnig gwasanaeth oedd yn seiliedig ar feini prawf, y galw a'r gost er enghraifft, heb gydymffurfio ag union ofynion y safonau hyn.

Nid oedd yr Asiantaeth Trosedd Cenedlaethol yn ystyried y byddai gwneud y safonau hyn oll yn benodol gymwys iddi yn rhesymol nac yn gymesur, a hynny oherwydd yr adnoddau y byddai eu hangen arni i wneud hyn. Nododd yr Asiantaeth y byddai modd ystyried cydymffurfio fesul achos.

Nododd Ystad y Goron iddi ddod i'r casgliad fod y safonau yn afresymol ac yn anghymesur, o ystyried natur gweithgareddau Comisiynwyr Ystad y Goron. Eglurwyd mai 2% yn unig o'i gweithgarwch sy'n digwydd yng Nghymru ac mai gweithgarwch masnachol yw hwnnw, nid darparu gwasanaeth. Tynnwyd sylw hefyd at y gost a'r diffyg galw am wasanaeth. Ystyriai Ystad y Goron y byddai unrhyw beth yn ychwanegol at yr hyn mae'n ei weithredu yn wirfoddol ar hyn o bryd yn afresymol ac anghymesur.

Nododd Ofgem fod ei waith yn dechnegol ac nad oedd wedi ei dargedu at aelodau o'r cyhoedd yn gyffredinol. Gan ystyried hyn, nid oedd o'r farn y byddai gwneud safonau 40, 42 a 44 yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur. Eglurwyd hefyd, mewn perthynas â safon 41, nad oedd ei gyfarfodydd yn agored i'r cyhoedd, ond nid eglurwyd a yw'r ddogfennaeth gysylltiedig a restrwyd dan safon 41 ar gael i'r cyhoedd ai peidio.

Cyfeiriodd y Swyddfa Twyll Difrifol at ddyletswyddau ehangach ar gyfer ymdrin â rhai sydd dan amheuaeth. Ym marn y Swyddfa, mae hyn yn sicrhau bod dogfennaeth yn cael ei chyfieithu yn ôl yr angen, ac yn gymesur yn ei thyb hi.

Safonau 41 a 42 oedd yr unig rai yr ystyriai Ofwat y byddai eu gwneud yn benodol gymwys iddo yn afresymol ac anghymesur, a hynny oherwydd y pwysau ychwanegol ar adnoddau. Nid oedd o'r farn fod safon 45 yn berthnasol iddo.

Eglurodd y Swyddfa Ystadegau Gwladol ei bod yn gweithredu polisi o baratoi deunydd yn ddigidol yn unig. Caiff deunydd perthnasol i Gymru ei gyfieithu, ynghyd â'r holl ddeunydd sy'n ymwneud â'r cyfrifiad. Ac eithrio parhau â'r arfer hwn, nid oedd y Swyddfa o'r farn y byddai gwneud y safonau hyn yn benodol gymwys iddi yn rhesymol a chymesur.

Nododd Comisiwn Elusennau Cymru a Lloegr ei fod o'r farn y byddai gwneud detholiad o'r safonau'n benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur. Tynnwyd sylw at adroddiadau mewnol, agendâu a chofnodion cyfarfodydd, ynghyd â datganiadau i'r wasg, fel materion oedd yn peri pryder.

Gweithgaredd 9: Corff yn llunio ac yn cyhoeddi ffurflenni Safonau ynghylch corff yn llunio ac yn cyhoeddi ffurflenni [50–51]

Nododd naw o'r 13 person perthnasol (69%) eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw (Gwasanaeth Erlyn y Goron, Cyllid a Thollau EM, Ystad y Goron, yr Asiantaeth Safonau Bwyd, Cynilion a Buddsoddiadau Cenedlaethol, y Swyddfa Twyll Difrifol, Ofgem, y Swyddfa Ystadegau Gwladol, a Chomisiwn Elusennau Cymru a Lloegr). O'r rhai hynny, nododd saith person (78%) eu bod yn gwneud y gweithgaredd yn Gymraeg. Ystad y Goron ac Ofgem oedd yr eithriadau.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cynlluniau iaith Gymraeg cyfredol y personau dan sylw, roedd gan bob un ohonynt ymrwymadau oedd yn cyfateb, yn rhannol neu'n llawn, i un neu ragor o'r safonau dan sylw. O blith y personau hynny, roedd yr ymrwymadau'n cyfateb ar gyfartaledd i 72% o'r safonau ynghylch corff yn llunio ac yn cyhoeddi ffurflenni.

Nododd Gwasanaeth Erlyn y Goron, a'r Asiantaeth Safonau Bwyd i raddau, eu bod yn derbyn y byddai gwneud y safonau hyn yn benodol gymwys iddynt yn rhesymol a chymesur. Er hynny, teimlai'r Asiantaeth na fyddai modd iddi gydymffurfio'n llawn â gofynion safonau 50A a 50B fel ag y maent.

Nid oedd Cyllid a Thollau EM yn ystyried y byddai gwneud safonau 50 a 50A yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur oherwydd demograffeg ei gwsmeriaid a lefel y galw am wasanaeth yn hanesyddol. Dadl Cynilion a Buddsoddiadau Cenedlaethol oedd mai sicrhau bod ffurflenni ar gael yn Gymraeg ar gais oedd yr ymagwedd gymesur iddynt hwy.

Nododd Ystad y Goron iddi ddod i'r casgliad fod y safonau yn afresymol ac yn anghymesur, o ystyried natur gweithgareddau Comisiynwyr Ystad y Goron. Eglurwyd mai 2% yn unig o'i gweithgarwch sy'n digwydd yng Nghymru ac mai gweithgarwch masnachol yw hwnnw, nid darparu gwasanaeth. Tynnwyd sylw hefyd at y gost a'r diffyg galw am wasanaeth. Ystyriai Ystad y Goron y byddai unrhyw beth yn ychwanegol at yr hyn mae'n ei weithredu yn wirfoddol ar hyn o bryd yn afresymol ac anghymesur.

Nododd Ofgem fod modd iddo gydymffurfio pe bai'r ffurflenni'n ddogfennau syml, heb fod wedi eu cynhyrchu gan system feddalwedd benodol. Ym marn Ofgem,

byddai anawsterau ymarferol (swyddfeydd y tu allan i Gymru, er enghraifft) a chost darparu ffurflenni o'r math hwn yn Gymraeg yn golygu bod y safon yn afresymol iddo.

Eglurodd y Swyddfa Twyll Difrifol ei bod yn darparu un ffurflen amlwg yn Gymraeg ac mai ystyried y sefyllfa fesul achos y maent yn ei wneud y tu hwnt i hynny ar hyn o bryd.

Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yn y broses o symud i ddull electronig o gasglu data a fydd yn osgoi'r angen i gynnal busnes ar bapur yn y pen draw. Bydd y rhaglen yn galluogi'r Swyddfa i gynnig pob ffurflen yn Gymraeg, ond yn y cyfamser detholiad ohonynt yn unig sydd ar gael, megis gwaith yn ymwneud â'r cyfrifiad er enghraifft.

Nododd Comisiwn Elusennau Cymru a Lloegr fod ganddo rai ffurflenni a oedd yn arbenigol iawn, yn dechnegol eu natur, ac ar gael i gynulleidfa gyfyng yn unig. O'r herwydd, ni themlai'r Comisiwn fod darparu'r ffurflenni hyn yn Gymraeg yn rhesymol.

Gweithgaredd 10: Gwefannau a gwasanaethau ar-lein corff Safonau ynghylch gwefannau a gwasanaethau ar-lein corff [52–57]

Nododd pob un o'r 13 person perthnasol eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw. Fodd bynnag, eglurodd y Swyddfa Twyll Difrifol nad oedd yn darparu gwasanaethau ar-lein. Nododd 11 person (85%) eu bod yn gwneud y gweithgaredd yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cynlluniau iaith Gymraeg cyfredol y personau dan sylw, roedd gan 89% o'r personau perthnasol ymrwymadau oedd yn cyfateb, yn rhannol neu'n llawn, i un neu ragor o'r safonau dan sylw. O blith y personau hynny, roedd yr ymrwymadau'n cyfateb ar gyfartaledd i 52% o'r safonau ynghylch gwefannau a gwasanaethau ar-lein corff.

Yr Asiantaeth Safonau Bwyd yn unig a ystyriai y byddai gwneud y safonau hyn yn benodol gymwys iddi yn rhesymol a chymesur, ond nodwyd nad oedd safon 57 yn berthnasol iddi gan nad oedd yn cynhyrchu apiau.

Nododd Gwasanaeth Eryl y Goron ei fod yn ystyried y byddai gweithredu'r safonau yn rhesymol o ran gwefan ardal Cymru, ond bod goblygiadau sylweddol i'w gweithredu ar brif wefan y Gwasanaeth.

Eglurodd Cyllid a Thollau EM mai GOV.UK sy'n cynnal cynnwys ei wefan ac yn gyfrifol am gynnwys torfol y wefan, ac eithrio'r gwasanaeth trafod a chynnwys arbenigol, sy'n rhan fechan yn unig o gynnwys Cyllid a Thollau EM. Mae Comisiwn Elusennau Cymru a Lloegr mewn sefyllfa debyg, a nododd y Comisiwn ei fod wedi colli cynnwys Cymraeg wrth symud i GOV.UK. Er ei fod yn ceisio adfer y ddarpariaeth oedd ar gael ac yn gweithio gyda'r gwasanaeth sy'n gyfrifol am GOV.UK, nid oedd y Comisiwn yn ystyried y safonau hyn yn rhesymol a chymesur oherwydd y diffyg rheolaeth sydd ganddo dros gynnwys GOV.UK.

Mae'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd yn cynnig tudalennau Cymraeg pan fydd yr wybodaeth o ddiddordeb penodol i ddefnyddwyr yng Nghymru. Cynrychiolydd yr Awdurdod yng Nghymru, ar sail meini prawf penodol, sy'n

penderfynu beth ddylid ei gyfieithu, a thybïai'r Awdurdod y byddai parhau â'r drefn hon yn rhesymol.

Nododd Ystad y Goron iddi ddod i'r casgliad fod y safonau yn afresymol ac yn anghymesur, o ystyried natur gweithgareddau Comisiynwyr Ystad y Goron. Eglurwyd mai 2% yn unig o'i gweithgarwch sy'n digwydd yng Nghymru ac mai gweithgarwch masnachol yw hwnnw, nid darparu gwasanaeth. Tynnwyd sylw hefyd at y gost a'r diffyg galw am wasanaeth. Ystyriai Ystad y Goron y byddai unrhyw beth yn ychwanegol at yr hyn mae'n ei weithredu yn wirfoddol ar hyn o bryd yn afresymol ac anghymesur.

Eglurodd Cynilion a Buddsoddiadau Cenedlaethol eu bod yn darparu'r cynnwys mwyaf poblogaidd yn Gymraeg. Nid oes modd gwneud trafodiadau ar-lein yn Gymraeg ar eu gwefan ar hyn o bryd, ac er eu bod wrthi'n datblygu eu systemau, maent o'r farn y byddai cost darparu rhyngwyneb Cymraeg ar gyfer trafodiadau yn golygu na fyddai'r gwasanaeth hwn yn cael ei gynnig ganddynt. Yn yr un modd, mae'r Asiantaeth Trosedd Cenedlaethol yn darparu detholiad o dudalennau sy'n cynnwys gwybodaeth allweddol am yr Asiantaeth yn Gymraeg, ac o'r farn fod hyn yn gymesur â'r galw. Dyma oedd safbwynt Ofgem hefyd, yn ogystal â'r Swyddfa Twyll Difrifol. Nododd ORR nad yw'n darparu unrhyw gynnwys yn Gymraeg ar hyn o bryd, ac roedd o'r farn mai'r dudalen hafan a'r pum tudalen mwyaf poblogaidd yn unig ddylid eu cyfieithu.

Nododd Ofwat fod ganddo wefan helaeth, a'r rhan fwyaf o'r deunydd wedi ei dargedu at gynulleidfa arbenigol, dechnegol. Ychwanegodd fod diffyg adnoddau o ran staff Cymraeg yn golygu ei fod yn ystyried y safonau hyn yn afresymol ac anghymesur. Yn debyg iawn, roedd y Swyddfa Ystadegau Gwladol o'r farn y byddai cyfieithu holl wefannau'r sefydliad yn anghymesur, o ystyried natur yr wybodaeth a'r ffaith ei bod yn gwasanaethu'r Deyrnas Unedig. Er hynny, cadarnhawyd bod deunydd cyffredinol a chynnwys perthnasol i Gymru ar gael yn Gymraeg.

Gweithgaredd 11: Defnydd corff o'r cyfryngau cymdeithasol Safonau ynghylch defnydd corff o'r cyfryngau cymdeithasol [58–59]

Nododd 12 o'r 13 person perthnasol (92%) eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw. Y Swyddfa Twyll Difrifol oedd yr unig un nad oedd yn gwneud defnydd o'r cyfryngau cymdeithasol. O'r rhai hynny oedd yn gwneud y gweithgaredd, nododd pedwar person perthnasol (33%) eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymïadau cynlluniau iaith Gymraeg cyfredol y personau dan sylw, nid oedd gan yr un o'r personau perthnasol ymrwymïadau oedd yn cyfateb, yn rhannol neu'n llawn, i un neu ragor o'r safonau dan sylw.

Yr Asiantaeth Safonau Bwyd oedd yr unig berson perthnasol a nododd ei bod yn ystyried y byddai gwneud y safonau hyn yn benodol gymwys iddi yn rhesymol a chymesur.

Defnyddir cyfrif Twitter Gwasanaeth Erlyn y Goron gan amrywiaeth o swyddogion, gan ei gwneud yn amhosibl, ym marn y Gwasanaeth, i gynnig gwasanaeth Cymraeg. Gall y Gwasanaeth ymateb i negeseuon yn Gymraeg yn yr iaith honno. Yr un modd, nododd Cyllid a Thollau EM a'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd eu bod yn ystyried mai ymateb yn unig i gyswllt Cymraeg drwy'r cyfryngau cymdeithasol oedd yn rhesymol iddynt. Roedd Ofgem yn barnu bod gwneud safon 58 yn benodol

gymwys iddo yn anghymesur gan ei fod yn sefydliad sy'n gweithredu ar draws Prydain ac mai tîm cyfathrebu a leolir yn Llundain sy'n gyfrifol am y cyfryngau cymdeithasol. Aeth Ofgem ymlaen i nodi y byddai'n ymdrechu i ymateb i negeseuon Cymraeg, ond efallai nad timau a leolir yng Nghymru fyddai fwyaf addas o ran darparu ymateb. Nododd Comisiwn Elusennau Cymru a Lloegr ei fod eisoes yn cydymffurfio â safon 59, ac yn ymateb i negeseuon yn y cyfryngau cymdeithasol Cymraeg yn Gymraeg. Er hynny, nid oedd yn gweld bod modd cydymffurfio â safon 58 oherwydd bod tîm y wasg wedi ei leoli yn Llundain.

Mae'r Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol wedi mynegi parodrwydd i ystyried achosion fesul un.

Nododd Cynilion a Buddsoddiadau Cenedlaethol fod ganddynt ddangosydd perfformiad ar gyfer ymateb i gyfathrebu drwy gyfrwng Twitter, Facebook a YouTube o fewn awr. Nid ydynt o'r farn fod modd gwneud hyn yn Gymraeg heb fuddsoddiad sylweddol. Safbwynt tebyg iawn oedd gan Ofwat a Swyddfa Rheoleiddio'r Rheilffyrdd, a gyfeiriodd at anghymesuredd penodi swyddog penodol er mwyn gweithredu'r safonau hyn. Cyfeiriodd y Swyddfa Ystadegau Gwladol at dimau penodol sy'n gyfrifol am y cyfryngau cymdeithasol, gan nodi nad oes siaradwyr Cymraeg o fewn y timau hyn ar hyn o bryd.

Nododd Ystad y Goron iddi ddod i'r casgliad fod y safonau yn afresymol ac yn anghymesur, o ystyried natur gweithgareddau Comisiynwyr Ystad y Goron. Eglurwyd mai 2% yn unig o'i gweithgarwch sy'n digwydd yng Nghymru ac mai gweithgarwch masnachol yw hwnnw, nid darparu gwasanaeth. Tynnwyd sylw hefyd at y gost a'r diffyg galw am wasanaeth. Ystyriai Ystad y Goron y byddai unrhyw beth yn ychwanegol at yr hyn mae'n ei weithredu yn wirfoddol ar hyn o bryd yn afresymol ac anghymesur.

Gweithgaredd 12: Peiriannau hunanwasanaeth Safon ynghylch peiriannau hunanwasanaeth [60]

Nid oedd unrhyw un o'r 13 person perthnasol wedi nodi eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cynlluniau iaith Gymraeg cyfredol y personau dan sylw, nid oedd gan unrhyw un o'r personau hynny ymrwymadau oedd yn cyfateb, yn rhannol neu'n llawn, i'r safon ynghylch peiriannau hunanwasanaeth.

Gan nad oedd yr un o'r personau wedi nodi eu bod yn gwneud y gweithgaredd, nid oedd yr un ohonynt wedi nodi bod gwneud y safon hon yn benodol gymwys iddynt yn rhesymol a chymesur.

Gweithgaredd 13: Arwyddion a arddangosir gan gorff Safonau ynghylch arwyddion a arddangosir gan gorff [61–63]

Nododd naw o'r 13 person perthnasol (69%) eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw. Yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd, Cynilion a Buddsoddiadau Cenedlaethol, yr Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol ac Ofgem oedd y rhai a nododd nad oeddent yn gwneud y gweithgaredd. O'r rhai hynny oedd yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, nododd chwe pherson perthnasol (67%) eu bod yn ei wneud yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cynlluniau iaith Gymraeg cyfredol y personau dan sylw, roedd gan 56% o'r personau perthnasol ymrwymadau oedd cyfateb, yn rhannol neu'n llawn, i un neu ragor o'r safonau dan sylw. O blith y personau hynny, roedd yr ymrwymadau'n cyfateb ar gyfartaledd i 67% o'r safonau ynghylch arwyddion a arddangosir gan gorff.

Cadarnhaodd pum person perthnasol y byddai gwneud y safonau hyn yn benodol gymwys iddynt yn rhesymol a chymesur, sef Gwasanaeth Erlyn y Goron, Cyllid a Thollau EM, yr Asiantaeth Safonau Bwyd, Ofgem a'r Swyddfa Ystadegau Gwladol. Nododd Comisiwn Elusennau Cymru a Lloegr ei fod yn gwneud y gweithgaredd ac yn ei wneud yn Gymraeg. Fodd bynnag, nid oedd o'r farn y byddai gwneud y safonau hyn yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur, a hynny oherwydd safon 62 a'r gofyniad i osod y Gymraeg mewn safle fel mai'r testun hwnnw sy'n debygol o gael ei ddarllen yn gyntaf.

Roedd mwyafrif y personau perthnasol eraill o'r farn y byddai gwneud y safonau'n benodol gymwys iddynt yn afresymol ac yn anghymesur oherwydd nad oeddent yn gwneud y gweithgaredd, neu oherwydd bod eu swyddfeydd wedi eu lleoli y tu allan i Gymru (yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd, Swyddfa Rheoleiddio'r Rheilffyrdd, y Swyddfa Twyll Difrifol, ac Ofwat). Nododd Ystad y Goron fod arwyddion Gymraeg ar gael yn y lleoliadau oedd o dan ei gofal yng Nghymru. Fodd bynnag, ychwanegwyd mai codi'r arwyddion yn wirfoddol a wnaed, a hynny am resymau masnachol, a'i bod o'r farn mai hyn yn unig oedd yn gymesur iddi. Eglurodd yr Asiantaeth Trosedd Cenedlaethol ei bod yn symud i leoliad dan ofal Heddlu De Cymru, ac er iddi gael ar ddeall y bydd arwyddion dwyieithog yn y lleoliad, nodwyd nad oedd yr Asiantaeth yn gwbl gyfrifol am adnoddau a'r ystad.

Gweithgaredd 14: Derbyn ymwelwyr i adeiladau'r corff Safonau ynghylch derbyn ymwelwyr i adeiladau'r corff [64–68]

Nododd deg o'r 13 person perthnasol (77%) eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw. O'r rhai hynny, nododd pedwar person perthnasol (40%) eu bod yn ei wneud yn Gymraeg. Yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd, Ystad y Goron a ORRyw'r personau a nododd nad ydynt yn gwneud y gweithgaredd.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cynlluniau iaith Gymraeg cyfredol y personau dan sylw, roedd gan 22% o'r personau perthnasol ymrwymadau oedd yn cyfateb, yn rhannol neu'n llawn, i un neu ragor o'r safonau dan sylw. O blith y personau hynny, roedd yr ymrwymadau'n cyfateb ar gyfartaledd i 25% o'r safonau ynghylch derbyn ymwelwyr i adeiladau'r corff.

Nid oedd yr un person perthnasol wedi nodi eu bod yn ystyried y byddai gwneud y safonau hyn yn benodol gymwys iddynt yn rhesymol a chymesur. Dylid nodi nad oedd testun yn cyd-fynd ag ymateb Gwasanaeth Erlyn y Goron yn egluro pam y byddai gwneud safonau hyn yn benodol gymwys iddo yn afresymol ac anghymesur. Nododd Cyllid a Thollau EM ei fod eisoes yn cydymffurfio â'r rhan fwyaf o ofynion y safonau hyn. Er hynny, roedd cydymffurfio â safon 64 ar bob achlysur yn bryder iddo, gan nad oedd o'r farn y byddai modd sicrhau bod siaradwyr Gymraeg ar gael ym mhob un o'i leoliadau ar bob achlysur.

Thema gyson yn yr ymatebion a nododd y byddai gwneud safonau hyn yn benodol gymwys iddynt yn afresymol ac yn anghymesur oedd y ffaith mai un tenant ymhlith

eraill mewn adeilad preifat oeddent, neu mewn adeilad dan ofal sefydliad arall. O ganlyniad roeddent yn dibynnu ar eraill i gynnig gwasanaeth derbynfa. Cyflwynwyd yr un safbwynt gan yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd, yr Asiantaeth Safonau Bwyd, yr Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol, ac Ofgem.

Nid oes gan Gynilion a Buddsoddiadau Cenedlaethol, Swyddfa Rheoleiddio'r Rheilffyrdd, y Swyddfa Twyll Difrifol nac Ofwat bresenoldeb yng Nghymru.

Er bod ganddi leoliad yng Nghymru, nododd y Swyddfa Ystadegau Gwladol mai trydydd parti, trwy contract, sy'n darparu'r gwasanaethau derbynfa a diogelwch. Roedd o'r farn y byddai gwneud y safonau'n benodol gymwys iddi yn afresymol oherwydd prinder staff â sgiliau i ddarparu gwasanaeth Cymraeg, ynghyd â'r nifer cymharol fach o ymwelwyr y mae'n eu derbyn i'w lleoliad. Nododd Comisiwn Elusennau Cymru a Lloegr ei fod yn rhentu gofod swyddfa ar brydles gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol, ac felly'n dibynnu ar y Swyddfa i ddarparu gwasanaeth derbynfa. Nodwyd, fodd bynnag, pe bai'r Comisiwn yn disgwyl ymwelwyr, y bydd yn sicrhau bod swyddog â sgiliau iaith Gymraeg yn y dderbynfa i'w cyfarfod.

Gweithgaredd 15: Corff yn gwneud hysbysiadau swyddogol Safonau ynghylch corff yn gwneud hysbysiadau swyddogol [69–70]

Nododd saith o'r 13 person perthnasol (54%) eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw. O'r rhai hynny, nododd pum person perthnasol (71%) eu bod yn ei wneud yn Gymraeg, sef Cyllid a Thollau EM, Cynilion a Buddsoddiadau Cenedlaethol, Ofwat, yr Asiantaeth Safonau Bwyd, a Chomisiwn Elusennau Cymru a Lloegr. ORR a'r Swyddfa Twyll Difrifol oedd y rhai a nododd eu bod yn gwneud y gweithgaredd, ond nad ydynt yn ei wneud yn Gymraeg,

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cynlluniau iaith Gymraeg cyfredol y personau dan sylw, roedd gan bob un o'r personau perthnasol ymrwymadau oedd yn cyfateb, yn rhannol neu'n llawn, i un neu ragor o'r safonau dan sylw. O blith y personau hynny, roedd yr ymrwymadau'n cyfateb ar gyfartaledd i 61% o'r safonau ynghylch corff yn gwneud hysbysiadau swyddogol.

Nododd Cyllid a Thollau EM ac Ofwat ei fod yn cytuno y byddai gwneud y safonau hyn yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur.

Yn ei hymateb, nododd yr Asiantaeth Safonau Bwyd ei bod o'r farn fod angen eglurhad pellach o'r diffiniad o hysbysiadau swyddogol. Nodir y canlynol yn Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015:

At ddibenion safonau 7, 69 a 70 ystyr "hysbysiad swyddogol" yw unrhyw hysbysiad y mae corff yn ei gyhoeddi er mwyn rhoi gwybod i bersonau am weithgareddau cyflenwi gwasanaethau neu newidiadau i weithgareddau cyflenwi gwasanaethau'r corff, ond nid yw'n cynnwys hysbysiadau swyddogol a ragnodir gan ddeddfiad.¹⁰

Cyfeiriodd yr Asiantaeth at nifer o hysbysiadau i gynulleidfaoedd penodol nad ydynt yn cwrdd â meini prawf penodol system sgorio cynllun iaith Gymraeg yr Asiantaeth – oherwydd y gynulleidfa, neu oherwydd natur brys yr hysbysiad, er enghraifft. Ar hyn

¹⁰ <http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2015/996/made/welsh/data.pdf>

o bryd, mae'r rhain cael eu paratoi yn Saesneg yn unig. Dylid nodi nad yw'r safon a bennir yn y rheoliadau yn cyfeirio at feini prawf penodol.

Nid oedd Comisiwn Elusennau Cymru a Lloegr o'r farn y byddai gwneud y safonau hyn yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur gan y teimlai y dylai elusennau gael dewis ym mha iaith y maent am dderbyn hysbysiadau gan y Comisiwn. Eglurodd y Comisiwn ei fod yn gwneud darpariaeth yn Gymraeg, neu'n ddwyieithog, i'r elusennau sy'n dymuno hynny.

Yn eu hymateb, cyfeiriodd Cynilion a Buddsoddiadau Cenedlaethol at ddatganiadau i'r wasg. Er iddynt nodi nad oeddent o'r farn y byddai gwneud y safonau hyn yn benodol gymwys iddynt yn rhesymol a chymesur, eglurwyd eu bod yn gwneud y datganiadau hyn yn ddwyieithog pan fydd y datganiad yn ymwneud â Chymru. Dylid nodi bod safonau eraill yn y rheoliadau sy'n ymdrin â datganiadau i'r wasg.

Nid oedd ORR a'r Swyddfa Twyll Difrifol yn ystyried bod y safonau hyn yn rhesymol a chymesur iddynt. Cyfeiriodd y ddau at ddiffyg presenoldeb yng Nghymru fel rheswm dros eu safbwynt.

Gweithgaredd 16: Corff yn dyfarnu grantiau Safonau ynghylch corff yn dyfarnu grantiau [71–75]

Nododd tri o'r 13 person perthnasol (23%) eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw. O'r rhai hynny, nododd dau berson (67%) eu bod yn ei wneud yn Gymraeg.

Cyllid a Thollau EM, yr Asiantaeth Safonau Bwyd ac Ofgem sy'n gwneud y gweithgaredd, a Chyllid a Thollau EM oedd yr un yn eu plith nad oedd yn ei wneud yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cynlluniau iaith Gymraeg cyfredol y personau dan sylw, roedd gan 89% o'r personau perthnasol ymrwymadau oedd yn cyfateb, yn rhannol neu'n llawn, i un neu ragor o'r safonau dan sylw. O blith y personau hynny, roedd yr ymrwymadau'n cyfateb ar gyfartaledd i 44% o'r safonau ynghylch corff yn dyfarnu grantiau.

Nododd Cyllid a Thollau EM ei fod yn cyflawni safonau 72, 72A, 74 a 75 eisoes yn Gymraeg, a'i fod yn cydymffurfio â safonau 71 a 73 yn rhannol. Y safonau hynny sydd eisoes yn rhannol weithredol ganddo oedd yn peri iddo gasglu na fyddai gwneud y safonau hyn yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur. Nid oedd o'r farn y byddai cydymffurfio'n llawn â'r safonau yn gymesur oherwydd y goblygiadau o ran adnoddau a'r galw tybiedig am wasanaeth.

Cytunai'r Asiantaeth Safonau Bwyd y byddai gwneud y safonau hyn yn benodol gymwys iddi yn rhesymol a chymesur. Fodd bynnag, eglurwyd bod gwahoddiadau i awdurdodau lleol wneud ceisiadau am grantiau yn aml yn cynnwys atodiadau technegol, a barnai'r Asiantaeth na fyddai'n rhesymol a chymesur eu cyfieithu.

Nododd Ofgem fod rhywfaint o'r wybodaeth sy'n gysylltiedig â gwneud ceisiadau ar gyfer y cynllun grant ar gael yn Gymraeg, ond nad oedd gweddill y cynlluniau ar agor i'r cyhoedd a'u bod yn cynnwys dogfennaeth dechnegol. Fodd bynnag, dylid nodi nad yw'r safonau sydd yn y rheoliadau'n cyfeirio at aelodau'r cyhoedd yn benodol.

Gweithgaredd 17: Corff yn dyfarnu contractau Safonau ynghylch corff yn dyfarnu contractau [76–80]

Nododd pob un o'r 13 person perthnasol eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw. O'r rhai hynny, nododd un person perthnasol (8%) eu bod yn ei wneud yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymïadau cynlluniau iaith Gymraeg cyfredol y personau dan sylw, roedd gan 89% o'r personau perthnasol ymrwymïadau oedd yn cyfateb, yn rhannol neu'n llawn, i un neu ragor o'r safonau dan sylw. O blith personau hynny, roedd yr ymrwymïadau'n cyfateb ar gyfartaledd i 42% o'r safonau ynghylch corff yn dyfarnu ar dendrau am gontract.

Nid oedd yr un o'r personau perthnasol yn ystyried y byddai gwneud y safonau hyn yn benodol gymwys iddynt yn rhesymol a chymesur.

Cyfeiriodd Gwasanaeth Eryl y Goron a Chyllid a Thollau EM at bolisi a threfniadau gan Swyddfa'r Cabinet sy'n eu galluogi i wneud defnydd o gytundebau a luniwyd ar draws Adrannau'r Llywodraeth. Mae'r trefniant hwn, a threfniadau eraill ar lefel Brydeinig, yn ffurfio rhan o ymateb y Swyddfa Ystadegau Gwladol hefyd.

Gweinyddir y broses gaffael o swyddfeydd y tu allan i Gymru gan nifer o'r personau perthnasol, gan gynnwys yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd, Ofgem, a'r Swyddfa Twyll Difrifol.

Nododd yr Asiantaeth Safonau Bwyd ei bod yn gweithredu rhai agweddau o'r broses tendro, yng Nghymru, yn Gymraeg.

Cyfeiriodd Cynilion a Buddsoddiadau Cenedlaethol at y nifer bychan o ddarparwyr y maent yn ymdrin â hwy yng Nghymru, a'r diffyg galw tybiedig yn eu plith am gynnal y gweithgaredd yn Gymraeg. Diffyg galw oedd dadl yr Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol hefyd.

Y gost oedd prif reswm ORR a Chomisiwn Elusennau Cymru a Lloegr dros wrthwynebu gwneud y safonau hyn yn benodol gymwys iddynt. Yr un oedd safbwynt Ofwat, gan ychwanegu bod ystyriaethau ymarferol o ran nifer y contractau a ddyfernir, ynghyd â'r capasiti mewnol.

Gweithgaredd 18: Codi ymwybyddiaeth ynghylch gwasanaethau Cymraeg a ddarperir gan gorff Safonau ar gyfer codi ymwybyddiaeth ynghylch gwasanaethau Cymraeg a ddarperir gan gorff [81–82]

Nododd wyth o'r 13 person perthnasol (62%) eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, ac yn gwneud hynny yn Gymraeg. Yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd, Ystad y Goron, yr Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol, a ORR a'r Swyddfa Ystadegau Gwladol oedd y rhai a nododd nad oeddent yn gwneud y gweithgaredd.

Wrth ddadansoddi ymrwymïadau cynlluniau iaith Gymraeg cyfredol y personau dan sylw, roedd gan 78% o'r personau perthnasol ymrwymïadau oedd yn cyfateb, yn rhannol neu'n llawn, i un neu ragor o'r safonau dan sylw. O blith y personau hynny,

roedd yr ymrwymadau'n cyfateb ar gyfartaledd i 93% o'r safonau ar gyfer codi ymwybyddiaeth ynghylch gwasanaethau Cymraeg a ddarperir gan gorff.

Roedd Gwasanaeth Erlyn y Goron, yr Asiantaeth Safonau Bwyd, Swyddfa Rheoleiddio'r Rheilffyrdd, Ofgem ac Ofwat o'r farn y byddai gwneud y safonau hyn yn benodol gymwys iddynt yn rhesymol a chymesur. Nid yw ORR yn gwneud y gweithgaredd hwn ar hyn o bryd, ond yn ei hymateb amlinellodd sut y gallai gydymffurfio pe bai'r safonau hyn yn cael eu gwneud yn benodol gymwys iddi.

Nododd Cyllid a Thollau EM ei fod yn gallu cydymffurfio â safon 81 yn llawn, ond yn rhannol yn unig y gallai gydymffurfio â safon 82 ar hyn o bryd.

Eglurodd Cynilion a Buddsoddiadau Cenedlaethol eu bod yn defnyddio'u gwefan fel eu prif ddull o gyfathrebu a bod dolenni i'w cael ar bob tudalen yn tynnu sylw at eu gwefan Gymraeg. Roeddent o'r farn fod hyn yn ddigonol ac yn gymesur.

Nododd y Swyddfa Twyll Difrifol ei bod yn tynnu sylw at unrhyw wasanaeth Cymraeg pan fydd y gwasanaeth hwnnw ar gael, a'i bod o'r farn fod y safonau hyn yn anghymesur ar gyfer sefydliad sydd wedi ei leoli yn Llundain.

Cyfeiriodd y Swyddfa Ystadegau Gwladol at y ffaith ei bod yn hyrwyddo'i gwasanaethau Cymraeg fel rhan o ymgyrchoedd y cyfrifiad. Dyma'r unig waith hyrwyddo mae'r Swyddfa'n gyfrifol amdano. Oherwydd hyn nid yw'r Swyddfa o'r farn y byddai gwneud mwy yn rhesymol, gan mai cyhoeddi bwletinâu ystadegol ar rychwant eang o faterion yw gweddill ei gwaith.

Nid oedd Comisiwn Elusennau Cymru a Lloegr yn ystyried safon 81 yn berthnasol iddo gan nad yw'n hyrwyddo gwasanaethau mewn unrhyw iaith. Fel arall, cyfeirir unigolion sy'n cysylltu â'r Comisiwn at ei wefan, lle mae dewis iaith i'w weld.

Gweithgaredd 19: Hunaniaeth gorfforaethol corff Safon ynghylch hunaniaeth gorfforaethol corff [83]

Nododd 11 o'r 13 person perthnasol (85%) eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw. Ystad y Goron a Chynilion a Buddsoddiadau Cenedlaethol oedd yr eithriadau. O'r rhai hynny a nododd eu bod yn gwneud y gweithgaredd, roedd pob un person perthnasol, ac eithrio ORR (91%), yn ei wneud yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cynlluniau iaith Gymraeg cyfredol y personau dan sylw, roedd gan 78% o'r personau perthnasol – gan gynnwys Cynilion a Buddsoddiadau Cenedlaethol – ymrwymadau oedd yn cyfateb, yn rhannol neu'n llawn, i'r safon ynghylch hunaniaeth gorfforaethol corff.

Dylid nodi nad oedd testun cysylltiedig Ystad y Goron a Chynilion a Buddsoddiadau Cenedlaethol yn awgrymu nad oedd ganddynt hunaniaeth gorfforaethol. Yn hytrach, cyfeiriwyd yn y ddau ymateb at statws y personau fel endidau a grëwyd gan gyfraith Brydeinig, ac nad oedd ganddynt bresenoldeb yng Nghymru (Cynilion a Buddsoddiadau Cenedlaethol). Felly, roedd Ystad y Goron yn ystyried y safon yn afresymol ac yn anghymesur, a Chynilion a Buddsoddiadau Cenedlaethol yn cynnig nad oedd yn gymwys iddynt.

Nododd ORR y gallai gydymffurfio â'r safon o ran yr hunaniaeth a ddefnyddir mewn perthynas â Chymru.

Roedd chwech o'r personau perthnasol a nododd eu bod eisoes yn gwneud y gweithgaredd, ac ei wneud yn Gymraeg, yn casglu y byddai gwneud y safon hon yn benodol gymwys iddynt yn rhesymol a chymesur. Yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd, yr Asiantaeth Trosedd Cenedlaethol, y Swyddfa Twyll Difrifol, a'r Swyddfa Ystadegau Gwladol oedd y rhai nad oedd yn ystyried y byddai gwneud y safon hon yn benodol gymwys iddynt yn rhesymol a chymesur.

Cyfeiriodd yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd at ei logo, ac at y ffaith mai fel CMA yr adnabyddir yr Awdurdod, a hynny ym mhob iaith. Eglurwyd bod elfennau eraill o'i hunaniaeth yn ddwyieithog.

Nododd yr Asiantaeth Trosedd Cenedlaethol fod ei swyddogion yn arddangos hunaniaeth ddwyieithog, ar eu dillad er enghraifft, tra oeddent ar ddyletswydd weithredol yng Nghymru, ac yn cario'r ddogfennaeth angenrheidiol yn y ddwy iaith. Nid oeddent o'r farn fod gwneud hyn ar draws y Deyrnas Unedig yn rhesymol a chymesur.

Er ei bod yn gwneud y gweithgaredd yn Gymraeg, a hynny drwy'r wefan a datganiadau i'r wasg yn bennaf, nododd y Swyddfa Twyll Difrifol ei bod o'r farn fod y safon hon yn anghymesur, sy'n gyson a safbwynt y Swyddfa trwy gydol ei hymateb.

Tynnodd y Swyddfa Ystadegau Gwladol sylw penodol at y gwahaniaeth rhyngddi a'r UK Statistics Authority, sydd yn goruchwyllo'r Swyddfa (sy'n gweithredu fel braich weithredol yr awdurdod). Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yn meddu ar hunaniaeth gorfforaethol benodol a ddefnyddir yng Nghymru, ond nid oes gan yr UK Statistics Authority hunaniaeth gorfforaethol ddwyieithog. Nid yw'r Swyddfa o'r farn y byddai hynny'n rhesymol a chymesur gan mai sefydliad bychan ydyw, a leolir y tu allan i Gymru.

Gweithgaredd 20: Cyrsiâu a gynigir gan gorff Safonau ynghylch cyrsiau a gynigir gan gorff [84–86]

Nododd tri o'r 13 person perthnasol (23%) eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw. O'r rhai hynny, nododd un person perthnasol (33%), sef Cyllid a Thollau EM, eu bod yn ei wneud yn Gymraeg. Yr Asiantaeth Safonau Bwyd a'r Swyddfa Twyll Difrifol oedd y ddau berson arall sy'n gwneud y gweithgaredd, ond nid ydynt yn ei wneud yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cynlluniau iaith Gymraeg cyfredol y personau dan sylw, roedd gan 44% o'r personau perthnasol ymrwymadau oedd yn cyfateb, yn rhannol neu'n llawn, i un neu ragor o'r safonau dan sylw. O blith y personau hynny, roedd yr ymrwymadau'n cyfateb ar gyfartaledd i 75% o'r safonau ynghylch cyrsiau a gynigir gan gorff.

Nid oedd yr un o'r personau perthnasol yn ystyried y byddai gwneud y safonau hyn yn benodol gymwys iddynt yn rhesymol a chymesur, gyda'r mwyafrif yn nodi hyn oherwydd nad oeddent yn ystyried eu bod yn gwneud y gweithgaredd. Dylid nodi, fodd bynnag, fod Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015 yn cynnwys y canlynol mewn perthynas â'r safonau hyn:

At ddibenion safonau 84, 85 a 86 (cyrsiau), ystyr “cwrs addysg” yw unrhyw seminar, hyfforddiant, gweithdy neu ddarpariaeth debyg sy'n cael ei ddarparu neu ei ddarparu ar gyfer addysgu neu wella sgiliau aelodau o'r cyhoedd; ond nid yw'n cynnwys gweithgareddau na chyrsgiau sy'n cael eu darparu fel rhan o'r cwricwlwm yn unol ag unrhyw ddeddfiad.¹¹

Nododd Cyllid a Thollau EM ei fod yn cydymffurfio'n rhannol â'r safonau ar hyn o bryd ond na fyddai'n ystyried eu gosod yn rhesymol a chymesur. Mae Cyllid a Thollau EM yn darparu ymweliadau ag ysgolion cyfrwng Cymraeg drwy gyfrwng y Gymraeg. Fel arall, ar-lein y ceir llawer o'r ddarpariaeth, a chasgliad Cyllid a Thollau yw fod gofynion y safonau'n anghymesur o ystyried y galw tybiedig am wasanaeth a'r gost.

Mae'r Asiantaeth Safonau Bwyd yn cynnal rhaglen addysg mewn ysgolion ac yn darparu'r gweithdai a deunyddiau ategol yn ddwyieithog. Fodd bynnag, nid yw gweddill cyrsiau a gweithdai'r Asiantaeth, a gynhelir ledled Cymru, yn cael eu cynnal yn Gymraeg a Saesneg. Eglurodd yr Asiantaeth nad oedd y niferoedd sy'n eu mynychu yn cyfiawnhau eu cynnal yn y ddwy iaith.

Yn ôl y Swyddfa Twyll Difrifol, prin iawn yw'r cyrsiau a ddarperir ganddi, ac eithrio at ddefnydd staff y Swyddfa ei hun. Nododd y Swyddfa mai sefydliad a leolir yn Llundain ydyw a'i bod yn darparu'r cyrsiau eraill hyn ar gyfer y Gwasanaeth Sifil yn ehangach. Felly, teimlai y byddai gosod y safonau hyn yn afresymol am y rhesymau hynny.

Gweithgaredd 21: Systemau annerch cyhoeddus a ddefnyddir gan gorff Safon ynghylch systemau annerch cyhoeddus a ddefnyddir gan gorff [87]

Nododd un o'r 13 person perthnasol (8%) eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw. Nid oedd y person hwnnw, sef ORR, yn ei wneud yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cynlluniau iaith Gymraeg cyfredol y personau dan sylw, roedd gan 44% o'r personau perthnasol ymrwymadau oedd yn cyfateb, yn rhannol neu'n llawn, i'r safon ynghylch systemau annerch cyhoeddus a ddefnyddir gan gorff.

Casgliad y rhan fwyaf o'r personau perthnasol oedd y byddai gwneud y safon hon yn gymwys iddynt yn afresymol ac yn anghymesur gan nad oeddent yn gwneud y gweithgaredd. Fodd bynnag, ceir ymrwymadau perthnasol yng nghynlluniau iaith Gymraeg yr Asiantaeth Safonau Bwyd, yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd, Ofgem a'r Swyddfa Ystadegau Gwladol. Nododd yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd y byddai'n fodlon gweithredu'r safon pe byddai'n gwneud y gweithgaredd.

Nododd ORR mai ei rheswm dros gasglu y byddai gweithredu'r safon hon yn afresymol oedd y ffaith ei bod wedi ei lleoli yn Llundain.

Safonau sy'n ymdrin â materion atodol yng nghyswllt y safonau cyflenwi gwasanaethau [155–160]

¹¹ <http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2015/996/made/welsh/data.pdf>

Cadarnhaodd chwe pherson perthnasol y byddai modd iddynt gydymffurfio â'r safonau hyn a'u bod yn ystyried y byddai eu gwneud yn benodol gymwys iddynt yn rhesymol a chymesur. Nododd pedwar person perthnasol arall y byddai gwneud detholiad o'r safonau hyn yn benodol gymwys iddynt yn rhesymol a chymesur.

Roedd Cyllid a Thollau EM ymhlith y personau oedd yn ystyried y byddai gwneud detholiad o'r safonau'n benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur. Eglurodd yn ei ymateb nad oedd ganddo swyddfeydd sy'n agored i'r cyhoedd, ac felly bod y safonau hynny sy'n cynnwys gofyniad i sicrhau bod dogfennaeth ar gael yn ei swyddfeydd sy'n agored i'r cyhoedd yn ofyniad afresymol. Yr un oedd safbwynt y Swyddfa Ystadegau Gwladol. Nododd Ofwat hefyd na fyddai modd iddo gydymffurfio â'r elfen benodol hon oherwydd nad yw ei swyddfeydd yng Nghymru, nac ychwaith yn agored i'r cyhoedd.

Ategu eu safbwynt cyffredinol fod y gofynion yn afresymol ac yn anghymesur a wnaeth Ystad y Goron a'r Swyddfa Twyll Difrifol. Natur eu gwaith, y gost, a'r galw am y gwasanaeth oedd y rhesymau a roddwyd ganddynt.

Nododd yr Asiantaeth Trosedd Cenedlaethol nad yw'n ofynnol iddi gydymffurfio ag unrhyw safonau ac felly ei bod o'r farn na fyddai'r safonau hyn yn berthnasol iddi. Dylid nodi, fodd bynnag, y bydd y materion atodol yng nghyswllt y safonau cyflenwi gwasanaethau yn berthnasol iddi, i'r graddau y mae hysbysiad cydymffurfio yn ei wneud yn ofynnol iddi gydymffurfio â'r safonau cyflenwi gwasanaethau.

Safonau llunio polisi [88–97]

Safonau ynghylch ystyried effeithiau penderfyniadau polisi a wneir gan gorff ar y Gymraeg [88–97]

Wrth ddadansoddi ymrwymïadau cynlluniau iaith Gymraeg cyfredol y personau dan sylw,¹² roedd gan 40% ohonynt ymrwymïadau oedd yn cyfateb, yn rhannol neu'n llawn, i un neu ragor o'r safonau dan sylw. O blith y personau hynny, roedd yr ymrwymïadau'n cyfateb i bob un o'r safonau ynghylch ystyried effeithiau penderfyniadau polisi a wneir gan gorff ar y Gymraeg.

Cadarnhaodd pedwar o'r personau perthnasol (sef Gwasanaeth Eryl y Goron, Cyllid a Thollau EM, Cynilion a Buddsoddiadau Cenedlaethol a Chomisiwn Elusennau Cymru a Lloegr) eu bod yn asesu ac yn monitro'r effaith a gaiff y polisiâu a lunnir neu a adolygir ganddynt ar y Gymraeg.

Nododd Gwasanaeth Eryl y Goron fod gweithdrefnau mewn lle i sicrhau bod penderfyniadau polisi a wnaed yn cael eu hasesu am unrhyw effaith posib ar ddarparu ei gwasanaethau cyfrwng Gymraeg. O'r herwydd, roedd yn ystyried y byddai gwneud yr holl safonau hyn yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur, ac eithrio safon 94 gan nad yw'n gweithredu polisi ar ddyfarnu grantiau.

Er bod Cyllid a Thollau EM yn cadarnhau bod y Gymraeg yn ystyriaeth o fewn ei drefniadau i asesu effaith cydraddoldeb, nid yw'n ystyried y byddai gwneud y safonau hyn yn benodol gymwys iddo yn rhesymol na chymesur. Mae'r rhesymau a

¹² Noder mai 9 o'r 13 person sydd yn gweithredu cynllun iaith Gymraeg wedi ei gymeradwyo dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993.

roddwyd dros hyn yn cynnwys dymuniad i asesu'r effaith ar y Gymraeg pan fo hynny'n berthnasol, yn ei dyb ef, yn hytrach nag ar bob achlysur, a hefyd oherwydd nad oedd wedi ei ariannu i wneud hyn.

Nododd ORR y byddai'n ystyried effaith penderfyniadau polisi ar y Gymraeg pe byddai anghenion penodol yn ymwneud â'r iaith wedi eu hamlygu. Serch hynny, nodwyd ei bod o'r farn y byddai gwneud y safonau hyn yn benodol gymwys iddi yn afresymol ac anghymesur oherwydd costau cyfieithu dogfennau polisi.

Cadarnhaodd chwech o'r personau perthnasol nad yw'r iaith Gymraeg yn ystyriaeth wrth lunio polisi. Y rheswm a roddwyd am hyn gan Ystad y Goron oedd mai oddeutu 2% yn unig o'i weithgareddau sy'n berthnasol i Gymru. Nododd Ystad y Goron ynghyd â nifer o bersonau eraill o fewn y grŵp fod eu gallu i lunio polisi wedi ei gyfyngu gan eu cylch gorchwyl statudol a'r deddfau a arweiniodd at eu sefydlu. Aeth dau berson perthnasol, sef y Swyddfa Twyll Difrifol a'r Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol, ymhellach gan fynegi nad ydynt yn llunio polisi o gwbl.

Safonau sy'n ymdrin â materion atodol llunio polisi [161–166]

Nododd tri pherson perthnasol eu bod o'r farn y byddai gwneud yr holl safonau hyn, neu ddetholiad ohonynt, yn benodol gymwys iddynt yn rhesymol a chymesur, ond yr oedd y deg arall yn ystyried hyn yn afresymol ac anghymesur. Rhoddwyd rhesymau dros hyn, yn cynnwys amherthnasedd y safonau pan oeddent eisoes wedi mynegi anfodlonrwydd gyda'r safonau llunio polisi. Nododd eraill fod y safonau hyn yn amherthnasol iddynt gan nad oes gan y cyhoedd hawl i gael mynediad i'w gweithleoedd neu nad oes ganddynt weithleoedd yng Nghymru.

Safonau gweithredu [98–144]

Safonau ynghylch defnyddio'r Gymraeg o fewn gweinyddiaeth fewnol corff [98–111]

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cynlluniau iaith Gymraeg cyfredol y personau perthnasol dan sylw, roedd gan 57% ohonynt ymrwymadau oedd yn cyfateb, yn rhannol neu'n llawn, i un neu ragor o'r safonau dan sylw. O blith y personau hynny, ar gyfartaledd roedd yr ymrwymadau'n cyfateb i 7% o'r safonau ynghylch gweinyddiaeth fewnol corff.

Nid oedd gan yr un o'r personau perthnasol bolisi ar ddefnyddio'r Gymraeg yn fewnol ar hyn o bryd. Er hynny, nododd Gwasanaeth Eryl y Goron, Cyllid a Thollau EM, yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd, a Chomisiwn Elusennau Cymru a Lloegr y byddai modd iddynt lunio polisi o'r fath.

Eglurodd gweddill y personau perthnasol na fyddai modd iddynt lunio polisi o'r fath, neu eu bod yn ystyried y gofyniad yn afresymol, am resymau megis prinder siaradwyr Cymraeg a'r ffaith fod sawl un ohonynt wedi ei leoli y tu allan i Gymru. Wrth ystyried gweddill gofynion y safonau hyn a'r ddogfennaeth berthnasol, nid oedd yr un o'r personau yn cynnig unrhyw ddogfennaeth yn Gymraeg. Yr unig eithriad oedd yr Asiantaeth Safonau Bwyd, oedd yn darparu ffurflenni sy'n cofnodi ac yn awdurdodi oriau gwaith hyblyg. Mynegodd yr Asiantaeth barodrwydd i gydymffurfio â nifer o'r safonau hyn, gan nodi ymhellach y byddai'n gallu gwneud hynny, ond na fyddai'n gallu cydymffurfio â'r cyfan oherwydd nifer y siaradwyr Cymraeg sydd yn y sefydliad. Roedd ORR ac Ofgem o'r farn y byddai gwneud dogfennaeth ar gael ar

gais i swyddogion yn rhesymol, gyda swyddogion yng Nghymru yn benodol yn achos Ofgem. Nododd Gwasanaeth Eryl y Goron hefyd ei fod yn barod i roi'r safonau ar waith, pe byddai hynny'n ofynnol. I weddill y personau perthnasol roedd y safonau hyn yn afresymol ac yn anghymesur am resymau megis: ychydig o siaradwyr Cymraeg oedd ganddynt, neu ddim siaradwyr Cymraeg o gwbl; lleoliad swyddfeydd; lleoliad adrannau adnoddau dynol y sefydliad; ac yn achos y Swyddfa Twyll Difrifol yn benodol faich tybiedig gweithredu'r safonau.

Safonau ynghylch cwynion a wneir gan aelodau o staff corff [112–115]

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cynlluniau iaith Gymraeg cyfredol y personau perthnasol dan sylw, nid oedd gan yr un ohonynt ymrwymadau oedd yn cyfateb, yn rhannol neu'n llawn, i un neu ragor o'r safonau ynghylch cwynion a wneir gan aelodau o staff corff.

Nododd pedwar person perthnasol eu bod yn caniatáu i bob aelod o'r staff wneud cwyn ac ymateb i gwynion yn ymwneud ag ef neu hi yn Gymraeg; y rhain oedd Cyllid a Thollau EM, yr Asiantaeth Safonau Bwyd, Cynilion a Buddsoddiadau Cenedlaethol, ac Ofgem. Yr Asiantaeth Safonau Bwyd ac Ofgem yw'r unig rai sy'n hysbysu'r staff fod modd gwneud hyn. Yr Asiantaeth yn unig sy'n gweithredu unrhyw elfen o gynnig a chynnal cyfarfod yn Gymraeg, ond nid yw'n gallu cynnal cyfarfod yn Gymraeg heb gymorth gwasanaeth cyfieithu.

Nid yw Gwasanaeth Eryl y Goron yn gweithredu mewn modd sy'n gyson â gofynion y safonau hyn ar hyn o bryd, ond mynegwyd parodrwydd ganddo i wneud hynny. Yr un oedd ymateb Cyllid a Thollau EM; fodd bynnag, nodwyd na fyddai modd iddo weithredu safon 113 a darparu cyfarfod heb wasanaeth cyfieithu. Nododd Ofgem y byddai'n ystyried gwneud darpariaeth ar gyfer y staff pe bai galw i wneud hynny.

Roedd gweddill y personau perthnasol yn ystyried y safonau hyn yn rhai afresymol ac anghymesur. I'r mwyafrif, roedd hyn oherwydd nad oeddent wedi eu lleoli yng Nghymru, neu oherwydd bod eu hadrannau adnoddau dynol y tu allan i Gymru (Comisiwn Elusennau Cymru a Lloegr, er enghraifft).

Safonau ynghylch corff yn disgyblu staff [116–119]

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cynlluniau iaith Gymraeg cyfredol y personau perthnasol dan sylw, nid oedd gan yr un ohonynt ymrwymadau oedd yn cyfateb, yn rhannol neu'n llawn, i un neu ragor o'r safonau ynghylch corff yn disgyblu staff.

Roedd eu hymatebion yn adlewyrchu'r hyn a adroddwyd ganddynt mewn perthynas â'r safonau ynghylch cwynion a wneir gan aelodau o staff corff. Mae Cyllid a Thollau EM, yr Asiantaeth Safonau Bwyd, Cynilion a Buddsoddiadau Cenedlaethol, ac Ofgem yn caniatáu staff i ymateb yn Gymraeg i honiadau a wneir yn eu herbyn drwy broses ddisgyblu. Yn yr achos hwn, yr Asiantaeth Safonau Bwyd yw'r unig un sy'n hysbysu'r staff fod modd iddynt wneud hyn. Mae Cynilion a Buddsoddiadau Cenedlaethol yn caniatáu i'w staff ymateb yn Gymraeg i honiadau a wneir yn eu herbyn drwy broses ddisgyblu, ond nid oes ganddynt siaradwyr Cymraeg; felly, nid yw hyn yn digwydd yn ymarferol. Roedd y tri pherson arall yn rhag-weld y gallent gydymffurfio â detholiad o'r safonau, ond na fyddent yn gallu cynnal cyfarfodydd heb gymorth gwasanaeth cyfieithu.

Roedd gweddill y personau perthnasol yn ystyried y safonau hyn yn rhai afresymol ac anghymesur. I'r mwyafrif, roedd hyn oherwydd nad oeddent wedi eu lleoli yng Nghymru, neu oherwydd bod diffyg sgiliau iaith Gymraeg yn eu hadrannau adnoddau dynol, neu bod yr adrannau hynny wedi eu lleoli y tu allan i Gymru.

Safonau ynghylch technoleg gwybodaeth a deunyddiau cymorth a ddarperir gan gorff, ac ynghylch y fewnrwyd [120–126]

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cynlluniau iaith Gymraeg cyfredol y personau perthnasol dan sylw, roedd gan 43% ohonynt ymrwymadau oedd yn cyfateb, yn rhannol neu'n llawn, i un neu ragor o'r safonau dan sylw. O blith y personau hynny, ar gyfartaledd roedd yr ymrwymadau'n cyfateb i 14% o'r safonau ynghylch technoleg gwybodaeth a deunyddiau cymorth a ddarperir gan gorff, ac ynghylch y fewnrwyd.

Nododd saith person perthnasol, sef Gwasanaeth Erlyn y Goron, Cyllid a Thollau EM, yr Asiantaeth Safonau Bwyd, Swyddfa Rheoleiddio'r Rheilffyrdd, Ofgem, y Swyddfa Twyll Difrifol, a Chomisiwn Elusennau Cymru a Lloegr, eu bod yn darparu meddalwedd gyfrifiadurol ar gyfer gwirio sillafu a gramadeg Cymraeg i gyflogeion a gweithwyr. Cadarnhaodd Gwasanaeth Erlyn y Goron a'r Asiantaeth Safonau Bwyd eu bod yn darparu rhyngwynebau Cymraeg i staff.

Roedd pob person perthnasol wedi nodi eu bod yn darparu mewnwyd, ond ni wnaeth yr un ohonynt nodi eu bod yn darparu mewnwyd yn Gymraeg. Eglurodd Gwasanaeth Erlyn y Goron ei fod yn ymchwilio i gostau ac ystyriaethau ymarferol cydymffurfio â'r safonau, a nododd y Swyddfa Ystadegau Gwladol fod rhywfaint o'r cynnwys ar gael yn Gymraeg ar ei mewnwyd. Fodd bynnag, nid oedd y Swyddfa'n ystyried y safonau hyn yn rhai rhesymol a chymesur. Yn wir, dyna hefyd oedd safbwynt gweddill y personau o fewn y grŵp Adrannau'r Llywodraeth. Eglurwyd bod hynny oherwydd diffyg capasiti yn fewnol i wneud darpariaeth, diffyg staff â sgiliau iaith Gymraeg i'w ddefnyddio ac y byddai'n anodd cyfiawnhau'r gwaith o baratoi a darparu mewnwyd Gymraeg.

Safonau ynghylch corff yn meithrin sgiliau yn y Gymraeg drwy gynllunio a hyfforddi ei weithlu [127–135]

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cynlluniau iaith Gymraeg cyfredol y personau perthnasol dan sylw, roedd gan bob un ohonynt ymrwymadau oedd yn cyfateb, yn rhannol neu'n llawn, i un neu ragor o'r safonau dan sylw. O blith y personau hynny, ar gyfartaledd roedd yr ymrwymadau'n cyfateb i 61% o'r safonau ynghylch corff yn meithrin sgiliau yn y Gymraeg drwy gynllunio a hyfforddi ei weithlu.

Cadarnhaodd pum person perthnasol (55%) eu bod yn asesu sgiliau iaith Gymraeg eu cyflogeion, sef Gwasanaeth Erlyn y Goron, Ofgem, y Swyddfa Twyll Difrifol, y Swyddfa Ystadegau Gwladol, a Chomisiwn Elusennau Cymru a Lloegr. Nododd Ofgem ei bod yn gwneud hyn pan fydd gofynion iaith ynghlwm wrth swydd benodol.

O'r ystod eang o hyfforddiant a restrwyd yn safon 128, nid oedd yr un o'r personau yn cynnig hyfforddiant Cymraeg neu ddwyieithog, ac eithrio Cynilion a Buddsoddiadau Cenedlaethol (oedd yn cynnig hyfforddiant ar ddelio â'r cyhoedd yn ddwyieithog) a Chomisiwn Elusennau Cymru a Lloegr (ymsefydlu ar gael yn ddwyieithog).

Mewn perthynas â gofynion safonau 129–131, nododd y rhan fwyaf o'r personau barodrwydd i ymateb yn gadarnhaol i'r galw am ddysgu a datblygu sgiliau iaith Gymraeg gan staff. Nododd ORR fod hyn eisoes yn digwydd gydag aelod o'r staff sydd heb ei leoli yng Nghymru. Fodd bynnag, bu i eraill nodi eu bod o'r farn fod y gofynion hyn yn afresymol oherwydd nad oeddent wedi eu lleoli yng Nghymru. Nid oedd yr un o'r personau'n cynnig yr holl hyfforddiant a ddaw dan safonau 129–131 yn Gymraeg.

Nododd saith person perthnasol (54%) eu bod yn cynnig rhywfaint o ymwybyddiaeth iaith; y rhain oedd Gwasanaeth Erlyn y Goron, yr Asiantaeth Safonau Bwyd, y Swyddfa Twyll Difrifol, Cyllid a Thollau EM, Cynilion a Buddsoddiadau Cenedlaethol, Ofgem, a Chomisiwn Elusennau Cymru a Lloegr. Roeddent yn cynnig hyfforddiant ar ymwybyddiaeth o'r iaith Gymraeg a gofynion gweithredu'r cynllun iaith Gymraeg, ond nid oedd hyn yn cynnwys unrhyw ddealltwriaeth o'r modd y gellid defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle. Er hynny, roeddent i gyd yn darparu gwybodaeth i godi ymwybyddiaeth staff newydd o'r Gymraeg.

O'r chwe pherson arall, roedd yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd ac Ofwat yn darparu hyfforddiant ar ofynion y cynllun iaith Gymraeg yn unig. Nid yw Ystad y Goron, yr Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol, ORR a'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yn gweithredu unrhyw elfen o safonau 132 neu 133.

Mae Gwasanaeth Erlyn y Goron, Cyllid a Thollau EM, yr Asiantaeth Safonau Bwyd a'r Swyddfa Ystadegau Gwladol (31%) yn darparu geiriad neu logo ar gyfer llofnodion e-bost staff i ddynodi pa un a ydynt yn rhugl yn y Gymraeg neu'n dysgu'r Gymraeg.

Nododd saith person perthnasol eu bod yn darparu geiriad pwrpasol i alluogi staff i gynnwys fersiwn Gymraeg o'u manylion cyswllt. Y rhain oedd Gwasanaeth Erlyn y Goron, Cyllid a Thollau EM, yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd, yr Asiantaeth Safonau Bwyd, yr Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol, Ofgem, a Chomisiwn Elusennau Cymru a Lloegr. Nododd yr Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol ac Ofgem mai ar gyfer staff yng Nghymru yn benodol y byddent yn gwneud hyn. Mae Gwasanaeth Erlyn y Goron, yr Asiantaeth Safonau Bwyd, Ofgem a Chomisiwn Elusennau Cymru a Lloegr yn darparu fersiwn Gymraeg ar gyfer staff o unrhyw neges sy'n hysbysu eraill nad ydynt ar gael i ateb negeseuon e-bost.

Safonau ynghylch recriwtio ac apwyntio [136–140]

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cynlluniau iaith Gymraeg cyfredol y personau perthnasol dan sylw, roedd gan bob un ohonynt ymrwymadau oedd yn cyfateb, yn rhannol neu'n llawn, i un neu ragor o'r safonau dan sylw. O blith y personau hynny, ar gyfartaledd roedd yr ymrwymadau'n cyfateb i 44% o'r safonau ynghylch recriwtio ac apwyntio.

Nododd saith person perthnasol fod ganddynt fethodoleg o ryw fath ar gyfer asesu'r angen ar gyfer sgiliau iaith Gymraeg mewn swydd newydd neu swydd wag. Eglurodd ORR ei bod wrthi'n datblygu methodoleg. Mewn perthynas â recriwtio staff ar gyfer gwaith yn ymwneud â'r cyfrifiad yn unig y mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yn gwneud hyn. Eglurodd Cynilion a Buddsoddiadau Cenedlaethol fod eu gwaith recriwtio yn cael ei wneud gan asiantaeth, ac er nad oes ganddynt siaradwyr Cymraeg ar hyn o bryd maent wedi ceisio recriwtio staff â sgiliau Cymraeg yn y

gorffennol. Nid oedd gan Ystad y Goron, yr Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol, y Swyddfa Twyll Difrifol nac Ofwat unrhyw fethodoleg berthnasol.

Mae'r Asiantaeth Safonau Bwyd yn cynnig y ddogfennaeth a restrir dan safon 137A yn Gymraeg. Nododd Ofgem fod swydd-ddisgrifiadau ar gael yn Gymraeg. Nid oedd gweddill y personau perthnasol yn cynnig unrhyw ddogfennaeth yn ymwneud â'r broses recriwtio yn Gymraeg.

Ni wnaeth yr un person perthnasol ddatgan bod croeso i unigolion wneud cais am swydd yn Gymraeg ac na fyddai cais yn y Gymraeg yn cael ei drin yn llai ffafriol na chais Saesneg. Fodd bynnag, nododd yr Asiantaeth Safonau Bwyd ei bod o'r farn fod hyn ymhyg yn ei phroses recriwtio ddwyieithog.

Nid oedd yr un person perthnasol yn darparu ffurflenni cais oedd yn cynnig cyfle i ymgeisydd nodi y byddai'n hoffi cael cyfweiliad neu asesiad yn Gymraeg. Yn dilyn o hynny, nid oedd yr un person perthnasol yn cynnal cyfweiliadau neu asesiadau yn Gymraeg, neu â chymorth gwasanaeth cyfieithu. Mynegodd Ofgem barodrydd i hwyluso cynnal asesiadau cyfrwng Gymraeg.

Nododd Cyllid a Thollau EM, yr Asiantaeth Safonau Bwyd, Cynilion a Buddsoddiadau Cenedlaethol, a Chomisiwn Elusennau Cymru a Lloegr eu bod yn hysbysu unigolyn o benderfyniad mewn perthynas â chais am swydd yn Gymraeg os gwnaed y cais yn Gymraeg.

Safonau ynghylch arwyddion a arddangosir yng ngweithle corff [141–143]

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cynlluniau iaith Gymraeg cyfredol y personau perthnasol dan sylw, roedd gan 33% ohonynt ymrwymadau oedd yn cyfateb, yn rhannol neu'n llawn, i un neu ragor o'r safonau dan sylw. O blith y personau hynny, ar gyfartaledd roedd yr ymrwymadau'n cyfateb i 56% o'r safonau ynghylch arwyddion a arddangosir yng ngweithle corff.

Mae arwyddion Cymraeg yng ngweithleoedd pump o'r personau perthnasol, sef Gwasanaeth Eryl y Goron, yr Asiantaeth Safonau Bwyd, y Swyddfa Troseddu Cenedlaethol, y Swyddfa Ystadegau Gwladol, a Chomisiwn Elusennau Cymru a Lloegr. Yr Asiantaeth Safonau Bwyd yw'r unig un o'r pum person sy'n arddangos testun Cymraeg fel mai hwnnw sy'n debygol o gael ei ddarllen yn gyntaf. Nid oedd yr Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol yn glir eto ar drefn yr ieithoedd ar arwyddion ar gyfer y lleoliad newydd o dan ofal Heddlu De Cymru y bydd yn symud iddo yn 2016.

Nid oedd gweddill y personau perthnasol yn arddangos arwyddion yn Gymraeg; nododd Ofgem nad oedd ganddynt unrhyw arwyddion yn ei swyddfa yng Nghymru a hynny oherwydd mai gofod swyddfa ar brydles mewn adeilad preifat sydd ganddo.

Safon ynghylch cyhoeddiadau a negeseuon sain yng ngweithle corff [144]

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cynlluniau iaith Gymraeg cyfredol y personau perthnasol dan sylw, roedd gan 22% ohonynt ymrwymadau oedd yn cyfateb, yn rhannol neu'n llawn, i un neu ragor o'r safonau dan sylw. O blith y personau hynny, ar gyfartaledd roedd yr ymrwymadau'n cyfateb i 100% o'r safonau ynghylch cyhoeddiadau a negeseuon sain yng ngweithle corff.

Cadarnhaodd pum person perthnasol eu bod yn gwneud cyhoeddiadau dros offer sain yn eu gweithleoedd (Cyllid a Thollau EM, yr Asiantaeth Safonau Bwyd, Swyddfa Rheoleiddio'r Rheilffyrdd, y Swyddfa Ystadegau Gwladol, a Chomisiwn Elusennau Cymru a Lloegr). Nid yw unrhyw un ohonynt yn gwneud hynny yn Gymraeg. Eglurodd yr Asiantaeth Safonau Bwyd mai'r landlord preifat sy'n gyfrifol am yr adeilad sydd hefyd yn gyfrifol am y cyhoeddiadau sain. Nododd yr Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol ei bod yn symud i leoliad newydd yn 2016, ac nid oedd yn glir eto ym mha iaith y byddai cyhoeddiadau sain yn cael eu gwneud, os o gwbl.

Safonau sy'n ymdrin â materion atodol yng nghyswllt y safonau gweithredu [167–172]

Nododd Gwasanaeth Eryl y Goron, Ofgem, a Chomisiwn Elusennau Cymru a Lloegr eu bod yn ystyried y byddai'n rhesymol a chymesur gwneud y safonau sy'n ymdrin â materion atodol yng nghyswllt y safonau gweithredu yn benodol gymwys iddynt. Eglurodd yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd nad oedd yn cytuno bod yr holl safonau'n rhesymol a chymesur, ond ei fod yn barod i gytuno ar safonau addas ar ei gyfer.

Safonau hybu [145–146]

Safonau ynghylch corff yn hybu'r Gymraeg

Nid oedd yr un o'r personau perthnasol yn dymuno cydsynio i wneud safonau hybu yn gymwysadwy iddynt.

Safonau cadw cofnodion [147–154]

Safonau ynghylch cadw cofnodion gan gorff

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cynlluniau iaith Gymraeg cyfredol y personau dan sylw,¹³ roedd gan 51% o'r personau perthnasol ymrwymadau oedd yn cyfateb, yn rhannol neu'n llawn, i un neu ragor o'r safonau dan sylw. O blith y personau hynny, roedd yr ymrwymadau'n cyfateb i bob un o'r safonau ynghylch cadw cofnodion.

Nododd y rhan fwyaf o'r personau perthnasol eu bod eisoes yn cydymffurfio â'r holl safonau hyn, neu â rhai o'r safonau hyn, a hynny oherwydd eu trefniadau monitro ar gyfer eu cynlluniau iaith yn bennaf. Cadarnhaodd yr wyth person hyn eu bod yn ystyried y byddai gwneud y safonau hyn (neu ddetholiad ohonynt) yn benodol gymwys iddynt yn rhesymol a chymesur. Mynegodd Cyllid a Thollau EM bryder ynghylch safon 150 oherwydd ei fod yn ei ystyried yn faich annheg gan mai 15,000 o bobl yn unig oedd wedi gofyn am gael gwasanaeth Gymraeg ganddo; yn ei farn ef, roedd hwn yn nifer annigonol. Mynegodd yr Asiantaeth Safonau Bwyd bryder ynghylch cydymffurfio â safonau 151 ac 152 oherwydd nad oedd yn tybio eu bod yn cael effaith uniongyrchol ar y Gymraeg. Nododd Cynilion a Buddsoddiadau Cenedlaethol eu bod yn ystyried safonau 150–154 yn amherthnasol oherwydd nad oes ganddynt staff â sgiliau iaith Gymraeg yn gweithio iddynt ar hyn o bryd. Yr un oedd pryder yr Awdurdod Rheoleiddio Gwasanaethau Dŵr, gan mai yn Lloegr y'i lleolir.

¹³ Noder mai 9 o'r 13 person sydd yn gweithredu cynllun iaith Gymraeg wedi ei gymeradwyo dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993.

Nododd yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd nad oedd yn ystyried y byddai gwneud y safonau hyn yn benodol gymwys iddo yn rhesymol na chymesur, er iddo fynegi ei fod eisoes yn cydymffurfio â hwy yn rhinwedd trefniadau adrodd eu cynllun iaith Gymraeg cyfredol.

Nododd tri pherson (sef Ystad y Goron, yr Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol a'r Swyddfa Twyll Difrifol) nad oeddent yn gweithredu trefniadau oedd yn debyg o gydymffurfio â'r safonau hyn ar hyn o bryd, ac yr ystyrient y byddai eu gwneud yn benodol gymwys iddynt yn afresymol ac anghymesur. Ymhlith y rhesymau dros hyn oedd eu bod wedi eu lleoli y tu hwnt i Gymru (y Swyddfa Twyll Difrifol) ac nad oes gofyniad statudol arnynt i ddarparu gwasanaeth i'r cyhoedd (Ystad y Goron).

Mynegodd ORR barodrzydd i gydymffurfio â'r dyletswydd i gadw cofnodion penodol pe bai'r safonau yn cael eu gosod arnynt. Er hynny, nid oeddent yn ystyried bod rhai o'r safonau'n berthnasol gan nad oedd eu swyddfeydd ar agor i'r cyhoedd.

Safonau'n ymdrin â materion atodol cadw cofnodion [175–176]

Nododd wyth o'r 13 person perthnasol nad oeddent yn ystyried y byddai gwneud y safonau hyn yn benodol gymwys iddynt yn rhesymol na chymesur. Serch hynny, mynegodd Cyllid a Thollau EM, yr Asiantaeth Safonau Bwyd a'r Swyddfa Rheoleiddio Rheilffyrdd fod modd iddynt gydymffurfio'n rhannol ar hyn o bryd. Lleoliadau swyddfeydd y gweddill tu hwnt i Gymru a barodd iddynt fynegi rhai pryderon.

Mynegodd pum person perthnasol nad oedd cydymffurfio â'r ddwy safon hon yn peri pryder iddynt a'u bod yn ystyried y byddai eu gwneud yn benodol gymwys iddynt yn rhesymol a chymesur.

Personau sy'n arfer ar ran y Goron, swyddogaethau a roddir gan neu o dan Ddeddf neu Fesur

Safonau cyflenwi gwasanaethau

Gweithgaredd 1: Gohebiaeth a anfonir gan gorff

Safonau ynghylch gohebiaeth a anfonir gan gorff [1–7]

Nododd pob un o'r pedwar person perthnasol o fewn y grŵp eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw. O'r rhai hynny, nododd dau berson, sef y Gwasanaeth Cynghori, Cymodi a Chyflafareddu (ACAS) a'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE) eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cynllun iaith Gymraeg cyfredol yr HSE, ar gyfartaledd roedd yr ymrwymadau'n cyfateb, yn rhannol neu'n llawn, i 71% o'r safonau ynghylch gohebiaeth a anfonir gan gorff.

Roedd ACAS o'r farn y byddai gwneud y safonau hyn yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur, ond nid oedd yr un o'r gweddill o'r un farn.

Nododd yr Awdurdod Meinweoedd Dynol (HTA) ei fod yn cydymffurfio â safon 1, ac yn rhannol gyda detholiad o'r gweddill. Prin yw ei ymwneud â'r cyhoedd ac aelodau

proffesiynol, a'i farn felly oedd y byddai cydymffurfio'n llawn â safonau 2–7 yn anghymesur. Yr un oedd safbwynt yr HSE, a gyfeiriodd at gost ac ystyriaethau ymarferol gweithredu'r safonau hyn gan staff a leolir y tu allan i Gymru.

Eglurodd yr Awdurdod Ffrwythloni Dynol ac Embryoleg (HFEA) mai dau glinig yn unig yr oedd yn eu rheoleiddio yng Nghymru, ac ar sail hynny yn ogystal â diffyg galw nid oedd o'r farn y byddai gwneud y safonau hyn yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur.

Gweithgaredd 2: Galwadau ffôn i gorff ac oddi wrth gorff Safonau ynghylch galwadau ffôn i gorff ac oddi wrth gorff [8–22]

Nododd pob un o'r pedwar person perthnasol eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw. O'r rhai hynny, nododd un person perthnasol (ACAS) ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cynllun iaith Gymraeg cyfredol yr HSE, ar gyfartaledd roedd yr ymrwymadau'n cyfateb, yn rhannol neu'n llawn, i 53% o'r safonau ynghylch galwadau ffôn i gorff ac oddi wrth gorff.

Roedd ACAS o'r farn y byddai gwneud y safonau hyn yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur. Roedd gweddill y personau o'r farn fod y safonau hyn yn afresymol ac yn anghymesur, a hynny oherwydd diffyg presenoldeb yng Nghymru, diffyg staff, a hefyd o ran lefelau eu hymwneud â'r cyhoedd. Mae staff yr HSE sydd wedi eu lleoli yng Nghymru yn cael eu hannog i ateb y ffôn yn ddwyieithog, ond staff yn Lloegr sy'n ymdrin â llinell gymorth yr HSE. Nid oes gan yr HTA na'r HFEA staff yng Nghymru, a nodwyd mai prin yw eu gweithgaredd yng Nghymru.

Gweithgaredd 3: Cyfarfodydd a gynhelir gan gorff nad ydynt yn agored i'r cyhoedd yn gyffredinol Safonau ynghylch cyfarfodydd a gynhelir gan gorff nad ydynt yn agored i'r cyhoedd yn gyffredinol [23–29]

Nododd pob un o'r pedwar person perthnasol eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw. O'r rhai hynny, nododd un person perthnasol (ACAS) ei fod yn ei wneud yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cynllun iaith Gymraeg cyfredol yr HSE, ar gyfartaledd roedd yr ymrwymadau'n cyfateb, yn rhannol neu'n llawn, i 22% o'r safonau ynghylch cyfarfodydd a gynhelir gan gorff nad ydynt yn agored i'r cyhoedd yn gyffredinol.

Nododd ACAS ei fod yn ystyried y byddai gwneud y safonau hyn yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur.

Eglurodd yr HTA mai sefydliad bychan ydyw, ac mai ychydig o gyfarfodydd a gynhelir ganddo. Er y byddai'n barod i ystyried y sefyllfa fesul achos, nid oedd o'r farn y byddai gwneud y safonau hyn yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur. Mynegwyd safbwynt tebyg iawn gan yr HSE, a oedd yn barod i wneud ymdrech i gynnig gwasanaeth Cymraeg a defnyddio cyfieithu lle roedd hynny'n bosib, ond gan gyfeirio hefyd at natur amrywiol a thechnegol ei waith.

Nododd HFEA mai prin yw ei weithgaredd yng Nghymru ac nad oedd wedi derbyn cais am wasanaeth hyd yma. Eglurwyd bod gwasanaeth cyfieithu ar gael, o wneud cais amdano.

Gweithgaredd 4: Cyfarfodydd a drefnir gan gorff sy'n agored i'r cyhoedd Safonau ynghylch cyfarfodydd a drefnir gan gorff sy'n agored i'r cyhoedd [30–34]

Nododd pob un o'r pedwar person perthnasol eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw. O'r rhai hynny, nododd un person perthnasol (ACAS) ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cynllun iaith Gymraeg cyfredol yr HSE, ar gyfartaledd roedd yr ymrwymadau'n cyfateb, yn rhannol neu'n llawn, i 80% o'r safonau ynghylch cyfarfodydd a drefnir gan gorff sy'n agored i'r cyhoedd.

Nododd yr HTA mai sefydliad bychan ydyw ac mai anaml iawn y cynhelir cyfarfodydd sy'n agored i'r cyhoedd, gyda llai fyth o gyfarfodydd yn cael eu cynnal yng Nghymru. Nodwyd i ddeunydd ar gyfer hysbysebu digwyddiad penodol yng Nghymru fod ar gael yn ddwyieithog, ac eglurwyd y byddai'r HTA yn ystyried hynny yn y dyfodol. Fodd bynnag, roedd o'r farn na fyddai gwneud y safonau hyn yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur.

Nid yw'r HSE ychwaith yn cynnal llawer o gyfarfodydd ac eglurwyd y byddai cyfieithu ar gael os byddai angen, ond nid yw'r gwasanaeth hwnnw yn cael ei gynnig yn rheolaidd ar hyn o bryd.

Nododd yr HFEA unwaith yn rhagor mai prin yw ei gweithgaredd yng Nghymru ac

nid yw wedi derbyn cais am wasanaeth hyd yma. Eglurwyd bod gwasanaeth cyfieithu ar gael, o wneud cais amdano.

Roedd ACAS yn ystyried y byddai gwneud y safonau hyn yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur.

Gweithgaredd 5: Digwyddiadau cyhoeddus a drefnir neu a ariennir gan gorff Safonau ynghylch digwyddiadau cyhoeddus a drefnir neu a ariennir gan gorff [35–36]

Nododd pob un o'r pedwar person eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw. O'r rhai hynny, nododd dau berson perthnasol (ACAS a'r HSE) eu bod yn ei wneud yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cynllun iaith Gymraeg cyfredol yr HSE, ar gyfartaledd roedd yr ymrwymadau'n cyfateb, yn rhannol neu'n llawn, i 50% o'r safonau ynghylch digwyddiadau cyhoeddus a drefnir neu a ariennir gan gorff.

Nododd yr HTA mai sefydliad bychan ydyw ac mai anaml iawn y cynhelir cyfarfodydd sy'n agored i'r cyhoedd, gyda llai fyth o gyfarfodydd yn cael eu cynnal yng Nghymru. Nodwyd i ddeunydd ar gyfer hysbysebu digwyddiad penodol yng Nghymru fod ar gael yn ddwyieithog, ac eglurwyd y byddai'r HTA yn ystyried hynny yn y dyfodol. Fodd bynnag, roedd o'r farn na fyddai gwneud y safonau hyn yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur.

Eglurodd yr HSE ei fod yn cynnig peth deunydd a gwasanaethau dwyieithog mewn digwyddiadau cyhoeddus yng Nghymru. Fodd bynnag, oherwydd y nifer fach o ddigwyddiadau, diffyg galw ac adnoddau, casglwyd y byddai gwneud y safonau hyn yn benodol gymwys iddo yn afresymol ac anghymesur.

Nododd yr HFEA unwaith yn rhagor mai prin yw ei weithgaredd yng Nghymru ac nad yw wedi derbyn cais am wasanaeth hyd yma. Eglurwyd bod gwasanaeth cyfieithu ar gael, o wneud cais amdano.

Roedd ACAS o'r farn y byddai gwneud y safonau hyn yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur.

Gweithgaredd 6: Cyhoeddusrwydd a hysbysebu gan gorff Safon ynghylch cyhoeddusrwydd a hysbysebu gan gorff [37]

Nododd pob un o'r pedwar person perthnasol eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw. O'r rhai hynny, nododd dau berson perthnasol (ACAS a'r HSE) eu bod yn ei wneud yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cynllun iaith Gymraeg cyfredol yr HSE, nid oedd yr ymrwymadau'n cyfateb, yn rhannol neu'n llawn, i'r safon ynghylch cyhoeddusrwydd a hysbysebu gan gorff.

Roedd ACAS o'r farn y byddai gwneud y safon hon yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur.

Nododd yr HTA mai ychydig iawn o gyhoeddusrwydd a hysbysebu sy'n digwydd, ond ei fod wedi gwneud hynny yn ddwyieithog ar gyfer rhai achosion penodol. Fodd bynnag, roedd o'r farn y byddai gwneud y safon yn benodol gymwys iddo yn afresymol. Yn yr un modd, roedd yr HSE yn cynnal rhai ymgyrchoedd yn ddwyieithog ond yn ystyried y byddai gwneud pob deunydd ar gyfer pob ymgyrch yn ddwyieithog yn anghymesur.

Nododd yr HFEA unwaith yn rhagor mai prin yw ei weithgaredd yng Nghymru ac nad yw wedi derbyn cais am wasanaeth hyd yma. Eglurwyd bod gwasanaeth cyfieithu ar gael, o wneud cais amdano.

Gweithgaredd 7: Corff yn arddangos deunydd yn gyhoeddus Safonau ynghylch corff yn arddangos deunydd yn gyhoeddus [38–39]

Nododd tri o'r pedwar person perthnasol eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw. O'r rhai hynny, nododd dau berson perthnasol (ACAS a'r HSE) eu bod yn ei wneud yn Gymraeg. Nododd yr HTA mai ychydig iawn o'i ddeunydd sy'n cael ei arddangos yn gyhoeddus ac mai fesul achos y mae'n ystyried darparu'n ddwyieithog ar hyn o bryd.

Roedd ACAS o'r farn y byddai gwneud y safonau hyn yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cynllun iaith Gymraeg cyfredol yr HSE, ar gyfartaledd roedd yr ymrwymadau'n cyfateb, yn rhannol neu'n llawn, i 50% o'r safonau ynghylch corff yn arddangos deunydd yn gyhoeddus.

Nododd yr HSE ei fod yn gwneud y gweithgaredd hwn ac yn ei wneud yn Gymraeg ar achosion penodol. Eglurwyd bod deunyddiau'n cael eu creu i'w defnyddio ledled Prydain ac nad oes un tîm yn benodol yn gyfrifol am greu deunyddiau.

Nododd yr HFEA unwaith yn rhagor mai prin yw ei weithgaredd yng Nghymru ac nad yw wedi derbyn cais am wasanaeth hyd yma. Eglurwyd bod gwasanaeth cyfieithu ar gael, o wneud cais amdano.

Gweithgaredd 8: Corff yn llunio ac yn cyhoeddi dogfennau Safonau ynghylch corff yn llunio ac yn cyhoeddi dogfennau [40–49]

Nododd pob un o'r pedwar person perthnasol eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw. O'r rhai hynny, nododd tri pherson perthnasol (ACAS, HTA a'r HSE) eu bod yn ei wneud yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cynllun iaith Gymraeg cyfredol yr HSE, ar gyfartaledd roedd yr ymrwymadau'n cyfateb, yn rhannol neu'n llawn, i 100% o'r safonau ynghylch corff yn llunio ac yn cyhoeddi dogfennau.

Roedd ACAS o'r farn y byddai gwneud y safonau hyn yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur. Nododd HTA y byddai detholiad o'r safonau, wedi eu gweithredu'n gymesur (hynny yw, mewn perthynas â gwybodaeth a chynulleidfa benodol), yn rhesymol iddo, ond, ar y cyfan, y byddai gosod y safonau ar weithrediad cyffredinol y sefydliad, yn anghymesur.

Nododd yr HSE ei fod yn cynhyrchu swm sylweddol o ddeunydd, gyda rhannau ohono'n dechnegol iawn, i'w ddefnyddio ar draws Prydain. O ganlyniad, ac ar sail ei brofiad o'r galw, casgliad yr HSE oedd mai asesu'r angen i gyfieithu fesul achos a fyddai'n gymesur iddo, gan ystyried hefyd a yw'r deunydd yn greiddiol i'r busnes.

Gweithgaredd 9: Corff yn llunio ac yn cyhoeddi ffurflenni Safonau ynghylch corff yn llunio ac yn cyhoeddi ffurflenni [50–51]

Nododd pob un o'r pedwar person perthnasol eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw. O'r rhai hynny, nododd dau berson perthnasol (ACAS a'r HSE) eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cynllun iaith Gymraeg cyfredol yr HSE, ar gyfartaledd roedd yr ymrwymadau'n cyfateb, yn rhannol neu'n llawn, i 100% o'r safonau ynghylch corff yn llunio ac yn cyhoeddi ffurflenni.

ACAS yn unig oedd yn ystyried y byddai gwneud y safonau hyn yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur. Cyfeiriodd yr HTA a'r HFEA at y ffaith mai ychydig iawn o'u gwaith sy'n digwydd yng Nghymru, a bod rhywfaint o wasanaeth ar gael, o wneud cais amdano.

Mae'r HSE yn cyhoeddi nifer o ffurflenni allweddol yn ddwyieithog, yn dilyn asesiad effaith, ac yn ystyried hyn yn ymagwedd gymesur. Ystyrid safonau 50A, 50B a 51 yn gyraeddadwy ar gyfer ffurflenni sy'n bodoli eisoes.

Gweithgaredd 10: Gwefannau a gwasanaethau ar-lein corff Safonau ynghylch gwefannau a gwasanaethau ar-lein corff [52–57]

Nododd pob un o'r pedwar person perthnasol eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw. O'r rhai hynny, nododd tri pherson perthnasol (ACAS, HTA, a'r HSE) eu bod yn gwneud y gweithgaredd yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymiadau cynllun iaith Gymraeg cyfredol y personau dan sylw, ar gyfartaledd roedd yr ymrwymiadau'n cyfateb, yn rhannol neu'n llawn, i 50% o'r safonau ynghylch gwefannau a gwasanaethau ar-lein corff.

Mae'r HTA yn paratoi rhywfaint o wybodaeth yn ddwyieithog ar ei wefan, gan ddibynnu pa mor bwysig ydyw a phwy yw'r gynulleidfa. Fodd bynnag, nid oedd o'r farn y byddai gwneud y safonau'n benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur. Mynegwyd parodrwydd i ystyried galw pellach am fwy o wybodaeth ar y wefan yn Gymraeg. Ategwyd hynny, gan nodi nad yw'r HTA wedi cynhyrchu ap hyd yma.

Nododd yr HFEA unwaith yn rhagor mai prin yw ei weithgaredd yng Nghymru ac nad yw wedi derbyn cais am wasanaeth hyd yma. Eglurwyd bod gwasanaeth cyfieithu ar gael, o wneud cais amdano.

Mae gwybodaeth gyffredinol a chyhoeddiadau allweddol ar gael yn Gymraeg ar wefan yr HSE. Mae o'r farn y byddai ymestyn y ddarpariaeth a gweithredu'r safonau'n llawn yn anghymesur, o ystyried y gost a'r galw am wasanaeth.

Roedd ACAS yn ystyried y byddai gwneud y safonau hyn yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur.

Gweithgaredd 11: Defnydd corff o'r cyfryngau cymdeithasol Safonau ynghylch defnydd corff o'r cyfryngau cymdeithasol [58–59]

Nododd tri o'r pedwar person perthnasol eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw. O'r rhai hynny, nododd dau berson perthnasol (ACAS a'r HTA) eu bod yn ei wneud yn Gymraeg. Nododd yr HSE nad oedd yn gwneud y gweithgaredd, ond yn ei dystiolaeth ysgrifenedig cyfeiriwyd at gyfrifon cyfryngau cymdeithasol yr HSE a ddefnyddir gan adran y wasg i gyfathrebu â'r cyfryngau. Nododd yr HSE y byddai aelodau o'r cyhoedd sy'n cyfathrebu â'r HSE drwy'r cyfryngau cymdeithasol yn cael eu hannog i ddefnyddio dulliau eraill o gyfathrebu.

Wrth ddadansoddi ymrwymiadau cynllun iaith Gymraeg cyfredol yr HSE, ar gyfartaledd roedd yr ymrwymiadau'n cyfateb, yn rhannol neu'n llawn, i 50% o'r safonau ynghylch defnydd corff o'r cyfryngau cymdeithasol.

Cyfeiriodd yr HFEA eto at ei diffyg gweithgarwch yng Nghymru, a bod gwasanaeth cyfieithu ar gael, o wneud cais amdano. Nid oedd o'r farn y byddai gwneud y safonau hyn yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur. Yr un oedd barn yr HTA, ond fe nododd yr HTA ei fod wedi cynnal rhywfaint o weithgarwch ar y cyfryngau cymdeithasol yn Gymraeg yn ystod ymgyrchoedd penodol, ac ychwanegwyd ei fod yn ymdrechu i ymateb yn Gymraeg i unrhyw un sy'n cysylltu drwy'r cyfryngau cymdeithasol yn Gymraeg.

Roedd ACAS yn ystyried y byddai gwneud y safonau hyn yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur.

Gweithgaredd 12: Peiriannau hunanwasanaeth Safon ynghylch peiriannau hunanwasanaeth [60]

Nid oedd yr un o'r pedwar person perthnasol wedi nodi eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cynllun iaith Gymraeg cyfredol yr HSE, nid oedd yr ymrwymadau'n cyfateb, yn rhannol neu'n llawn, i'r safon ynghylch peiriannau hunanwasanaeth.

Er nad oedd yn gwneud y gweithgaredd, nododd ACAS ei fod yn ystyried y byddai gwneud y safonau hyn yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur.

Gweithgaredd 13: Arwyddion a arddangosir gan gorff Safonau ynghylch arwyddion a arddangosir gan gorff [61–63]

Nododd pob un o'r pedwar person perthnasol eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw. O'r rhai hynny, nododd dau berson perthnasol (ACAS a'r HSE) eu bod yn ei wneud y gweithgaredd yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cynllun iaith Gymraeg cyfredol yr HSE, ar gyfartaledd roedd yr ymrwymadau'n cyfateb, yn rhannol neu'n llawn, i 67% o'r safonau ynghylch arwyddion a arddangosir gan gorff.

Roedd ACAS a'r HSE yn ystyried y byddai gwneud y safonau hyn yn benodol gymwys iddynt yn rhesymol a chymesur. Nododd yr HSE fod hyn yn ddibynnol ar gyfyngu'r safonau i leoliadau yng Nghymru sydd dan ei reolaeth.

Gweithgaredd 14: Derbyng ymwelwyr i adeiladau'r corff Safonau ynghylch derbyng ymwelwyr i adeiladau'r corff [64–68]

Nododd tri o'r pedwar person perthnasol eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw. O'r rhai hynny, nododd ACAS ei fod yn ei wneud yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cynllun iaith Gymraeg cyfredol yr HSE, ar gyfartaledd roedd yr ymrwymadau'n cyfateb, yn rhannol neu'n llawn, i 33% o'r safonau ynghylch derbyng ymwelwyr i adeiladau'r corff.

Yr HTA a nododd nad oedd yn gwneud y gweithgaredd. Eglurodd mai dau leoliad yn unig a reoleiddir ganddo yng Nghymru. Nid oes gan yr HSE dderbynfa lawn yng Nghymru; mae ei swyddfa yng Nghaerdydd mewn adeilad sydd dan ofal Cyllid a Thollau EM. Am y rheswm hwn, nid oedd o'r farn y byddai gwneud y safonau hyn yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur.

Roedd ACAS yn ystyried y byddai gwneud y safonau hyn yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur.

Gweithgaredd 15: Corff yn gwneud hysbysiadau swyddogol Safonau ynghylch corff yn gwneud hysbysiadau swyddogol [69–70]

Nododd dau o'r pedwar person perthnasol eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw. O'r rhai hynny, nid oedd yr HTA na'r HFEA ychwaith wedi nodi eu bod yn ei wneud yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cynllun iaith Gymraeg cyfredol yr HSE, ar gyfartaledd roedd yr ymrwymadau'n cyfateb, yn rhannol neu'n llawn, i 50% o'r safonau ynghylch corff yn gwneud hysbysiadau swyddogol.

Nododd yr HTA fod y rhan fwyaf o'i weithgarwch yn digwydd y tu allan i Gymru, ac felly nad oedd o'r farn fod y safonau hyn yn rhesymol a chymesur ar ei gyfer. Eglurwyd y byddai hysbysiadau yn cael eu cyfieithu ar gais fel mater o drefn. Cyflwynwyd sylwadau cyffelyb gan yr HFEA.

Er nad oedd yn gwneud y gweithgaredd, nododd ACAS ei fod o'r farn y byddai gwneud y safonau hyn yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur.

Gweithgaredd 16: Corff yn dyfarnu grantiau Safonau ynghylch corff yn dyfarnu grantiau [71–75]

Nid oedd yr un o'r pedwar person perthnasol wedi nodi eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cynllun iaith Gymraeg cyfredol yr HSE, nid oedd yr ymrwymadau'n cyfateb, yn rhannol neu'n llawn, i'r safonau ynghylch corff yn dyfarnu grantiau.

Er nad oedd yn gwneud y gweithgaredd, nododd ACAS ei fod o'r farn y byddai gwneud y safonau hyn yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur.

Gweithgaredd 17: Corff yn dyfarnu contractau Safonau ynghylch corff yn dyfarnu contractau [76–80]

Nododd tri o'r pedwar person perthnasol eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw. O'r rhai hynny, nid oedd yr un person perthnasol yn ei wneud yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cynllun iaith Gymraeg cyfredol yr HSE, nid oedd yr ymrwymadau'n cyfateb, yn rhannol neu'n llawn, i'r safonau ynghylch corff yn dyfarnu ar dendrau am contract.

Nid oedd yr un o'r tri pherson perthnasol sy'n gwneud y gweithgaredd o'r farn y byddai gwneud y safonau hyn yn benodol gymwys iddynt yn rhesymol a chymesur. Y rhesymau a roddwyd gan yr HTA a'r HFEA oedd eu bod wedi eu lleoli y tu allan i Gymru, ac mai cyfyng yw eu gweithgarwch yng Nghymru. Nododd yr HSE ei fod yn cynnal cystadleuaeth am dendrau sy'n ddarostyngedig i gyfarwyddeb yr Undeb Ewropeaidd neu ar lefel Brydeinig a bod rhwystrau ymarferol, er enghraifft materion technegol, ynghyd â phrinder staff â sgiliau iaith Gymraeg, yn golygu ei fod o'r farn na fyddai gwneud y safonau hyn yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur. Fodd bynnag, nodir y canlynol yn Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015:¹⁴

At ddibenion safon 76 (gwahoddiad i dendro)—

(1) Nid yw'n ofynnol i gorff gyhoeddi gwahoddiad i dendro yn Gymraeg yng Nghyfnodolyn Swyddogol yr Undeb Ewropeaidd.

¹⁴ <http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2015/996/made/welsh/data.pdf>

(2) Mae cyfeiriad at beidio â thrin fersiwn Gymraeg yn llai ffafriol na fersiwn Saesneg yn cynnwys, ymysg materion eraill, beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol o ran—

- (a) golwg y deunydd (er enghraifft mewn perthynas â lliw neu ffont unrhyw destun);
- (b) maint y deunydd;
- (c) lleoliad ac amlygrwydd y deunydd mewn unrhyw fan cyhoeddus;
- (ch) pryd a sut y caiff y deunydd ei gyhoeddi, ei ddarparu neu ei arddangos;
- (d) fformat cyhoeddi unrhyw ddeunydd;

ond ni fydd corff yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg drwy beidio â chyhoeddi gwahoddiad i dendro yn Gymraeg yng Nghyfnodolyn Swyddogol yr Undeb Ewropeaidd.

Er nad oedd yn gwneud y gweithgaredd, nododd ACAS ei fod o'r farn y byddai gwneud y safonau hyn yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur.

Gweithgaredd 18: Codi ymwybyddiaeth ynghylch gwasanaethau Cymraeg a ddarperir gan gorff

Safonau ar gyfer codi ymwybyddiaeth ynghylch gwasanaethau Cymraeg a ddarperir gan gorff [81–82]

Nododd dau o'r pedwar person perthnasol (ACAS a'r HSE) eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, a'u bod yn ei wneud yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cynllun iaith Gymraeg cyfredol yr HSE, nid oedd yr ymrwymadau'n cyfateb, yn rhannol neu'n llawn, i'r safonau ynghylch codi ymwybyddiaeth ynghylch gwasanaethau Cymraeg a ddarperir gan gorff.

Roedd ACAS a'r HSE o'r farn y byddai gwneud y safonau hyn yn benodol gymwys iddynt yn rhesymol a chymesur. Ychwanegodd yr HSE ei fod yn darparu gwybodaeth ar ei wefan ac mai parhau â'r arfer hwn oedd ganddynt mewn golwg o ran cydymffurfio â'r safonau hyn.

Dylid nodi bod adran 12(2) (b) Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 yn nodi bod yn rhaid i gynlluniau iaith Gymraeg bennu ym mha ffyrdd y bydd sefydliadau yn sicrhau cyhoeddusrwydd i'r cynllun. Pwysleisia'r Comisiynydd nad yw'r mesur hwn yn elfen ddewisol o fewn y ddeddfwriaeth.

Gweithgaredd 19: Hunaniaeth gorfforaethol corff

Safon ynghylch hunaniaeth gorfforaethol corff [83]

Nododd pob un o'r pedwar person perthnasol eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw. O'r rhai hynny, nododd un person perthnasol (HSE) ei fod yn ei wneud yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cynllun iaith Gymraeg cyfredol yr HSE, roedd yr ymrwymadau'n cyfateb yn llawn i'r safon ynghylch hunaniaeth gorfforaethol corff.

Eglurodd yr HSE fod ganddo hunaniaeth gorfforaethol ddwyieithog yng Nghymru. Nododd yr HSE ac ACAS eu bod o'r farn y byddai gwneud y safonau hyn yn benodol gymwys iddynt yn rhesymol a chymesur.

Gweithgaredd 20: Cyrsiâu a gynigir gan gorff Safonau ynghylch cyrsiau a gynigir gan gorff [84–86]

Nododd un o'r pedwar person perthnasol (sef ACAS) ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, a'i fod yn ei wneud yn Gymraeg. Roedd hefyd o'r farn y byddai gwneud y safonau hyn yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cynllun iaith Gymraeg cyfredol yr HSE, nid oedd yr ymrwymadau'n cyfateb, yn rhannol neu'n llawn, i'r safonau ynghylch cyrsiau a gynigir gan gorff.

Dylid nodi bod Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015 yn cynnwys y canlynol mewn perthynas â'r safonau hyn:

At ddibenion safonau 84, 85 a 86 (cyrsiau), ystyr "cwrs addysg" yw unrhyw seminar, hyfforddiant, gweithdy neu ddarpariaeth debyg sy'n cael ei ddarparu neu ei darparu ar gyfer addysgu neu wella sgiliau aelodau o'r cyhoedd; ond nid yw'n cynnwys gweithgareddau na chyrsiâu sy'n cael eu darparu fel rhan o'r cwricwlwm yn unol ag unrhyw ddeddfiad.¹⁵

Felly, gan gymryd hyn i ystyriaeth, yn ogystal â gwaith ymchwil annibynnol a wnaed gan Gomisiynydd y Gymraeg, mae angen ystyried ymhellach i ba raddau y mae'r personau a nododd nad ydynt yn gwneud y gweithgaredd yn ei wneud, neu y gallent ei wneud yn ddigon rhwydd yn y dyfodol.

Gweithgaredd 21: Systemau annerch cyhoeddus a ddefnyddir gan gorff Safonau ynghylch systemau annerch cyhoeddus a ddefnyddir gan gorff [87]

Nid oedd yr un o'r pedwar person perthnasol wedi nodi eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cynllun iaith Gymraeg cyfredol yr HSE, nid oedd yr ymrwymadau'n cyfateb, yn rhannol neu'n llawn, i'r safonau ynghylch systemau annerch cyhoeddus a ddefnyddir gan gorff.

Er nad oedd yn gwneud y gweithgaredd, nododd ACAS ei fod o'r farn y byddai gwneud y safonau hyn yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur.

Safonau sy'n ymdrin â materion atodol yng nghyswllt y safonau cyflenwi gwasanaethau [155–160]

ACAS yn unig oedd o'r farn y byddai gwneud y safonau hyn yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur. Nododd ACAS y byddai modd iddo gydymffurfio'n llawn â'r safonau, cyn belled â bod adnoddau a chyllid yn caniatáu.

¹⁵ <http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2015/996/made/welsh/data.pdf>

Roedd yr HTA o'r farn fod modd iddo gydymffurfio â'r rhan fwyaf o'r safonau. Safon 158 oedd yn destun pryder iddo, a hynny oherwydd ei fod eisoes yn paratoi adroddiad blynyddol ac adroddiad ar gwynion. Yn ei farn ef, byddai gwneud hynny'n ddwyieithog yn anghymesur. Yr un oedd rhesymeg yr HSE dros gasglu na fyddai gwneud y safonau atodol hyn yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur.

Cyfeiriodd yr HFEA at y ffaith mai dau glinig yn unig sy'n cael eu rheoleiddio ganddo yng Nghymru ac y byddai angen penodi rhywun yn benodol i weithredu'r safonau hyn.

Safonau llunio polisi [88–97]

Safonau ynghylch ystyried effeithiau penderfyniadau polisi a wneir gan gorff ar y Gymraeg [88–97]

Wrth ddadansoddi ymrwymïadau cynllun iaith Gymraeg cyfredol yr HSE, roedd yr ymrwymïadau'n cyfateb, yn rhannol neu'n llawn, i 30% o'r safonau ynghylch ystyried effeithiau penderfyniadau polisi a wneir gan gorff ar y Gymraeg.

Nododd tri o'r pedwar person perthnasol eu bod o'r farn y byddai gwneud y safonau hyn yn benodol gymwys iddynt yn afresymol ac yn anghymesur gan nad oedd y Gymraeg yn ystyriaeth gyfredol ganddynt wrth lunio polisi. Ychwanegodd yr HSE fod eu polisïau'n cael eu llunio gyda holl wledydd Prydain mewn golwg ac y caiff siaradwyr Cymraeg gyfleu unrhyw bryderon sydd ganddynt am yr iaith yn ystod y broses ymgynghori.

Nododd yr HFEA nad oedd wedi derbyn unrhyw gŵyn am ei ddiffyg darpariaeth Gymraeg hyd yma ac adroddodd yr HTA ei fod yn ymgynghori drwy gyfrwng y Gymraeg ond nid ynghylch y Gymraeg.

Er i ACAS nodi nad oedd hyn yn berthnasol iddo gan nad oedd cydymffurfio â'r safonau hyn yn arfer cyfredol ganddo, roedd o'r farn y byddai gwneud y safonau hyn yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur.

Safonau sy'n ymdrin â materion atodol llunio polisi [161–166]

Nododd tri pherson perthnasol eu bod o'r farn y byddai gwneud y safonau hyn yn benodol gymwys iddynt yn afresymol ac yn anghymesur, a hynny oherwydd anfodlonrwydd â'r safonau llunio polisi eu hunain. Aeth yr HFEA ymhellach, gan nodi y byddai angen iddo benodi swyddog o'r newydd er mwyn gallu cydymffurfio â'r safonau hyn.

Nododd ACAS ei fod o'r farn y byddai gwneud y safonau hyn yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur.

Safonau gweithredu [98–144]

Safonau ynghylch defnyddio'r Gymraeg o fewn gweinyddiaeth fewnol corff [98–111]

Wrth ddadansoddi ymrwymïadau cynllun iaith Gymraeg cyfredol yr HSE, ar gyfartaledd roedd yr ymrwymïadau'n cyfateb, yn rhannol neu'n llawn, i 57% o'r safonau ynghylch defnyddio'r Gymraeg o fewn gweinyddiaeth fewnol corff.

Nid oedd gan yr un o'r personau perthnasol bolisi ar ddefnyddio'r Gymraeg yn fewnol. Eglurodd ACAS y byddai modd iddo gydymffurfio â safon 98 pe byddai'n cael ei gwneud yn benodol gymwys iddo. Roedd yr HTA a'r HSE yn rhag-weld y byddai'r gofyniad ynghlwm â'r safon yn anghymesur iddynt, oherwydd nad oes ganddo leoliad yng Nghymru (HTA) neu mai ychydig o'i staff sydd wedi eu lleoli yng Nghymru (HSE). Ni chynigiodd yr HFEA unrhyw sylw yng nghyswllt y safon hon.

Wrth ystyried y ddogfennaeth sy'n gysylltiedig â safonau 99–104, nid yw'r HFEA na'r HSE yn cynnig nac yn darparu unrhyw ddogfennaeth yn Gymraeg i gyflogai. Roedd yr HFEA yn barod i ddarparu hynny ar gais, tra nododd yr HSE mai ei brif swyddfa yn Lerpwl sy'n gyfrifol am recriwtio ac o ganlyniad y byddai cydymffurfio â'r safonau hyn yn afresymol ac yn anghymesur.

Nid yw'r HTA yn cynnig y ddogfennaeth hon i staff yn Gymraeg, ond darperir contract cyflogaeth neu gontract am wasanaethau yn Gymraeg. Roedd yr HTA o'r farn fod parhau â hyn, sef cydymffurfio â gofyniad safon 99, yn rhesymol, ond y byddai gweithredu safonau 100–104 yn gostus ac felly'n afresymol.

Nododd ACAS ei fod yn darparu'r cyfan yn Gymraeg ac yn rhoi'r dewis i gyflogai ym mha iaith yr hoffai dderbyn y ddogfennaeth.

O ran safonau 105–110, nid oedd yr un o'r personau perthnasol yn cynnig unrhyw un o'r dogfennau yn Gymraeg neu'n ddwyieithog. Mynegwyd parodrwydd cyffredinol i ymateb i alw am ddogfennaeth yn Gymraeg gan gyflogai, ond nodwyd eto eu bod wedi eu lleoli y tu allan i Gymru (HTA) neu ag ychydig o staff wedi eu lleoli yng Nghymru (HSE).

Safonau ynghylch cwynion a wneir gan aelodau o staff corff [112–115]

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cynllun iaith Gymraeg cyfredol yr HSE, nid oedd yr ymrwymadau'n cyfateb, yn rhannol neu'n llawn, i'r safonau ynghylch cwynion a wneir gan aelodau o staff corff.

Nid oes unrhyw elfen o'r safonau hyn yn weithredol gan yr HTA, HFEA, na'r HSE ychwaith. Nododd yr HTA y byddai'n anodd iddo gydymffurfio, gan mai sefydliad sydd wedi ei leoli yn Llundain yn unig ydyw. Roedd yr HFEA yn barod i ymateb i gais gan staff. Roedd yr HSE hefyd yn barod i wneud hyn, ond o'r farn fod y safonau hyn yn afresymol ac yn anghymesur o ystyried nifer yr aelodau o'r staff sydd ganddynt yng Nghymru sy'n siarad Cymraeg.

Nododd ACAS ei fod eisoes yn rhoi'r safonau ar waith, ac y gallai barhau i wneud hynny (yn ddarostyngedig i gyfyngiadau ariannol ac adnoddau). Ar hyn o bryd, nid yw ACAS yn darparu gwasanaeth cyfieithu mewn cyfarfodydd ynghylch cwyn gan aelod o staff, a hynny oherwydd ei fod yn gallu cynnal cyfarfodydd heb gymorth cyfieithu.

Safonau ynghylch corff yn disgyblu staff [116–119]

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cynllun iaith Gymraeg cyfredol yr HSE, nid oedd yr ymrwymadau'n cyfateb, yn rhannol neu'n llawn, i'r safonau ynghylch corff yn disgyblu staff.

Nid oes unrhyw elfen o'r safonau hyn yn weithredol gan yr HTA, HFEA, na'r HSE ychwaith. Nododd yr HTA y byddai'n anodd iddo gydymffurfio, gan mai sefydliad sydd wedi ei leoli yn Llundain yn unig ydyw. Roedd yr HFEA yn barod i ymateb i gais gan staff. Roedd yr HSE hefyd yn barod i wneud hyn, ond yn nodi nad oes unrhyw alw wedi bod gan staff hyd yma.

Mae ACAS yn caniatáu i'r staff ymateb yn Gymraeg i honiadau a wneir yn eu herbyn mewn proses ddisgyblu fewnol. Fodd bynnag, nid yw'n hysbysu'r staff o'r hawl honno. Mewn perthynas â chynnal cyfarfod ynghylch achos disgyblu, mae ACAS eisoes yn gwneud darpariaeth yn unol â'r safonau.

Safonau ynghylch technoleg gwybodaeth a deunyddiau cymorth a ddarperir gan gorff, ac ynghylch y fewnrwyd [120–126]

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cynllun iaith Gymraeg cyfredol yr HSE, ar gyfartaledd roedd yr ymrwymadau'n cyfateb, yn rhannol neu'n llawn, i 14% o'r safonau ynghylch technoleg gwybodaeth a deunyddiau cymorth a ddarperir gan gorff, ac ynghylch y fewnrwyd.

Mae'r HTA, HFEA, a'r HSE yn cynnal mewnwyd ond nid oes tudalennau Cymraeg ar gael o gwbl ar hyn o bryd. Ategwyd hynny gan nodi nad oes unrhyw elfen arall o'r safonau hyn yn weithredol ganddynt. Nododd yr HTA a'r HFEA y byddai'n anodd iddynt gydymffurfio, gyda'r HTA yn cyfeirio at y ffaith mai yn Llundain y lleolir y sefydliad, a'r HFEA yn cyfeirio at yr angen i recriwtio aelod staff newydd yn benodol i roi'r safonau hyn ar waith. Nododd yr HSE ei fod yn ystyried y safonau yn afresymol ac anghymesur o bwysu'r gost a'r adnoddau yn erbyn y diffyg galw tybiedig am y gwasanaeth.

Nododd ACAS y byddai'n gweithio tuag at gydymffurfio â safonau 120–126, gan ddibynnu ar gyfyngiadau ariannol ac adnoddau, er iddo nodi nad oes ganddo system fewnrwyd.

Safonau ynghylch corff yn meithrin sgiliau yn y Gymraeg drwy gynllunio a hyfforddi ei weithlu [127–135]

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cynllun iaith Gymraeg cyfredol yr HSE, ar gyfartaledd roedd yr ymrwymadau'n cyfateb, yn rhannol neu'n llawn, i 44% o'r safonau ynghylch corff yn meithrin sgiliau yn Gymraeg drwy gynllunio a hyfforddi ei weithlu.

Nid yw'r HTA, yr HFEA, na'r HSE yn gweithredu unrhyw elfen o'r safonau hyn ar hyn o bryd. Cyfeiriodd yr HSE at y ffaith mai gwasanaeth canolog Civil Service Learning sy'n darparu hyfforddiant ar ei gyfer ac mai yn Saesneg y darperir yr hyfforddiant hwnnw. Bydd staff newydd gyda'r HSE yng Nghymru yn derbyn ychydig o wybodaeth er mwyn codi ymwybyddiaeth o'r Gymraeg fel rhan o'r broses ymsefydlu.

Nododd ACAS fod detholiad o'r safonau ar waith ganddo. Mae'r sefydliad yn asesu sgiliau iaith Gymraeg cyflogai, ac yn darparu ychydig o hyfforddiant yn Gymraeg mewn meysydd penodol (delio â'r cyhoedd). Cadarnhawyd bod holl ofynion safonau 130–133 eisoes ar waith ganddo.

Safonau ynghylch recriwtio ac apwyntio [136–140]

Wrth ddadansoddi ymrwymiadau cynllun iaith Gymraeg cyfredol yr HSE, ar gyfartaledd roedd yr ymrwymiadau'n cyfateb, yn rhannol neu'n llawn, i 50% o'r safonau ynghylch recriwtio ac apwyntio.

Nid yw'r HTA, HFEA, na'r HSE yn gweithredu unrhyw elfen o'r safonau hyn ar hyn o bryd. Nododd yr HTA a'r HFEA nad yw'r Gymraeg yn ofynnol ar gyfer unrhyw swydd a hysbysebir ganddynt. Eglurodd yr HSE mai'r rheolwyr sy'n pennu'r sgiliau angenrheidiol ar gyfer unrhyw swydd, a'i fod yn hysbysebu yn unol â hynny.

Ychydig o'r safonau sy'n weithredol gan ACAS ar hyn o bryd, ond adroddodd fod modd ymgeisio am swydd yn Gymraeg ac na fyddai cais yn Gymraeg yn cael ei drin yn llai ffafriol na chais a gyflwynir yn Saesneg.

Safonau ynghylch arwyddion a arddangosir yng ngweithle corff [141–143]

Wrth ddadansoddi ymrwymiadau cynllun iaith Gymraeg cyfredol yr HSE, ar gyfartaledd roedd yr ymrwymiadau'n cyfateb, yn rhannol neu'n llawn, i 33% o'r safonau ynghylch arwyddion a arddangosir yng ngweithle corff.

Nid oedd yr un o'r personau perthnasol yn arddangos arwyddion Cymraeg yn eu gweithleoedd.

Safon ynghylch cyhoeddiadau a negeseuon sain yng ngweithle corff [144]

Wrth ddadansoddi ymrwymiadau cynllun iaith Gymraeg cyfredol yr HSE nid oedd yr ymrwymiadau'n cyfateb, yn rhannol neu'n llawn, i'r safonau ynghylch cyhoeddiadau a negeseuon sain yng ngweithle corff.

HSE yn unig a nododd ei fod yn gwneud cyhoeddiadau sain yng ngweithle'r corff. Nid yw'n gwneud hynny yn Gymraeg.

Safonau sy'n ymdrin â materion atodol yng nghyswllt y safonau gweithredu [167–172]

ACAS yn unig oedd o'r farn y byddai gwneud y safonau sy'n ymdrin â materion atodol yng nghyswllt y safonau gweithredu yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur.

Cyfeiriodd yr HTA a'r HFEA at eu gweithgaredd cyfyngedig yng Nghymru fel rheswm dros eu safbwynt hwy. Nododd yr HSE nad oedd yn gwneud pob gweithgaredd dan sylw. O'r rhai y mae'n eu gwneud, nid yw'r HSE yn ystyried y byddai gosod y disgwyliad arno i wneud y gweithgaredd yn Gymraeg yn rhesymol a chymesur, a hynny am resymau penodol a nodwyd yn erbyn pob gweithgaredd unigol.

Safonau hybu [145–146]

Safonau ynghylch corff yn hybu'r Gymraeg

Nid oedd yr un o'r personau perthnasol yn dymuno cydsynio i wneud y safonau hybu yn gymwysadwy iddynt.

Safonau cadw cofnodion [147–154]

Safonau ynghylch cadw cofnodion gan gorff

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cynllun iaith Gymraeg cyfredol yr HSE, roedd yr ymrwymadau'n cyfateb, yn rhannol neu'n llawn, i 25% o'r safonau ynghylch cadw cofnodion.

Er nad oes ganddo drefniadau ffurfiol ar gyfer cydymffurfio â hwy ar hyn o bryd, nododd ACAS ei fod yn ystyried y byddai gwneud y safonau hyn yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur.

Mynegodd yr HTA fod modd iddo gydymffurfio â detholiad o'r safonau, sef 147–149, ond y byddai cydymffurfio â'r gweddill yn anos. Nid yw'n cydymffurfio â'r safonau ar hyn o bryd, a nodwyd mai yn Lloegr y'i lleolir ac yno yn bennaf y mae'r safleoedd a reoleiddir ganddo.

Nododd yr HFEA nad yw'n cydymffurfio â'r safonau ar hyn o bryd ac y byddai angen llunio a gweithredu trefniadau cadw cofnodion o'r newydd er mwyn gwneud hynny. Gan mai pedwar safle yn unig a reoleiddir ganddo yng Nghymru, ychwanegodd ei fod o'r farn y byddai gwneud y safonau hyn yn benodol gymwys iddo yn afresymol ac yn anghymesur.

Mynegodd yr HSE bryder ynghylch gofynion y safonau hyn a'u bod yn mynd y tu hwnt i ofynion adrodd ar ei gynllun iaith Gymraeg cyfredol. Cadarnhawyd ei fod yn cofnodi cwynion, yn cynnal hunanasesiad blynyddol o sgiliau iaith Gymraeg staff, ac y byddai modd iddo gydymffurfio o bosib mewn perthynas â'i swyddfeydd Cymreig. Esboniwyd bod staff o'r tu hwnt i Gymru yn gweithio yng Nghymru o bryd i'w gilydd, yn unol â'i anghenion busnes, ond na fyddai'r un cofnodion ar gael ynghylch y gweithwyr hynny.

Safonau ynghylch materion atodol cadw cofnodion [175–176]

Cadarnhaodd ACAS a'r HSE eu bod o'r farn y byddai gwneud y safonau hyn yn benodol gymwys iddynt yn rhesymol a chymesur.

Mynegodd yr HTA a'r HFEA y farn na fyddai gwneud y safonau hyn yn benodol gymwys iddynt yn rhesymol na chymesur. Ymhlith y rhesymau a roddwyd ganddynt oedd y byddai cydymffurfio â hwy yn anodd ac yn gostus ac y byddai angen aelod newydd o staff i'w gweinyddu.

5 Tystiolaeth a dderbyniwyd gan aelodau o'r cyhoedd

Derbyniwyd 172 o ymatebion gan aelodau'r cyhoedd i'r ymchwiliadau safonau a gynhaliwyd gan Gomisiynydd y Gymraeg mewn perthynas â'r personau a ddaw o fewn yr adroddiad safonau hwn. Derbyniwyd 94 o ymatebion i'r ymchwiliad safonau gan unigolion a ddewisodd gwblhau holiadur a ddarparwyd ar eu cyfer gan Gomisiynydd y Gymraeg ar y wefan.

Derbyniwyd 78 ymateb pellach yn seiliedig ar dempled o ymateb safonol a gyhoeddodd Cymdeithas yr Iaith Gymraeg; yn yr achos hwn roedd yr holl ymatebion yr un fath. Mewn chwech o achosion, derbyniwyd ymateb gan unigolion ddwywaith. Derbyniwyd dau ymateb gan fudiadau neu sefydliadau eraill.¹⁶ Mae'r Comisiynydd wedi rhoi sylw i bob ymateb a dderbyniwyd.

Ceir rhestr lawn o'r ymatebwyr a oedd yn fodlon i'w hymatebion gael eu cyhoeddi yn Atodiad B.

Mae Ffigur 1 yn dangos o ble daeth yr ymatebwyr yn ôl eu grŵp a'u lleoliad daearyddol.

Ffigur 1 Nifer yr ymatebion i'r ymchwiliad safonau yn ôl lleoliad¹⁷

Lleoliadau	Nifer	Canran (%)
Abertawe	8	5%
Blaenau Gwent	0	0%
Bro Morgannwg	10	6%
Caerffili	5	3%
Casnewydd	1	1%
Castell-nedd Port Talbot	2	1%
Ceredigion	18	10%
Conwy	9	5%
Caerdydd	17	10%
Gwynedd	35	20%
Merthyr Tudful	2	1%
Pen-y-bont ar Ogwr	1	1%
Powys	5	3%
Rhondda Cynon Taf	3	2%

¹⁶ Ceir rhestr o'r mudiadau/sefydliadau hynny yn Atodiad B yr adroddiad safonau.

¹⁷ Mae'r ystadegau hyn yn cynnwys yr holl ymatebion a ddaeth drwy'r holiadur, ynghyd â thempled Cymdeithas yr Iaith Gymraeg.

Sir Benfro	4	2%
Sir Ddinbych	10	6%
Sir Fynwy	2	1%
Sir Gaerfyrddin	4	2%
Sir y Fflint	4	2%
Torfaen	2	1%
Wrecsam	8	5%
Ynys Môn	13	8%
Tu allan i Gymru	5	3%
Heb ateb	4	2%
Cyfanswm	172	100%

Ymateb y cyhoedd i'r ymchwiliad safonau a gynhelir mewn perthynas â Chyrff Cyhoeddus: llywodraeth leol (darparwyd tai cymdeithasol)

Safonau cyflenwi gwasanaethau


Wrth geisio barn y cyhoedd ar resymoldeb a chymesuredd y gofynion sydd ynghlwm â'r safonau cyflenwi gwasanaethau, gofynnwyd iddynt ymateb i'r cwestiwn isod yn yr holiadur:

A ydych yn cytuno neu'n anghytuno y dylai'r sefydliadau dan sylw fod yn cynnal gweithgareddau safonau cyflenwi gwasanaethau yn Gymraeg, er mwyn eich galluogi chi fel aelod o'r cyhoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn y sefyllfaoedd canlynol?

Wrth ateb y cwestiwn hwn yn rhan o'r holiadur, rhoddwyd cyfle i'r cyhoedd ymateb fesul gweithgaredd sydd o fewn cwrpas safonau cyflenwi gwasanaethau.

Mae Ffigur 2 yn dangos amrywiaeth yr ymatebion a gafwyd:

Ffigur 2 Ymateb i gwestiwn 1 yr holiadur - Safonau cyflenwi gwasanaethau¹⁸



Safonau llunio polisi

Wrth geisio barn y cyhoedd ar resymoldeb a chymesuredd y gofynion sydd ynghlwm â'r safonau llunio polisi, gofynnwyd iddynt ymateb i'r cwestiwn isod yn yr holiadur:

A ydych yn cytuno neu'n anghytuno y dylai penderfyniadau polisi'r sefydliadau dan sylw wella'r cyfleoedd sydd i chi ddefnyddio'r Gymraeg a sicrhau gwell triniaeth i'r Gymraeg?

O'r 94 a ymatebodd drwy'r holiadur ar wefan y Comisiynydd, roedd 97% (91) wedi ateb y cwestiwn hwn. O'r 91 a ymatebodd, roedd 91% (84) yn cytuno gyda'r uchod.

Dengys y ffigur isod sut yr ymatebodd aelodau'r cyhoedd i'r cwestiwn hwn:

¹⁸ Ni ofynnwyd cwestiynau mewn perthynas â chyfryngau cymdeithasol na pheiriannau hunanwasanaeth.

Ffigur 3 Ymateb i gwestiwn 3 yr holiadur - Safonau llunio polisi¹⁹



Safonau gweithredu

Wrth geisio barn y cyhoedd ar resymoldeb a chymesuredd y gofynion sydd ynghlwm â'r safonau gweithredu, gofynnwyd iddynt ymateb i'r cwestiwn isod yn yr holiadur:

A ydych yn cytuno neu'n anghytuno y dylai'r sefydliadau dan sylw orfod hwyluso defnyddio'r Gymraeg yn unol â'r safonau gweithredu?

O'r 94 a ymatebodd drwy'r holiadur ar wefan y Comisiynydd, roedd 98% (92) wedi ateb y cwestiwn hwn. O'r 92 a ymatebodd, roedd 92% (85) yn cytuno gyda'r uchod

Dengys y ffigur isod sut yr ymatebodd aelodau'r cyhoedd i'r cwestiwn hwn:

Ffigur 4 Ymateb i gwestiwn 4 yr holiadur - Safonau gweithredu²⁰



Safonau cadw cofnodion

¹⁹ Noder bod yr ystadegau hyn yn ymwneud â'r ymatebwyr a oedd wedi ateb y cwestiwn hwn.

²⁰ Noder bod yr ystadegau hyn yn ymwneud â'r ymatebwyr a oedd wedi ateb y cwestiwn hwn.

Wrth geisio barn y cyhoedd ar resymoldeb y gofynion sydd ynghlwm â'r safonau cadw cofnodion, gofynnwyd iddynt ymateb i'r cwestiwn isod yn yr holiadur:

A ydych yn cytuno neu'n anghytuno y dylai'r sefydliadau dan sylw gadw cofnod yn dweud sut y mae'n cadw at safonau'r Gymraeg a chadw cofnodion am gwynion?

O'r 94 a ymatebodd drwy'r holiadur ar wefan Comisiynydd y Gymraeg, roedd 98% (92) wedi ateb y cwestiwn hwn. O'r 92 a ymatebodd, roedd 91% (84) yn cytuno y dylai'r ddyletswydd hon gael ei gosod ar y personau perthnasol dan sylw.

Dengys y ffigur isod sut yr ymatebodd aelodau'r cyhoedd i'r cwestiwn hwn:

Ffigur 5 Ymateb i gwestiwn 5 yr holiadur - Safonau cadw cofnodion²¹




Sylwadau pellach

Yn ogystal â darparu ymatebion i gwestiynau penodol ar bwnc yr ymchwiliad safonau, rhoddwyd cyfle i'r cyhoedd nodi unrhyw safonau ychwanegol yr oeddynt o'r farn y dylid eu pennu a'u gwneud yn benodol gymwys i'r personau perthnasol dan sylw, ynghyd ag unrhyw sylwadau pellach a oedd yn berthnasol i'r ymchwiliad safonau hwn.

O'r 94 a ymatebodd drwy'r holiadur ar wefan y Comisiynydd, darparodd 54% (51) ohonynt sylwadau ychwanegol i'w hystyried gan Gomisiynydd y Gymraeg yn rhan o'r ymchwiliad safonau.

²¹ Noder bod yr ystadegau hyn yn ymwneud â'r ymatebwyr a oedd wedi ateb y cwestiwn hwn.

Ffigur 6 Sylwadau pellach a ddarparwyd gan aelodau'r cyhoedd



Yn yr un modd â'r cylchoedd blaenorol, roedd yr ymatebion a dderbyniwyd yn gyffredinol gefnogol i'r cysyniad o bennu safonau, a hynny er mwyn sicrhau hawliau clir i siaradwyr Cymraeg mewn perthynas â'r gwasanaethau Cymraeg a ddarperir gan yr holl sefydliadau sydd wedi eu cynnwys yng nghylch 3.

Mynegwyd cryn awydd unwaith eto gan y cyhoedd i sicrhau bod y safonau a gaiff eu pennu yn rhai sy'n glir, cadarn a dealladwy i bobl gyffredin. Ategwyd hynny gan nodi mai drwy hynny'n unig y sicheir y caiff hawliau siaradwyr Cymraeg eu diogelu.

Amlinellir isod brif themâu'r ymatebion a dderbyniwyd a oedd o blaid gwneud y safonau'n benodol gymwys:

- Yr angen i sicrhau bod pob sefydliad sydd yn darparu gwasanaethau yng Nghymru yn ddarostyngedig i ofynion Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, gan osgoi'r anghysonderau posibl a ddaw o weithredu dwy gyfundrefn statudol.
- Yr angen i sicrhau bod safonau yn sicrhau darpariaeth o wasanaethau Cymraeg yn ddiodyn, gan sicrhau bod y cysyniad o gynniig rhagweithiol yn gyson drwyddi draw.
- Sicrhau nad yw'r broses o ddyfarnu neu ddelio â thendr neu gontract uwchlaw'r angen am osod amodau iaith Gymraeg ar y grantiau/contractau a ddosberthir gan sefydliadau sydd wedi'u cynnwys yng nghylch 3.
- Yr angen i sicrhau bod safonau mewn perthynas â gwasanaeth wyneb-yn-wyneb yn mynd y tu hwnt i brif dderbynfeydd a chyfarfodydd personol sydd wedi eu trefnu ymlaen llaw.
- Yr angen i sicrhau eglurder bod y diffiniad o gyfarfodydd personol yn cynnwys pob cyswllt wyneb-yn-wyneb.
- Yr angen i bennu safon sydd yn gosod gofynion clir ar bolisïau recriwtio sefydliadau.

Derbyniwyd rhai ymatebion gan aelodau'r cyhoedd a oedd yn mynegi gwrthwynebiad cyffredinol i ddyletswyddau iaith. Amlinellir prif themâu'r ymatebion a dderbyniwyd a oedd yn erbyn gwneud y safonau'n benodol gymwys isod:

- Yr angen i ystyried yr hinsawdd economaidd bresennol, a'r modd y caiff arian cyhoeddus ei wario ar y Gymraeg.
- Blaenoriaethu meysydd polisi eraill dros y Gymraeg.
- Perthnasedd y Gymraeg yng Nghymru.
- Anghytuno â'r gofyniad y dylai'r Gymraeg ymddangos neu gael ei chyhoeddi'n gyntaf.
- Biwrocratiaeth y gofynion.

6 Tystiolaeth a dderbyniwyd gan Banel Cynghori Comisiynydd y Gymraeg

Derbyniwyd tystiolaeth gan y Panel Cynghori yn unol â'r gofynion a amlinellir yn adran 63(3) Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

Roedd yr ymatebion a dderbyniwyd gan y Panel yn dangos cefnogaeth i bwrpas y rheoliadau sef gwireddu amcanion sylfaenol Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011: bod y Gymraeg yn iaith swyddogol yng Nghymru ac na ddylid ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Gan gydnabod y bydd pryder ymysg y rheiny caiff eu rheoleiddio gan Gomisiynydd y Gymraeg, pwysleisiwyd y pwysigrwydd ar sicrhau bod pawb yn deall gofynion Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011; y Ddeddfwriaeth a ysgogodd dyfodiad y safonau hyn.

Yn yr un modd â'r hyn a nodwyd yng nghyswllt y personau y cynhaliwyd ymchwiliadau safonau iddynt yng nghylch 2, roedd y Panel o'r farn y dylid ystyried sut y bydd rhai safonau yn cael eu gweithredu mewn modd 'rhesymol a chymesur' wrth osod y gofynion mewn hysbysiadau cydymffurfio o dan adran 44 y Mesur.

Ategwyd hynny gan nodi y gellir ystyried rhesymoldeb a chymesuredd mewn un o ddwy ffordd, sef; pennu safonau gwahanol i bersonau mewn ardaloedd gwahanol o Gymru gan adlewyrchu natur ieithyddol yr ardaloedd perthnasol neu bennu safonau cyffredin ar draws Cymru gan ddatgan diwrnodau gosod gwahanol ar gyfer pryd y bydd yn ofynnol iddynt orfod cydymffurfio â safon(au) e.e. lle bo angen elfen o hyfforddiant staff er mwyn cydymffurfio â safon, caniatáu rhagor o amser i berson gydymffurfio â safon o'i gymharu â pherson lle mae adnoddau staff priodol ar gael eisoes.

Roedd rhai aelodau o'r Panel yn ystyried y dylid gweithredu'r safonau mewn modd sydd yn adlewyrchu patrwm iaith y gwahanol ardaloedd. Cyfeiriwyd yn benodol at gyrff Llywodraeth y DU yn y cyswllt hwn. Pwysleisiwyd unwaith eto y dylid sicrhau bod unrhyw ofynion sy'n cael eu gosod ar bersonau tebyg yn nodi'r amgylchiadau hynny lle bydd disgwyl iddynt gydymffurfio â safon(au).

Wrth ystyried y gweithgareddau a geir o dan y safonau cyflenwi gwasanaethau, cyfeiriwyd yn benodol at gyrsiau addysg a gynigir i'r cyhoedd gan nodi eu bod o'r farn y dylid asesu'r angen, gan ymchwilio i'r bylchau sydd o safbwynt cynnwys, cyn ei gwneud hi'n ofynnol ar berson i gydymffurfio â'r gofyniad.

7 Casgliadau'r ymchwiliad safonau

Sylwadau cyffredinol

Daethpwyd i'r casgliadau isod ar sail y dystiolaeth a dderbyniwyd gan y person perthnasol a'r Panel Cynghori i bwnc yr ymchwiliad safonau, ynghyd â thystiolaeth annibynnol a gasglwyd gan Gomisiynydd y Gymraeg yng nghyd-destun cynllun iaith y person perthnasol dan sylw.

Nodir ym Memorandwm Esboniadol Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 mai un o brif amcanion y Ddeddfwriaeth oedd moderneiddio ac adeiladu ar y system o gynlluniau iaith Gymraeg a grëwyd o dan Ddeddf 1993. Yn yr un modd, eglurir mai nod Llywodraeth Cymru wrth ddeddfu oedd sicrhau gwell cysondeb rhwng personau, yn enwedig rhwng personau yn yr un sector, o ran darparu gwasanaethau Gymraeg.

Yn yr un modd, nodir bod adran 42 o'r Mesur yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i sicrhau bod rheoliadau'n darparu bod safonau cyflenwi gwasanaethau sy'n ymwneud â phob un o'r gweithgareddau a bennir yn Atodlen 9 yn benodol gymwys i berson os yw'r person, ac i'r graddau y mae'r person, yn gwneud y gweithgareddau hynny.

Er hynny, dylid nodi nad oes raid iddynt wneud hynny os yw'r Comisiynydd yn nodi mewn adroddiad safonau, neu os yw Gweinidogion Cymru o'r farn, y byddai'n afresymol neu'n anghymesur i safonau cyflenwi gwasanaethau fod yn benodol gymwys i berson mewn perthynas â'r gweithgaredd hwnnw. Dylid nodi nad yw'r adran hon o'r Mesur yn atal rheoliadau o dan adran 39 rhag darparu bod safonau cyflenwi gwasanaethau eraill yn benodol gymwys i berson.

Yn unol â'r uchod, os amlygwyd drwy'r ymchwiliad safonau fod person yn gwneud y gweithgaredd,²² boed hynny i raddau mwy neu lai, daw Comisiynydd y Gymraeg i'r casgliad y dylai'r holl safonau mewn perthynas â'r gweithgaredd hwnnw gael eu gwneud yn benodol gymwys iddynt. Daethpwyd i'r casgliadau hynny gan fod y safonau a bennwyd gan Lywodraeth Cymru yn gyd-ddibynnol ar ei gilydd o fewn cwmpas gweithgaredd.

Ategwyd hynny gan ymateb Gweinidogion Cymru i adroddiadau a chasgliadau Comisiynydd y Gymraeg mewn perthynas â chylch 2 o'i ymchwiliadau safonau, a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2015 ac sy'n nodi'r canlynol:

Os bydd o leiaf un sefydliad o fewn sector wedi nodi ei fod yn ymgymryd â gweithgaredd, mae'r Comisiynydd wedi dod i'r casgliad y dylai'r safonau drafft sy'n gysylltiedig â'r gweithgaredd hwnnw fod yn benodol gymwys i'r holl sefydliadau o fewn y sector hwnnw. Mae Gweinidogion Cymru'n cefnogi'r dull hwn gan ei fod yn dilyn cynsail a sefydlwyd yn y gyfres gyntaf o Reoliadau, a olygodd fod yr un safonau'n gymwys i sefydliadau o fewn yr un sector.²³

²² Gweithgaredd cyflenwi gwasanaethau fel y'i diffinnir yn adran 28 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

²³ <http://gov.wales/topics/welshlanguage/response-to-welsh-language-standards-investigation/?lang=cy&ghg>

Nodir hefyd y gall y modd y cyflenwir gwasanaeth mewn perthynas â gweithgaredd newid yn y dyfodol ac y byddai angen addasu i adlewyrchu hynny drwy amrywio'r hysbysiad cydymffurfio, yn hytrach na mynd yn ôl at reoliadau.

Er hynny, lle ceir dystiolaeth nad yw person yn gwneud gweithgaredd o gwbl, boed hynny drwy dystiolaeth a ddaw yn rhan o'r ymchwiliad safonau neu drwy dulliau eraill, daw Comisiynydd y Gymraeg i'r casgliad na ddylai safonau o dan y gweithgaredd hwnnw fod yn benodol gymwys iddynt, oni bai fod rhesymau dilys dros wneud hynny.

Bydd Comisiynydd y Gymraeg yn ystyried y dystiolaeth a ddarparwyd er mwyn dod i benderfyniad ar gynnwys hysbysiadau cydymffurfio a roddir i bersonau perthnasol o dan adran 44 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

Safonau y dylid eu gwneud yn benodol gymwys i Adrannau'r Llywodraeth a Phersonau sy'n arfer ar ran y Goron, swyddogaethau a roddir gan neu o dan Ddeddf neu Fesur

Safonau cyflenwi gwasanaethau

Unwaith eto, dymuna'r Comisiynydd nodi pwysigrwydd gwahaniaethu'n glir rhwng ymrwymadau person (yr hyn sy'n ddisgwyliedig ohono) a pherfformiad (i ba raddau y mae'n cydymffurfio â'r disgwyliadau hynny ar hyn o bryd). Mae pob cynllun iaith Gymraeg yn dwyn awdurdod llawn y person wrth ddod i gytundeb ar gynnwys. Byddai peidio â phennu safonau sy'n gydradd, a'u gwneud yn benodol gymwys i'r personau dan sylw yn gam yn ôl ac yn mynd yn groes i fwriad Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

Nodir bod perfformiad, ynghyd â'r graddau y gall person gydymffurfio â safon ar amser penodol, yn fater ymarferol. Gall y graddau hynny wella, gwaethygu neu aros yr un fath. Mae Comisiynydd y Gymraeg o'r farn y dylai ymrwymadau ddiwallu anghenion defnyddwyr y Gymraeg y maent yn eu gwasanaethu, gydag amserlen resymol wedi ei phennu ar gyfer delio ag unrhyw rwystrau sy'n bodoli. Bydd Comisiynydd y Gymraeg yn ystyried y rhwystrau hynny wrth benderfynu ar gynnwys hysbysiadau cydymffurfio a gyflwynir o dan adran 44 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

Cydnabyddir i'r personau adnabod heriau a rhwystrau posib i gydymffurfiaeth lawn â rhai o'r safonau cyflenwi gwasanaeth. Serch hynny, mae'r Comisiynydd o'r farn y gellid cwrdd ag ymrwymadau sy'n gymesur ag anghenion defnyddwyr y Gymraeg gydag amserlen resymol ar gyfer gweithredu ac ymdrin ag unrhyw heriau.

Cydnabyddir hefyd fod y personau wedi nodi nad oeddent yn gwneud pob un o'r gweithgareddau dan sylw. Fodd bynnag, er mwyn sicrhau cysondeb o fewn y sector, pan fo o leiaf un person o fewn y grŵp wedi nodi ei fod yn gwneud gweithgaredd, daw Comisiynydd y Gymraeg i'r casgliad y dylid gwneud y gweithgaredd hwnnw'n benodol gymwys i'r holl bersonau o fewn y grŵp hwnnw.

Dylid nodi bod adran 12(2) (b) Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 yn nodi bod raid i gynlluniau iaith Gymraeg bennu ym mha ffyrdd y bydd sefydliadau yn sicrhau

cyhoeddusrwydd i'r cynllun. Pwysleisia'r Comisiynydd nad yw'r mesur hwn yn elfen ddewisol o fewn y ddeddfwriaeth.

Mae natur a lleoliad nifer o'r personau perthnasol yn y grŵp yn codi materion i'w hystyried ymhellach. Adroddodd sawl person eu bod yn defnyddio, heb ddewis mewn rhai amgylchiadau, gwasanaethau neu drefniadau sy'n perthyn i'r Gwasanaeth Sifil yn ehangach. Mewn perthynas â gwefannau a gwasanaethau ar-lein corff, eglurodd Cyllid a Thollau EM a Chomisiwn Elusennau Cymru a Lloegr mai GOV.UK sy'n cynnal cynnwys eu gwefannau. Yn ymarferol, mae hyn yn golygu bod ganddynt lai o reolaeth dros gynnwys eu hadrannau ar y wefan honno. Hefyd, yn achos tystiolaeth Comisiwn Elusennau Cymru a Lloegr, amlygwyd bod trosglwyddo o wefannau unigol i GOV.UK wedi effeithio'n andwyol ar y ddarpariaeth Gymraeg.

Bu i Gyllid a Thollau EM hefyd nodi ei fod yn gwneud defnydd o drefniadau a gytunwyd ar gyfer ei defnydd ar draws adrannau Llywodraeth y Deyrnas Gyfunol – sydd yn cynnwys sefydliadau a ystyrir yn “Weinidogion y Goron” - mewn perthynas â chytundebau am wasanaethau. Roedd yr un yn wir ar gyfer Gwasanaeth Erlyn y Goron a'r Swyddfa Ystadegau Gwladol hefyd.

Dylid nodi mai'r Swyddfa Gabinet sydd â chyfrifoldeb dros y ddau achos uchod o GOV.UK, ynghyd â chydlynu contractau ar draws Llywodraeth y DU. Mae'r Swyddfa Gabinet yn gorff a ddaw o fewn y cofnod “Gweinidogion y Goron” yn Atodlen 6 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Nid oes cydsyniad mewn lle ar hyn o bryd i wneud safonau'n benodol gymwys i Weinidogion y Goron.

Dylai Gweinidogion Cymru rhoi ystyriaeth i'r sefyllfa ddeddfwriaethol hon, a'r ffaith bod personau perthnasol a ddaw o fewn cofnod 'Gweinidogion y Goron' yn cyfyngu ar allu'r personau hynny a ddaw o fewn y cofnodion isod i gydymffurfio â safonau'r Gymraeg:

- Adrannau'r Llywodraeth
- Personau sy'n arfer, ar ran y Goron, swyddogaethau a roddir gan neu o dan Ddeddf neu Fesur.

Yn debyg iawn, tynnodd yr HSE sylw at y ffaith bod Yr Adran Gwaith a Phensiynau yn rhiant adran iddynt, a hynny at y diben o wirio os ddylai fod wedi'i gynnwys fel rhan o'r ymchwiliadau safonau.

Cafwyd cydnabyddiaeth mewn llythyr gan Gyllid a Thollau EM nad ydynt yn adran Gweinidogion y Goron:

Nid yw CThEM yn adran o dan Weinidog y Goron, ac felly nid yw'n dod o dan y trefniadau gwahanol parthed gosod safonau ar gyfer adrannau'r Llywodraeth ganolog a amlinellir ym Mesur y Gymraeg.

Fodd bynnag, bu i Gyllid a Thollau EM nodi'r isod mewn llythyr a oedd yn gysylltiedig i'w dystiolaeth:

Rydym bob amser wedi bod yn glir y dylid trin CThEM yn yr un modd ag Adrannau eraill y Llywodraeth ganolog - mae CThEM yn un o adrannau'r

Canghellor ac mae cyswllt anorfod rhwng ei weithgaredd gweithredol craidd, sef casglu treth, a chyfrifoldeb polisi'r Trysorlys a gweinidogion y Trysorlys.

Cynhaliwyd ymchwiliad safonau mewn perthynas â'r Swyddfa Ystadegau Gwladol. Yn ei thystiolaeth, nododd y Swyddfa mai braich weithredol yr UK Statistics Authority ydyw, a darparwyd tystiolaeth a oedd yn trafod y ddau endid. Yn ymarferol, yr unig ystyriaeth a godwyd mewn perthynas â'r gwahaniaeth hwn oedd yr hyn a nodwyd mewn perthynas â hunaniaeth gorfforaethol.

Mynegodd pob un o aelodau'r ddau grŵp y safbwynt fod ambell un o'r safonau yn afresymol ac yn anghymesur o fewn pob gweithgaredd. Ymhlith Adrannau'r Llywodraeth, nid oedd Ystad y Goron, Cynilion a Buddsoddiadau Cenedlaethol, yr Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol, a'r Swyddfa Twyll Difrifol yn cytuno y byddai gwneud y safonau mewn perthynas ag unrhyw un o'r gweithgareddau yn benodol gymwys iddynt yn rhesymol a chymesur. O'r grŵp personau sy'n arfer ar ran y Goron, swyddogaethau a roddir gan neu o dan Ddeddf neu Fesur, nid oedd yr HTA, yr HFEA, a'r HSE yn cytuno y byddai gwneud y safonau mewn perthynas ag unrhyw un o'r gweithgareddau yn benodol gymwys iddynt yn rhesymol a chymesur. Themâu cyson yn atebion y personau a rhestrwyd uchod oedd diffyg presenoldeb a gweithgarwch yng Nghymru, yn ogystal â diffyg o ran ymwneud â'r cyhoedd.²⁴ Bydd Comisiynydd y Gymraeg yn ystyried yr anghysonderau hyn ymhellach wrth benderfynu ar gynnwys hysbysiadau cydymffurfio unigol a gyflwynir ymysg y sefydliadau unigol o dan adran 44 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

Yn sgil cynnal yr ymchwiliad safonau hwn, ac ar sail y dystiolaeth a dderbyniwyd, daw'r Comisiynydd i'r casgliad isod:

Casgliad 1:

Daw Comisiynydd y Gymraeg i'r casgliad y dylai Gweinidogion Cymru sicrhau bod rheoliadau yn gwneud darpariaeth i safonau cyflenwi gwasanaethau mewn perthynas â'r gweithgareddau isod fod yn benodol gymwys i adrannau'r Llywodraeth:

- gohebiaeth a anfonir gan gorff
- galwadau ffôn i gorff ac oddi wrth gorff
- cyfarfodydd a gynhelir gan gorff nad ydynt yn agored i'r cyhoedd yn gyffredinol
- cyfarfodydd a drefnir gan gorff sy'n agored i'r cyhoedd
- digwyddiadau cyhoeddus a drefnir neu a ariennir gan gorff
- cyhoeddusrwydd a hysbysebu gan gorff
- corff yn arddangos deunydd yn gyhoeddus
- corff yn llunio ac yn cyhoeddi dogfennau
- corff yn llunio ac yn cyhoeddi ffurflenni
- gwefannau a gwasanaethau ar-lein corff
- defnydd corff o'r cyfryngau cymdeithasol
- arwyddion a arddangosir gan gorff
- derbyn ymwelwyr i adeiladau'r corff
- corff yn gwneud hysbysiadau swyddogol
- corff yn dyfarnu grantiau

²⁴ Dylid nodi nad yw'r safonau yn cyfeirio at aelodau'r cyhoedd ym mhob achos.

- corff yn dyfarnu contractau
- codi ymwybyddiaeth ynghylch gwasanaethau Cymraeg a ddarperir gan gorff
- hunaniaeth gorfforaethol corff
- cyrsiau a gynigir gan gorff
- systemau annerch cyhoeddus a ddefnyddir gan gorff.

Casgliad 2:

Daw Comisiynydd y Gymraeg i'r casgliad y dylai Gweinidogion Cymru sicrhau bod rheoliadau yn gwneud darpariaeth i safonau cyflenwi gwasanaethau mewn perthynas â'r gweithgareddau isod fod yn benodol gymwys i bersonau sy'n arfer ar ran y Goron, swyddogaethau a roddir gan neu o dan Ddeddf neu Fesur:

- gohebiaeth a anfonir gan gorff
- galwadau ffôn i gorff ac oddi wrth gorff
- cyfarfodydd a gynhelir gan gorff nad ydynt yn agored i'r cyhoedd yn gyffredinol
- cyfarfodydd a drefnir gan gorff sy'n agored i'r cyhoedd
- digwyddiadau cyhoeddus a drefnir neu a ariennir gan gorff
- cyhoeddusrwydd a hysbysebu gan gorff
- corff yn arddangos deunydd yn gyhoeddus
- corff yn llunio ac yn cyhoeddi dogfennau
- corff yn llunio ac yn cyhoeddi ffurflenni
- gwefannau a gwasanaethau ar-lein corff
- defnydd corff o'r cyfryngau cymdeithasol
- arwyddion a arddangosir gan gorff
- derbyn ymwelwyr i adeiladau'r corff
- corff yn gwneud hysbysiadau swyddogol
- corff yn dyfarnu contractau
- codi ymwybyddiaeth ynghylch gwasanaethau Cymraeg a ddarperir gan gorff
- hunaniaeth gorfforaethol corff
- cyrsiau a gynigir gan gorff.

Nid oedd yr un person perthnasol o fewn yr adroddiad safonau hwn wedi nodi ei fod yn cyflenwi peiriannau hunanwasanaeth. Nid oedd ymrwymadau, boed yn rhannol neu'n llawn, yng nghynlluniau iaith Gymraeg unrhyw un o'r personau a oedd â chynllun iaith Gymraeg yn cyfateb ychwaith i'r safonau hyn.

Casgliad 3:

Daw Comisiynydd y Gymraeg i'r casgliad y dylai Gweinidogion Cymru sicrhau bod rheoliadau yn gwneud darpariaeth i safonau cyflenwi gwasanaethau mewn perthynas â'r gweithgaredd isod fod yn benodol gymwys i adrannau'r Llywodraeth, i'r graddau y mae Gweinidogion Cymru o'r farn ei fod yn weithgaredd y gallasai'r personau ymgymryd ag ef yn y dyfodol:

- peiriannau hunanwasanaeth.

Casgliad 4:

Daw Comisiynydd y Gymraeg i'r casgliad y dylai Gweinidogion Cymru sicrhau bod rheoliadau yn gwneud darpariaeth i safonau cyflenwi gwasanaethau mewn perthynas â'r gweithgaredd isod fod yn benodol gymwys i bersonau sy'n arfer ar ran y Goron, swyddogaethau a roddir gan neu o dan Ddeddf neu Fesur, i'r graddau y mae Gweinidogion Cymru o'r farn ei fod yn weithgaredd y gallasai'r personau ymgymryd ag ef yn y dyfodol:

○ peiriannau hunanwasanaeth.

O'r personau perthnasol hynny o fewn y grŵp 'personau sy'n arfer ar ran y Goron, swyddogaethau a roddir gan neu o dan Ddeddf neu Fesur' nid oedd yr un ohonynt wedi nodi eu bod yn dyfarnu grantiau, nac ychwaith yn cynnal systemau annerch cyhoeddus a ddefnyddir gan gorff. Nid oedd ymrwymadau, rhannol neu llawn, yng nghynlluniau iaith Gymraeg unrhyw un o'r personau a oedd â chynllun iaith Gymraeg yn cyfateb ychwaith i'r safonau hyn.

Mewn perthynas â dyfarnu grantiau, ni dderbyniwyd tystiolaeth i amlygu os oedd yna resymau cyfansoddiadol neu ddeddfwriaethol i egluro pam nad oeddent yn dyfarnu grantiau. Dylid nodi y rhoddir hyblygrwydd o dan adran 44 y Mesur i Gomisiynydd y Gymraeg nodi'r amgylchiadau y bydd disgwyl i berson gydymffurfio â safon mewn hysbysiad cydymffurfio.

Mae Comisiynydd y Gymraeg o'r farn y gall personau ymgymryd â gweithgareddau cyflenwi gwasanaethau eraill y mae'n debygol y byddai systemau annerch cyhoeddus yn gysylltiedig â hwy: er enghraifft cyfarfodydd sy'n agored i'r cyhoedd, neu ddigwyddiadau cyhoeddus. O'r herwydd, daw Comisiynydd y Gymraeg i'r casgliad y gall hwn fod yn weithgaredd perthnasol i i bersonau sy'n arfer ar ran y Goron, swyddogaethau a roddir gan neu o dan Ddeddf neu Fesur.

Casgliad 5:

Daw Comisiynydd y Gymraeg i'r casgliad y dylai Gweinidogion Cymru sicrhau bod rheoliadau yn gwneud darpariaeth i safonau cyflenwi gwasanaethau mewn perthynas â'r gweithgareddau isod fod yn benodol gymwys i bersonau sy'n arfer ar ran y Goron, swyddogaethau a roddir gan neu o dan Ddeddf neu Fesur:

- corff yn dyfarnu grantiau
- systemau annerch cyhoeddus a ddefnyddir gan gorff.

Safonau llunio polisi

Yn sgil cynnal yr ymchwiliad safonau hwn ac ar sail y dystiolaeth a dderbyniwyd, daw Comisiynydd y Gymraeg i'r casgliad y dylai penderfyniadau polisi sefydliadau a ddaw o fewn adroddiad safonau Cyrff Cyhoeddus: Llywodraeth wella'r cyfleoedd sydd ar gael i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg a sicrhau na chaiff y Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Rhesymau'r Comisiynydd dros ddod i'r casgliad hwn yw fod eisoes disgwyl i bersonau asesu goblygiadau ieithyddol polisiâu a mentrau newydd yn ystod y broses o'u creu a'u hadolygu. Cadarnhawyd hyn oll yn y dystiolaeth a dderbyniwyd ganddynt fel rhan o'r ymchwiliad safonau hwn.

Mae'r mesurau gofynnol sy'n sail ar gyfer cynnwys cynlluniau iaith Gymraeg i'w gweld ar ffurf canllawiau statudol a gymeradwywyd gerbron Tŷ'r Cyffredin (cymeradwywyd Canllawiau ar Ffurf a Chynnwys Cynlluniau Iaith gan Senedd y DU ar 19 Gorffennaf 1995). Nodir yn y canllawiau hynny y dylai sefydliadau orfod pennu'r mesurau y bwriedir eu cymryd wrth asesu effaith polisiau, strategaethau a mentrau newydd ac yn eu gweithredu.

Adroddodd nifer o bersonau o fewn y grŵp fod eu gallu i lunio polisi wedi ei gyfyngu gan eu cylch gorchwyl statudol a'r deddfau a arweiniodd at eu sefydlu, neu nad oeddent yn llunio polisi o gwbl. Fodd bynnag, dylid cofio'r hyn a nodwyd yn Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015:²⁵

Yn rhan 1 o'r Atodlen hon, ystyr "penderfyniad polisi" yw unrhyw benderfyniad a wneir gan gorff sy'n ymwneud ag arfer ei swyddogaethau neu gynnal ei fusnes neu ymgymeriad arall, ac mae hynny'n cynnwys, ymysg pethau eraill (ac fel y bo'n briodol i'r corff), penderfyniadau ynghylch –

- (a) cynnwys deddfwriaeth;
- (b) arfer pwerau statudol;
- (c) cynnwys datganiadau polisi;
- (ch) strategaethau neu gynlluniau strategol;
- (d) strwythurau mewnol.

Gan gymryd yr uchod i ystyriaeth, mae Comisiynydd y Gymraeg wedi dod i'r casgliadau isod.

Casgliad 6:

Daw Comisiynydd y Gymraeg i'r casgliad y dylai Gweinidogion Cymru sicrhau bod rheoliadau yn gwneud darpariaeth i safonau llunio polisi fod yn benodol gymwys i adrannau'r Llywodraeth.

Casgliad 7:

Daw Comisiynydd y Gymraeg i'r casgliad y dylai Gweinidogion Cymru sicrhau bod rheoliadau yn gwneud darpariaeth i safonau llunio polisi fod yn benodol gymwys i bersonau sy'n arfer ar ran y Goron, swyddogaethau a roddir gan neu o dan Ddeddf neu Fesur.

Safonau gweithredu

Yn adran 30 o'r Mesur, nodir mai ystyr safon gweithredu yw:

safon y bwriedir iddi hybu neu hwyluso defnyddio'r Gymraeg

- (i) gan A wrth i A wneud ei weithgareddau perthnasol,
- (ii) gan A a pherson arall wrth iddynt ddelio â'i gilydd mewn cysylltiad â gweithgareddau perthnasol A, neu
- (iii) gan berson heblaw A wrth iddo wneud gweithgareddau at ddibenion gweithgareddau perthnasol A, neu mewn cysylltiad â hwy.

Golyga hynny mai diben y safonau gweithredu yw sicrhau bod aelod o staff yn cael defnyddio'r Gymraeg wrth wneud ei weithgareddau perthnasol gydag eraill. Gall

²⁵ <http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2015/996/made/welsh/data.pdf>

hynny olygu â'r cyhoedd yng Nghymru, neu â pherson perthnasol arall. Drwy'r safonau hyn, sicrhair bod sgiliau iaith staff yn ddigonol er mwyn i unigolion sy'n dymuno defnyddio'r Gymraeg â'r person hwnnw allu gwneud hynny. Dylid pwysleisio bod yr amcan hwn yr un mor briodol i bersonau sydd wedi eu lleoli mewn mannau eraill yn y DU, ond sy'n cyflenwi gwasanaethau i Gymru, ag y mae i bersonau sydd wedi eu lleoli yng Nghymru. Caiff yr uchod ei ategu gan y ffaith fod Atodlen 6 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn nodi bod safonau gweithredu yn gymwysadwy i'r holl bersonau.

Noda Comisiynydd y Gymraeg fod rhai personau o'r math hwn (h.y. heb fod wedi eu lleoli yng Nghymru) wedi eu cynnwys o fewn yr adroddiad safonau hwn, sef:

- Ystad y Goron
- Cynilion a Buddsoddiadau Cenedlaethol
- Yr Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol
- ORR
- Y Swyddfa Twyll Difrifol
- Ofwat
- HTA
- HFEA.

Dylid nodi bod gan yr Asiantaeth Troseddau Cenedlaethol bresenoldeb yng Nghymru, ond mai presenoldeb gweithredol (yn yr ystyr gorfodi'r gyfraith) yn unig yw hyn. Nid yw manylion fel cyfeiriad a rhif ffôn y lleoliad yn cael eu gwneud yn gyhoeddus. Felly, nid yw'r mwyafrif o weithgareddau mewn perthynas â'r safonau gweithredu yn cael eu gwneud yng Nghymru, ac fe gynhwyswyd Yr Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol yn y rhestr uchod.

Ar 24 Mawrth 2015, cymeradwywyd Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015 yng Nghyfarfod Llawn Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Cafodd y rheoliadau hyn eu datblygu i osod dyletswyddau ar gynghorau bwrdeistref sirol a chynghorau sir, awdurdodau parciau cenedlaethol a Gweinidogion Cymru. Lleolir yr holl sefydliadau hynny yng Nghymru. Dylai Gweinidogion Cymru sicrhau bod safonau gweithredu a gaiff eu pennu mewn rheoliadau ar gyfer cylch 3 yn cyflawni'r un amcanion ag a nodir uchod, gan gydnabod nad yw rhai personau wedi eu lleoli yng Nghymru ar hyn o bryd.

Mae Comisiynydd y Gymraeg yn cydnabod bod rhai elfennau ynghlwm wrth y safonau gweithredu yn newydd i nifer o'r personau perthnasol a ddaw o fewn yr adroddiad safonau hwn. I'r un perwyl, derbyniwyd rhai enghreifftiau lle nad oes trefniadau ar gael er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth lawn â'r gofynion ar hyn o bryd. Bydd Comisiynydd y Gymraeg yn ystyried hyn ymhellach wrth benderfynu ar gynnwys hysbysiadau cydymffurfio o dan adran 44 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

Er hyn, dylid nodi bod nifer o'r gofynion yn bethau sy'n ddisgwyliedig i nifer o bersonau eu gwneud o dan gynlluniau iaith Gymraeg. Mae'r rhain yn cynnwys pennu mesurau i sicrhau bod gweithleoedd sydd â chyswllt â'r cyhoedd yng Nghymru yn ceisio cael digon o siaradwyr Cymraeg sydd â'r sgiliau priodol; mesurau i glustnodi'r swyddi hynny lle'r ystyrir bod y gallu i siarad Cymraeg yn hanfodol a'r rhai lle'r ystyrir ei fod yn ddymunol; ynghyd â mesurau i asesu'r angen am hyfforddiant a'i ddarparu i gyflogeion.

I'r perwyl hwn, ac ar sail y dystiolaeth a dderbyniwyd, daw'r Comisiynydd i'r casgliad ei bod yn rhesymol a chymesur i'r personau hyn alluogi eu gweithwyr i wneud eu gweithgareddau perthnasol drwy gyfrwng y Gymraeg.

Gyda'r elfennau hynny nad ydynt wedi eu gwreiddio yn eu cynllun iaith Gymraeg neu'n weithredol ar hyn o bryd, daw Comisiynydd y Gymraeg i'r casgliad y byddai caniatáu amser digonol iddynt ymgynraedd at y nod polisi newydd hwn, yn ogystal â chynnwys mesurau lleddfu eraill mewn hysbysiadau cydymffurfio, lle bo'n briodol, yn rhesymol a chymesur.

Daw'r Comisiynydd i'r un casgliadau ar gyfer y personau hynny sydd wedi nodi nad oes ganddynt staff sy'n medru'r Gymraeg ar hyn o bryd, a hynny er mwyn eu galluogi hwy i weithredu'r dosbarthiadau eraill o safonau.

Personau nad ydynt wedi eu lleoli yng Nghymru ar hyn o bryd:

Casgliad 8:

Daw Comisiynydd y Gymraeg i'r casgliad y dylai Gweinidogion Cymru sicrhau bod rheoliadau yn gwneud darpariaeth i safonau gweithredu mewn perthynas â'r materion isod fod yn benodol gymwys i adrannau'r Llywodraeth, ac i bersonau sy'n arfer ar ran y Goron, swyddogaethau a roddir gan neu o dan Ddeddf sydd heb eu lleoli yng Nghymru:

- safonau ynghylch corff yn meithrin sgiliau yn y Gymraeg drwy gynllunio a hyfforddi ei weithlu
- safonau ynghylch recriwtio gan gorff.

Casgliad 9:

Daw Comisiynydd y Gymraeg i'r casgliad y dylai Gweinidogion Cymru ystyried pennu safonau amgen mewn perthynas â'r materion isod ar gyfer adrannau'r Llywodraeth, ac i bersonau sy'n arfer ar ran y Goron, swyddogaethau a roddir gan neu o dan Ddeddf sydd heb eu lleoli yng Nghymru:

- safonau ynghylch defnyddio'r Gymraeg o fewn gweinyddiaeth fewnol corff
- safonau ynghylch cwynion a wneir gan aelod o staff corff
- safonau ynghylch corff yn disgyblu staff
- safonau ynghylch technoleg gwybodaeth a deunyddiau cymorth a ddarperir gan gorff, ac ynghylch y fewnrwyd
- safonau ynghylch arwyddion a arddangosir yng ngweithle corff
- safon ynghylch cyhoeddiadau a negeseuon sain yng ngweithle corff.

Personau sydd wedi eu lleoli yng Nghymru:

Casgliad 10:

Daw Comisiynydd y Gymraeg i'r casgliad y dylai Gweinidogion Cymru sicrhau bod rheoliadau yn gwneud darpariaeth i safonau gweithredu mewn perthynas â'r materion isod fod yn benodol gymwys i adrannau'r Llywodraeth, ac i bersonau sy'n arfer ar ran y Goron, swyddogaethau a roddir gan neu o dan Ddeddf sydd wedi eu lleoli yng Nghymru:

- safonau ynghylch defnyddio'r Gymraeg o fewn gweinyddiaeth fewnol corff
- safonau ynghylch cwynion gan aelodau o staff corff
- safonau ynghylch corff yn disgyblu staff
- safonau ynghylch technoleg gwybodaeth a deunyddiau cymorth a ddarperir gan gorff, ac ynghylch y fewnrwyd
- safonau ynghylch corff yn meithrin sgiliau yn y Gymraeg drwy gynllunio a hyfforddi ei weithlu
- safonau ynghylch recriwtio gan gorff
- safonau ynghylch arwyddion a arddangosir yng ngweithle corff
- safon ynghylch cyhoeddiadau a negeseuon sain yng ngweithle corff.

Safonau cadw cofnodion

Yn sgil cynnal yr ymchwiliad safonau hwn ac ar sail y dystiolaeth a dderbyniwyd, daw Comisiynydd y Gymraeg i'r casgliad y dylai'r personau a ddaw o fewn yr adroddiad Cyrff Cyhoeddus: Llywodraeth gadw cofnod yn dweud sut y maent yn cadw at safonau y disgwylir iddynt gydymffurfio â hwy, ynghyd â chwynion.

O dan gynlluniau iaith Gymraeg mae'n ofynnol i'r sefydliadau dan sylw bennu'r camau sydd i'w cymryd i gyhoeddi gwybodaeth ar berfformiad y sefydliad yn erbyn y gofynion statudol. Cadarnhawyd hynny yn y dystiolaeth a dderbyniwyd, gyda phob person perthnasol, ar y cyfan, yn nodi bod y safonau cadw cofnodion, mewn egwyddor, yn weithredol i raddau helaeth ac yn arfer cyfredol. Atgyfnerthwyd hynny wrth i fwyafrif helaeth y personau perthnasol gadarnhau y byddai gwneud yr holl safonau, neu ddetholiad ohonynt, yn benodol gymwys iddynt yn rhesymol a chymesur.

Casgliad 11:

Daw Comisiynydd y Gymraeg i'r casgliad y dylai Gweinidogion Cymru sicrhau bod rheoliadau yn gwneud darpariaeth i safonau cadw cofnodion fod yn benodol gymwys i adrannau'r Llywodraeth, ac i bersonau sy'n arfer ar ran y Goron, swyddogaethau a roddir gan neu o dan Ddeddf.

Safonau hybu

Nid oedd y personau perthnasol a ddaw o fewn yr adroddiad safonau hwn yn dymuno cydsynio i wneud y safonau hybu yn gymwysadwy iddynt.

Safonau sy'n ymdrin â materion atodol

Ceir darpariaethau yn y Mesur sy'n ymwneud â threfniadau monitro a gofynion adrodd ar gyfer y gyfundrefn safonau (Adran 27 – Darpariaethau Atodol). Yn dilyn cymeradwyo Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015²⁶ yng Nghyfarfod Llawn Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar 24 Mawrth 2015, pennwyd safonau sy'n ymdrin â materion atodol o dan adran 26 o'r Mesur.

Noda Comisiynydd y Gymraeg ei bod hi'n ofynnol o dan gynlluniau iaith Gymraeg i bennu'r camau sydd i'w cymryd i gyhoeddi gwybodaeth ar berfformiad y sefydliad yn erbyn y gofynion statudol.

²⁶ <http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2015/996/made/welsh/data.pdf>

Mae dogfen polisi Llywodraeth Cymru “Arolygu, Archwilio a Rheoleiddio”²⁷ yn egluro mai rôl arolygwyr yw ‘gwirio’n annibynnol gan ddefnyddio arbenigedd proffesiynol a phŵer cyfreithiol’. Caiff hynny ei ategu gan Adroddiad Crerar ar arolygu yn yr Alban sy’n nodi mai rôl arolygwyr allanol yw darparu sicrwydd annibynnol fod gwasanaethau’n cael eu rheoli’n dda ac yn addas i bwrpas. Yn ôl Crerar, pum prif egwyddor arolygu yw’r angen i ganolbwyntio ar y cyhoedd; annibyniaeth; cymesuredd; tryloywder ac atebolrwydd. Mae cynigion Crerar yn gyson ag egwyddorion Hampton, sy’n nodi y dylai arolygu ddigwydd ar sail risg, na ddylid cynnal arolygon heb reswm ac y dylai rheoleiddwyr allu rhoi cyngor awdurdodol a hygyrch.

Yn yr un modd, cydnabyddir hefyd nad oes modd i gyrff arolygu oruchwylio popeth y mae darparwyr gwasanaethau yn ei wneud. Hynny yw, mae disgwyliad cynyddol ar ddarparwyr gwasanaeth i gael trefniadau craffu ac archwilio mewnol cadarn. Ymhellach at hynny, mae hunanasesu yn chwarae rhan gynyddol bwysig mewn trefniadau arolygu allanol.

Casgliad 12:

Yn sgil cynnal yr ymchwiliad safonau, ac wrth ystyried yr uchod, daw Comisiynydd y Gymraeg i’r casgliad y dylai Gweinidogion Cymru wneud y safonau sy’n ymdrin â materion atodol yn benodol gymwys i adrannau’r Llywodraeth, ac i bersonau sy’n arfer ar ran y Goron, swyddogaethau a roddir gan neu o dan Ddeddf.

²⁷ <http://gov.wales/docs/dpsp/publications/inspectionpolicystatement/090930inspstatementcy.pdf>

8 Y camau nesaf

Wrth ddarparu'r adroddiad safonau hwn mae Comisiynydd y Gymraeg wedi ystyried yr holl ymatebion a gyflwynwyd i'r ymchwiliad safonau. Caiff yr adroddiad hwn ei gyflwyno i'r isod yn unol ag adran 64(4) y Mesur:

- pob person perthnasol
- Panel Cyngori Comisiynydd y Gymraeg
- pob person a gymerodd ran yn ymgynghoriad y Comisiynydd yn unol ag adran 63
- Gweinidogion Cymru.

Ochr yn ochr ag ymchwiliadau safonau Comisiynydd y Gymraeg, disgwylir i Weinidogion Cymru gynnal asesiadau effaith rheoleiddiol mewn perthynas ag is-ddeddfwriaeth berthnasol y maent yn bwriadu ei gwneud, gan ddefnyddio eu pwerau is-ddeddfwriaethol eu hunain.

Noda Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 mai asesiad effaith rheoleiddiol yw'r isod:

A regulatory impact assessment is an assessment as to the likely costs and benefits of complying with relevant Welsh subordinate legislation.²⁸

Yn hyn o beth, gall asesiad effaith rheoleiddiol gael ei ystyried:

- yn broses i helpu Gweinidogion Cymru ystyried effaith y rheoliad arfaethedig ar fuddiannau unigolion, grwpiau, sefydliadau ac ati
- yn gyfrwng i alluogi Gweinidogion Cymru i bwysu a mesur costau a manteision yr holl opsiynau sydd ar gael iddynt cyn gweithredu polisi; ac
- yn fodd o gyflwyno'r dystiolaeth berthnasol ar effeithiau cadarnhaol a negyddol ymyriadau o'r fath at ddibenion craffu ar y dystiolaeth honno.²⁹

Bydd disgwyl i Weinidogion Cymru ystyried y dystiolaeth a gasglwyd ganddynt at ddibenion yr asesiad effaith rheoleiddiol, ochr yn ochr â chasgliadau Comisiynydd y Gymraeg mewn adroddiad safonau wrth benderfynu a ddylent arfer y pwerau sydd wedi eu rhoi iddynt o dan Ran 4 y Mesur ai peidio.

Cadarnhaodd Y Gwir Anrh. Carwyn Jones AC, Prif Weinidog Cymru yng Nghyfarfod Llawn Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar 20 Hydref 2015 na fyddai'r trydydd cylch o reoliadau yn gallu cael eu datblygu cyn diwedd cyfnod y Cynulliad hwn, ac felly y byddai hynny'n fater i'r Cynulliad nesaf.

Nid oes amserlen felly ar gyfer cyflwyno rheoliadau mewn perthynas â'r person(au) hynny a ddaw o fewn yr adroddiad safonau hwn.

²⁸ Adran 76(2)(a) Deddf Llywodraeth Cymru 2006.

²⁹ <http://gov.wales/docs/legislation/guidance/091020riacodecy.doc>

Atodiad A – Sylwadau cyffredinol a dderbyniwyd gan y cyhoedd ar ymchwiliadau safonau cylch 3

Yn yr un modd â'r cylchoedd blaenorol, roedd yr ymatebion a dderbyniwyd yn gyffredinol gefnogol i'r cysyniad o bennu safonau, a hynny er mwyn sicrhau hawliau clir i siaradwyr Cymraeg mewn perthynas â'r gwasanaethau Cymraeg a ddarperir gan yr holl sefydliadau sydd wedi eu cynnwys yng nghylch 3.

Mynegwyd cryn awydd unwaith eto gan y cyhoedd i sicrhau bod y safonau a gaiff eu pennu yn rhai sy'n glir, cadarn a dealladwy i bobl gyffredin. Ategwyd hynny gan nodi mai drwy hynny'n unig y sicheir y caiff hawliau siaradwyr Cymraeg eu diogelu.

Amlinellir isod brif themâu'r ymatebion a dderbyniwyd a oedd o blaid gwneud y safonau'n benodol gymwys:

- Yr angen i sicrhau bod pob sefydliad sydd yn darparu gwasanaethau yng Nghymru yn ddarostyngedig i ofynion Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, gan osgoi'r anghysonderau posibl a ddaw o weithredu dwy gyfundrefn statudol.
- Yr angen i sicrhau bod safonau yn sicrhau darpariaeth o wasanaethau Cymraeg yn ddiodyn, gan sicrhau bod y cysyniad o gynnig rhagweithiol yn gyson drwyddi draw.
- Sicrhau nad yw'r broses o ddyfarnu neu ddelio â thendr neu gontract uwchlaw'r angen am osod amodau iaith Gymraeg ar y grantiau/contractau a ddosberthir gan sefydliadau sydd wedi'u cynnwys yng nghylch 2.
- Yr angen i sicrhau bod safonau mewn perthynas â gwasanaeth wyneb-yn-wyneb yn mynd tu hwnt i brif dderbynfeydd a chyfarfodydd personol sydd wedi eu trefnu ymlaen llaw.
- Yr angen i sicrhau eglurder bod y diffiniad o gyfarfodydd personol yn cynnwys pob cyswllt wyneb-yn-wyneb.
- Yr angen i bennu safon sydd yn gosod gofynion clir ar bolisiâu recriwtio sefydliadau.

Derbyniwyd rhai ymatebion gan aelodau'r cyhoedd a oedd yn mynegi gwrthwynebiad cyffredinol i ddyletswyddau iaith.

Amlinellir prif themâu'r ymatebion a dderbyniwyd a oedd yn erbyn gwneud y safonau'n benodol gymwys isod:

- Yr angen i ystyried yr hinsawdd economaidd bresennol, a'r modd y caiff arian cyhoeddus ei wario ar y Gymraeg.
- Blaenoriaethu meysydd polisi eraill dros y Gymraeg.
- Perthnasedd y Gymraeg yng Nghymru.
- Anghytuno â'r gofyniad y dylai'r Gymraeg ymddangos neu gael ei chyhoeddi'n gyntaf
- Biwrocratiaeth y gofynion.

Safonau cyflenwi gwasanaethau

Derbyniwyd nifer o ymatebion oedd o'r farn y dylai bob un o'r sefydliadau yng nghylch 3 orfod gohebu â'r cyhoedd yng Nghymru drwy gyfrwng y Gymraeg. Aed rhai ymatebwyr ymlaen i nodi pwysigrwydd sicrhau mai cyfeiriadau a ffurfiau Cymraeg a ddefnyddir wrth ohebu ag unigolyn yn Gymraeg. Roeddent o'r farn y byddai hyn yn gam sylweddol tuag at hybu'r iaith Gymraeg ac i annog dinasyddion i ddefnyddio'r fersiwn Gymraeg o leoliadau.

Wrth ystyried y safonau mewn perthynas â chyfarfodydd neu ddigwyddiadau cyhoeddus, roedd nifer helaeth o'r ymatebwyr o'r farn y dylid sicrhau bod gan siaradwyr Cymraeg yr hawl i fynegi eu hunain yn y Gymraeg, ac felly y dylid sicrhau bod gofyniad arnynt i ddarparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd, neu gynnal y cyfarfod yn Gymraeg. Roedd eraill o'r farn y dylid sicrhau'r gwasanaeth hwnnw ble bo galw digonol am y gwasanaeth.

Pwysleisiwyd pwysigrwydd sicrhau gwasanaeth derbynfa cyflawn drwy gyfrwng y Gymraeg. Mynegwyd rhwystredigaeth gan rai ynglŷn â'r gwasanaeth a ddarperir ar hyn o bryd, gyda nifer o dderbynfeydd yn cyfarch yn Gymraeg ond methu delio'n llawn â'u ymholiadau hwy. Roedd eraill o'r farn y gallai'r gofyniad hwn fod yn her sylweddol i nifer o sefydliadau sydd yn gweithredu nifer o dderbynfeydd tu hwnt i'w prif dderbynfa. Cafodd y sylwadau hyn eu hategu mewn perthynas â gwasanaeth ffôn nifer o'r sefydliadau sydd yn rhan o gylch 3.

Yng nghyd-destun y safonau'n ymwneud â chynhyrchu dogfennau a ffurflenni, roedd nifer o ymatebwyr yn ystyried ei bod hi'n fwy na rhesymol i ddisgwyl i'r sefydliadau yng nghylch 3 sicrhau bod y cyhoeddiadau hynny ar gael yn Gymraeg. Aed un ymatebwr ymlaen i nodi bod modd i ddogfennau a ffurflenni gael eu cynhyrchu dogfennau dwyieithog ar-lein yn unig erbyn hyn, a thrwy hynny sicrhau bod costau cynhyrchu'n llawer is. Er hynny, roedd rhai o'r farn y dylai fod elfen gref o flaenoriaethu yma, a hynny ar sail y gynulleidfa darged, gydag eraill o'r farn mai ar gais yn unig y dylai'r dogfennau yma gael eu cynhyrchu'n Gymraeg.

Derbyniwyd nifer o ymatebion gan y cyhoedd oedd yn amlygu pwysigrwydd sicrhau bod y sefydliadau dan sylw yn sicrhau arwyddion dwyieithog ar bob achlysur. Aed rhai o'r ymatebwyr hynny ymlaen i nodi pwysigrwydd sicrhau mai'r Gymraeg fyddai'n cael blaenoriaeth, a hynny er mwyn sicrhau cysondeb ieithyddol ar draws Cymru. Er hynny, derbyniwyd rhai sylwadau oedd o'r farn na ddylid gweithredu yn y modd hwnnw, a hynny er mwyn sicrhau na fyddai unrhyw ddryswch i'r di-Gymraeg ac ymwelwyr i Gymru.

Wrth ystyried gwefannau a gwasanaethau ar-lein a ddarperir gan sefydliadau cylch 3, roedd cefnogaeth gref ar y cyfan i sicrhau gwefannau dwyieithog, a hynny gan ystyried y cynnydd yn y gwasanaethau a gynigir drwy'r cyfrwng hwn bellach, gyda rhai achosion pan fo'r gwasanaethau hynny ar gael drwy'r cyfrwng hwnnw'n unig. Tynnwyd sylw penodol at wefannau sefydliadau sy'n gweithredu ar lefel Brydeinig e.e. adrannau Llywodraeth y DU sy'n gweithredu o fewn systemau gov.uk.

Ategwyd hynny drwy dynnu sylw at y ffaith nad oes modd ei gwneud yn ofynnol i Swyddfa'r Cabinet, corff sydd â chyfrifoldeb dros y system honno, gydymffurfio â safonau heb i Weinidogion Cymru dderbyn cydsyniad yr Ysgrifennydd Gwladol. Cred yr ymatebwr y gall hynny achosi problemau mawr yn y pen draw, gyda phrofiad

unigolyn o wasanaeth yn ddibynnol ar ba gyfundrefn y daw'r sefydliad hwnnw oddi tano. Pwysleisiodd un ymatebwr bwysigrwydd gosod y safonau ar gyrff ac adrannau sydd heb eu datganoli, a hynny er mwyn codi ymwybyddiaeth o statws a phwysigrwydd y Gymraeg wrth ddarparu gwasanaethau.

Aeth rhai ymlaen i nodi'r problemau a geir gan sefydliadau sydd yn defnyddio ffeil cyfeiriadau Grŵp y Post Brenhinol, a hynny oherwydd diffyg cysondeb yn y gronfa ddata honno (PAF) o ran enwau lleoedd Cymraeg. Golyga hyn fod nifer o ffurflenni neu lythyrau a dderbynnir ganddynt â chyfeiriadau uniaith Saesneg arnynt, ac a fyddai'n peri iddynt fethu â chydymffurfio â'r safonau.

Safonau llunio polisi

Pwysleisiwyd gan nifer o'r ymatebwyr bod rhaid i bolisiâu'r sefydliadau dan sylw arddel yr egwyddor o gydraddoldeb, gan sicrhau eu bod yn cyflogi digon o siaradwyr Cymraeg er mwyn medru darparu gwasanaethau yn yr iaith honno.

Safonau gweithredu

Derbyniwyd tystiolaeth gan nifer oedd o'r farn ei bod hi'n gwbl rhesymol ac yn gymesur i'r lefel uchaf o safonau gweithredu gael eu gosod ar y cyrff hynny sydd wedi'u cynnwys yng nghylch 3, a hynny gan ystyried fod y cyrff yma'n derbyn arian cyhoeddus sylweddol nau'n gwmnïau a ddylai weithredu er budd y cyhoedd.

Er hynny, roedd un ymatebwr o'r farn nad oedd y safonau gweithredu fel y'i drafftwyd ar gyfer y cylch cyntaf yn cyflawni'r amcan o sicrhau bod rhagor o sefydliadau yn gweithio'n fewnol yn Gymraeg yn unig.

Safonau cadw cofnodion

Derbyniwyd nifer o sylwadau oedd yn cefnogi'r angen i sefydliadau gadw cofnodion, a hynny er mwyn sicrhau'r gallu i fonitro ac i archwilio chydymffurfiaeth â'r safonau eraill. Er hynny, roedd rhai o'r farn bod elfennau o'r gofynion yn fiwrocrataidd ar gyfer sefydliadau sydd yn gweinyddu'n fewnol drwy gyfrwng y Gymraeg, gydag eraill o'r farn nad yw cadw cofnodion yn weithgaredd effeithiol er mwyn gwella ansawdd ac ystod gwasanaethau cyfrwng Cymraeg.

Atodiad B – Rhestr o'r ymatebwyr i'r ymchwiliad safonau

Isod ceir rhestr o'r person(au) perthnasol y cynhaliwyd ymchwiliad safonau mewn perthynas â hwy, y Panel Cyngori ynghyd ag aelodau'r cyhoedd a oedd yn fodlon inni gyhoeddi eu sylwadau.

Personau perthnasol

- Gwasanaeth Eryl y Goron
- Cyllid a Thollau EM
- Yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd
- Ystad y Goron
- Yr Asiantaeth Safonau Bwyd
- Cynilion a Buddsoddiadau Cenedlaethol
- Yr Asiantaeth Trosedd Cenedlaethol
- Swyddfa Rheoleiddio'r Rheilffyrdd (ORR)
- Swyddfa Marchnadoedd Nwy a Thrydan (Ofgem)
- Y Swyddfa Twyll Difrifol
- Yr Awdurdod Rheoleiddio Gwasanaethau Dŵr (Ofwat)
- Swyddfa Ystadegau Gwladol
- Comisiwn Elusennau Cymru a Lloegr
- Y Gwasanaeth Cyngori, Cymodi a Chyflafareddu (ACAS)
- Yr Awdurdod Meinweoedd Dynol (HTA)
- Yr Awdurdod Ffrwythloni Dynol ac Embryoleg (HFEA)
- Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE).

Aelodau'r cyhoedd

- Aaron Jones
- Angharad Rhys
- Aled Cottle
- Aled Edwards
- Aled Lewis Evans
- Aled Powell
- Alfred S Nathan
- Alison Cummins
- Alwyn Gruffydd
- Andrew Shurey
- Anna Williams
- Annette Williams
- Anwen Evans
- Bedwyr Griffiths
- Ben Screen
- Bethan Rowlands
- Bethan Williams
- Bethan Wyn Jones
- Bob Gaffey
- Brian Dafis
- Bryn Moseley
- Carl Morris
- Carys Evans
- Catrin Stevens
- Cathryn Griffith
- Celt Roberts
- Cen Llwyd
- Ceri Owen
- Ciaran Spooner
- Colin Nosworthy
- Connor Keyes
- Curon Wyn Davies
- Cynghorydd Jeff Smith
- Dafydd Chilton
- Dafydd Frayling
- Dafydd Williams
- David Davies
- David Jones
- David Williams
- Delyth Wotherspoon
- Dorothy Williams
- Dr T H Thomas
- Eifion Glyn
- Eirian Conlon
- Elin Mair
- Enfys Jones
- Eurfyl Lewis
- Euros Jones
- Evie Wyn Jones
- Gareth Clubb
- Gareth Dobson
- Geraint Lovgreen
- Geraint Parri
- Gethin Kurtis Sugar
- Glenn Wall
- Goronwy Evans
- Gwen Bevan
- Gwydion Davies
- Gwyn Morris
- Huw Roberts
- Hynek Janoušek
- Iago ap Steffan
- Iago Sion
- Ifan Alun Puw
- Ifor Glyn Efans
- Iwan Standley
- Iwan Williams
- Jackie Owens
- James Merchant
- Jamie Bevan
- John Christopher Williams
- Jon Hicks
- Jonathan Brown
- Judith Bartley
- Judith Griffith
- Julia Burns
- Kevin Williams
- Lauren Evans
- Lisabeth Miles
- Liz Saville Roberts
- Lleucu Roberts
- Llinos Parri
- Mair Nutting
- Manon Elin
- Manon James
- Manon Owen
- Mari Evans
- Mari Gwilym
- Mary Williams
- Meic Haines
- Meinir James
- Meirion Powell
- Menna Machreth
- Miriam Collard
- Mr K Jones
- Myrddin Williams
- Nest Efans
- Neville Evans
- Nia Lloyd
- Nia Wyn Jones

- Osian Rhys
- Paul Pritchard
- Petroc ap Seisyllt
- Randal Isaac
- Richard Vale
- Robot Idris
- Ruth Evans
- Ruth Williams
- Rhian Jones
- Rhiannon Mair
- Rhisiart Morgan
- Rhobet Williams
- Rhodri Glyn
- Rhys Llwyd
- Sandra McKenzie
- Sarah Parry
- Selwyn Lloyd - Jones
- Siân Cwper
- Siân Roberts
- Sion Morris
- Sion Pennant
- Siwan Evans
- Steffan Bryn
- Stephen Taylor
- Stephen Turner
- Stephen Vaughan Thomas
- Susan Jeffries
- Tegwyn Jones
- Tim Barrell
- Tudor Williams
- Thomas Gareth Jones
- Thomas Shaw
- Wendy Lewis
- William Schleising

Sefydliadau/Mudiadau

- Cymdeithas yr Iaith Gymraeg
- Dyfodol i'r Iaith

Panel Cyngori Comisiynydd y Gymraeg

- Bethan Jones Parry
- Carl Cooper
- Dr Heledd Iago
- Meinir Davies
- Nick Speed